
# Adroddiad Blynyddol y Cynllun Corfforaethol
## 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022



## RHAGAIR

Ganol mis Mawrth 2020, aeth y Cyngor ati i ymateb ar frys i'r sefyllfa o argyfwng cenedlaethol oedd yn datblygu o ran COVID-19. Gwnaed ymdrech aruthrol i sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn unol â'r penderfyniadau polisi a wnaed gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Wrth i ni symud i mewn i ail flwyddyn (2021/2022) y pandemig, cynorthwywyd ein hymateb yn fawr gan argaeledd brechlynnau Covid-19. Roeddem ni'n falch o fedru cynnig cefnogaeth bellach i'n GIG, gan drosi cyfleusterau yn Orendy Margam er mwyn ei ddefnyddio'n ganolfan brechu torfol ac addasu llyfrgell deithiol i'w defnyddio'n ganolfan frechu symudol. Roedd y ganolfan frechu symudol yn golygu bod modd i'r rhai anoddaf eu cyrraedd gael mynediad i'r rhaglen frechu. Hefyd fe wnaethon ni ddarparu cyfleusterau ar gyfer ehangu profion Covid-19 yn gyflym mewn amrywiol leoliadau ar draws y fwrdeistref sirol.

Daliwyd ati i weinyddu rhaglenni cymorth ariannol y llywodraeth. Roedd hynny'n golygu bod modd darparu cymorth ariannol yn gyflym i fusnesau lleol a hefyd i drigolion unigol – er enghraifft, trigolion yr oedd gofyn iddyn nhw hunanynysu, a'r rhai yr oedd eu plant yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Ochr yn ochr â'n hymateb parhaus i'r pandemig, daliwyd ati i gyflawni'r blaenoriaethau a bennwyd gennym yn ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2021/2023 ac yn yr Adroddiad Blynyddol hwn cewch ragor o wybodaeth am y gwaith hwnnw a'r gwahaniaeth a wnaed gennym ni.

Wrth symud ymlaen, mae'r pwyslais ar gydweithio i helpu'r fwrdeistref sirol i barhau i ymadfer a gwneud Castell-nedd Port Talbot yn lle mae pawb ohonom ni'n ymfalchïo ynddo. Mae nifer o heriau yn ein hwynebu, ond fe wnaethom ni ddysgu trwy'r pandemig fod modd i ni gyflawni pethau rhyfeddol pan ddeuwn at ein gilydd.

**Y Cyng. S Hunt, Arweinydd y Cyngor**

## Cynnwys


*1. Cyflwyniad* *4*

*2. Crynodeb o Gynnydd ers 2017/18* *5*

*3. Crynodeb o Gynnydd a Pherfformiad yn ystod 2021/22* *6*

*4. Amcan Llesiant 1 – Cynnydd yn 2021/22* *13*

*5. Amcan Llesiant 2 – Cynnydd yn 2021/22* *40*

*6. Amcan Llesiant 3 – Cynnydd yn 2021/22* *65*

*7. Llywodraethu ac Adnoddau* *94*

*8. Gwariant Ariannol* *96*

*9. Rhowch eich barn ar y pethau sy'n bwysig i chi* *97*


Mae'r Adroddiad hwn ar gael yn Saesneg ac ar ein gwefan.

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn adrodd am gynnydd a wnaed yn erbyn y tri amcan llesiant, y blaenoriaethau gwelliant a'r camau a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol 2021/2023 ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022.

Adroddiad Blynyddol 2021/22 yw'r flwyddyn olaf o adrodd ar y tri amcan llesiant a fu ar waith gennym ers mis Medi 2017.

Wrth baratoi'r Adroddiad Blynyddol hwn ar gyfer 2021/22, mae gofyn bod y Cyngor yn ystyried a yw'r amcanion llesiant yn parhau'n berthnasol neu a ddylid ystyried newidiadau i'r amcanion hynny. Cychwynnodd yr ystyriaeth honno yn haf 2021, pan lansiwyd ymgyrch 'Dewch i Sgwrsio', oedd yn gyfle i'r trigolion a'r rhanddeiliaid gynnig barn, pryderon a syniadau i helpu i lunio ein gwaith yn y dyfodol. Bu'r adborth o gymorth i lunio dogfen newydd Cynllun Corfforaethol 2022/2027, a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 28 Chwefror 2022 ac a gafodd ei mabwysiadu gan y Cyngor ar 1 Mawrth 2022. Mabwysiadwyd pedwar amcan llesiant newydd. Gan fod yr amcanion llesiant newydd wedi'u cytuno ar 28 Chwefror 2022, ni farnwyd bod angen gwneud unrhyw newidiadau i Gynllun Corfforaethol newydd 2022/2027 bryd hynny.

Mae'r ddogfen hon, Adroddiad Blynyddol 2021/22, yn adrodd am gynnydd ar flwyddyn olaf y set bresennol o amcanion llesiant ac yn darparu crynodeb byr o'r cyflawniadau ers 2017.

Mae'r ddogfen newydd Cynllun Corfforaethol 2022/2027 – Adfer, Ailosod, Adnewyddu yn cyflwyno ein meddyliau ynghylch sut byddwn ni'n mynd ati i ymadfer yn y tymor byr, canolig a hwy. Fe'i llywiwyd gan lawer o bobl – trigolion, cyflogeion, aelodau etholedig, sefydliadau cymunedol, busnesau a phartneriaid eraill. Rydym hefyd wedi defnyddio cryn dipyn o dystiolaeth i ddeall sut mae pethau wedi newid o ganlyniad i'r pandemig, ac wedi edrych ar ddylanwadau ehangach, fel y newid yn yr hinsawdd, amharu digidol a pholisi'r llywodraeth. Rhennir y cynllun yn nifer o adrannau sy'n cynnwys gwybodaeth am ein hymateb i Covid-19; crynodeb o effeithiau Covid-19; sut rydym ni'n bwriadu ailagor ac ymadfer; sut rydym ni'n bwriadu ailosod ac adnewyddu ac ailosod ac adnewyddu ein pwrpas, ein gweledigaeth a'n gwerthoedd; sut rydym ni'n bwriadu cyflawni ein gweledigaeth; y rhaglen o newid strategol er mwyn cyflawni'r cynllun a sut byddwn ni'n mesur llwyddiant ac yn monitro cynnydd o ran y cynllun newydd.

## 2. Crynodeb o Gynnydd ers 2017/18

Bu'r tri amcan llesiant y manylir arnynt yn y ddogfen hon, Adroddiad Blynyddol 2021/22, yn eu lle ers mis Medi 2017. Yn ystod y cyfnod hwn, a hyd at 31 Mawrth 2022, at ei gilydd, rydym wedi parhau ar y llwybr cywir o ran cyflawni pob un o'r amcanion llesiant bob blwyddyn. Mae hynny yn erbyn cefndir effeithiau ac aflonyddu sylweddol y pandemig yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Yr unig eithriad i hyn oedd bod Amcan Llesiant 1 – Gwella llesiant plant a phobl ifanc, at ei gilydd, 'fymryn oddi ar y llwybr cywir' yn 2020/21. Y prif reswm am hyn oedd effaith pandemig Covid-19, y cyfyngiadau cenedlaethol ac effaith hynny ar lefelau cyswllt ac ymgysylltiad â phlant a phobl ifanc.

Yn ystod y cyfnod, rydym wedi cyflwyno nifer o welliannau, yn eu plith:

- Cwblhau cyfnod cyntaf (Band A) Rhaglen Wella Ysgolion yr 21ain Ganrif (e.e. moderneiddio ysgolion ac adeiladau newydd) a daliwyd ati â'n Rhaglen oedd yn cynnwys parhau â chyfnod 1 o'r cartref newydd gwerth £27 miliwn ar gyfer Ysgol Gyfun Cefn Saeson a chyfleuster newydd £9m ar Gampws Ystalyfera Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur;
- Daliwyd ati i gefnogi'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant, a darparwyd cymorth ychwanegol ar hyd y pandemig;
- Mae ein ffigurau NEET (Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) o ran ymadawyr blwyddyn 11 wedi gwella o 3.55% yn 2016/17 i'n ffigur isaf erioed, 2.12%, yn 2020/21;
- Daliwyd ati i wella systemau a phrosesau er mwyn helpu i ymateb i angen ein defnyddwyr gwasanaeth ar draws Gofal Cymdeithasol;
- Parhaodd y gwaith adfywio ar draws y fwrdeistref sirol, gan gynnwys Canol Tref Castell-nedd, adnewyddu Sinema'r Plaza, ailddatblygu hen orsaf yr heddlu, Tŷ Aberafan ac Ysgol Glanafan (a gwblhawyd ar ffurf unedau preswyl), cwblhau prosiect Glannau'r Harbwr (llys ynadon gynt), gwaith ailddatblygu ar hen adeilad Crown, a rhoddwyd caniatâd cynllunio amodol ym mis Gorffennaf 2021 ar gyfer prosiect Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd (GCRE) gwerth £150 miliwn ym mhen uchaf Cwm Dulais a De Powys;
- Gostyngiad cyson yn y damweiniau traffig ffyrdd ers 2015, o 216 o ddamweiniau a gofnodwyd yn 2015 i 94 yn 2021;
- Mae'r gwelliannau i'n parciau a'n mannau gwyrdd, gwelliannau teithio llesol, gan gynnwys cynyddu nifer y llwybrau beicio hygyrch a chyflwr ein ffyrdd, wedi gwella o flwyddyn i flwyddyn;

- Ers mis Ebrill 2017, mae 2,153 o swyddi wedi cael eu creu/diogelu o ganlyniad i gefnogaeth ariannol gan y Cyngor, a daliwyd ati i gyflwyno rhaglenni cyflogadwyedd fel Gweithffyrdd+, Cymunedau dros Waith a Chymunedau dros Waith a Mwy, i gynorthwyo pobl economaidd segur a di-waith i sicrhau a chynnal cyflogaeth; ac
- Mae ein cyfraddau Ailgylchu wedi codi i 66%.

## 3. Crynodeb o Gynnydd a Pherfformiad yn ystod 2021/22

### Cynnydd:

**Amcanion llesiant – Sut gwnaethon ni?** – At ei gilydd, roedden ni ar y llwybr cywir i gyflawni pob un o'r tri amcan llesiant ar gyfer 2021/22. Ceir crynodeb o bob amcan llesiant isod, ac mae gwybodaeth fanylach yn adrannau 4 i 6 o'r adroddiad blynyddol hwn.

O dan bob amcan llesiant mae blaenoriaethau a chamau gwelliant. Mae'r blaenoriaethau gwelliant yn cyflwyno'r gwelliant cyffredinol rydym ni'n ceisio ei gyflawni, ac mae'r camau'n nodi'r gweithredoedd strategol a fydd ar waith gennym i gyflawni'r gwelliant hwnnw.

O ran y 'Camau' yn y cynllun corfforaethol ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau, yn achos 2021/22, roedd 77% (72 o 93) ar y llwybr cywir, a 21 'ryw fymryn oddi arno'. Mae hyn yn welliant o gymharu â 2020/21 pan oedd 65% (54 o 83) o'r camau ar y llwybr cywir, roedd 24 o'r camau 'fymryn' oddi arno, a 5 'oddi ar y llwybr'.  Yn 2019/20 adroddwyd bod 83% (68 o 83) o'r camau ar y llwybr cywir. At ei gilydd mae'r cynnydd o ran y camau hyn yn dangos bod gwasanaethau'n dechrau ymadfer a'u bod wedi gwella o gymharu â 2020/21, pryd y cafodd y pandemig effaith aruthrol.

**Amcanion llesiant – Sut gwnaethon ni?**

**Isod ceir crynodeb o gynnydd at gyflawni pob amcan llesiant yn 2021/22:**

| **Amcan Llesiant 1 – Gwella llesiant plant a phobl ifanc** | **GWYRDD Ar y Llwybr Cywir** |
|---|---|
| Cyflwynwyd 30 o gamau i'n helpu i gyflawni'r 7 blaenoriaeth gwelliant o dan Amcan Llesiant 1 yn 2021/22.<br><br>Roedd pob un o'r 7 blaenoriaeth gwelliant 'ar y llwybr cywir' at ei gilydd yn 2021/22. Yn 2020/21, roedd 2 o'r 7 blaenoriaeth gwelliant ar y llwybr cywir, gyda 5 'fymryn oddi ar' y llwybr cywir, a chafodd y pandemig effaith fawr ar gynnydd y rhain yn 2020/21.<br><br>Yn achos 2021/22, roedd 93% (28 o 30) o'r camau ar y llwybr cywir, gyda 2 gam 'fymryn oddi ar' y llwybr cywir. Mae hwn yn welliant sylweddol ar 2020/21, lle roedd 56% (15 o 27) o'r camau ar y llwybr cywir.<br><br>Ceir gwybodaeth grynodol yn y Crynodeb o Adroddiad Blynyddol 2021/22 ar y Cynllun Corfforaethol | |

| **Amcan Llesiant 2 – Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol** | **GWYRDD Ar y Llwybr Cywir** |
|---|---|
| Cyflwynwyd 31 o gamau i'n helpu i gyflawni'r 8 blaenoriaeth gwelliant ar gyfer Amcan Llesiant 2 yn 2021/22.<br><br>Roedd 6 o'r 8 blaenoriaeth gwelliant ar y llwybr cywir a 2 'fymryn oddi ar' y llwybr cywir yn 2021/22. Yn 2020/21, roedd | |

| |
|---|
| 4 o’r 6 blaenoriaeth gwelliant ar y llwybr cywir, gyda 2 ‘fymryn oddi ar’ y llwybr cywir.<br><br>Yn 2021/22, roedd 65% (20 allan o 31) o'r camau ar y llwybr cywir, gydag 11 o gamau 'ryw fymryn oddi ar' y llwybr. Yn 2020/21, roedd 65% (20 allan o 31) ar y llwybr cywir, 10 'ryw fymryn oddi ar' y llwybr, ac un heb fod ar y llwybr cywir<br><br>Ceir gwybodaeth grynodol yn y Crynodeb o Adroddiad Blynyddol 2021/22 ar y Cynllun Corfforaethol |

| **Amcan Llesiant 3 – Datblygu’r amgylchedd a’r economi lleol fel bod modd gwella llesiant pobl** | **GWYRDD Ar y Llwybr Cywir** |
|---|---|
| Cyflwynwyd 32 o gamau i’n helpu i gyflawni’r 9 blaenoriaeth gwelliant ar gyfer Amcan Llesiant 3 yn 2021/22.<br><br>Roedd 7 o’r 9 blaenoriaeth gwelliant ar y llwybr cywir a 2 ‘fymryn oddi ar y llwybr’ yn 2021/22. Yn 2020/21, roedd 6 o’r 8 blaenoriaeth gwelliant ar y llwybr cywir, gyda 2 ‘fymryn oddi ar’ y llwybr.<br><br>Yn achos 2021/22, roedd 75% (24 o 32) o’r camau ar y llwybr cywir, gydag 8 cam ‘fymryn oddi ar’ y llwybr cywir. Yn 2020/21, roedd 76% (19 o 25) o’r camau ar y llwybr cywir, 5 ‘fymryn oddi ar’ y llwybr cywir, ac un cam wedi gadael y llwybr cywir.<br><br>Ceir gwybodaeth grynodol yn y Crynodeb o Adroddiad Blynyddol 2021/22 ar y Cynllun Corfforaethol | |

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol – Sut gwnaethon ni?

Er mwyn asesu ein perfformiad o ran cyflawni ein hamcanion llesiant, ochr yn ochr â'r cynnydd ar ein 'Camau', ar gyfer 2021/22 defnyddiwyd 58 o ddangosyddion perfformiad (Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Cynllun Corfforaethol).

Mae'r crynodeb isod yn dangos bod cyfran uwch o ddangosyddion perfformiad allweddol y cynllun corfforaethol wedi cyrraedd eu targedau yn 2021/22 o gymharu â 2020/21 a 2019/20 a bod canran y gwelliant wedi codi 3% o gymharu â 2020/21.

***Dylid bod yn wyliadwrus wrth gymharu gan fod pandemig Covid-19 wedi effeithio ar berfformiad rhai mesurau ar draws 2020/21 a 2021/22**.

- **Cymharu yn erbyn Targedau** – Yn ystod 2021/22, o'r dangosyddion perfformiad oedd â thargedau cymaradwy, cyflawnodd 70% (28 o 40) y targed, roedd 7.5% (3 o 40) o fewn 5% i'r targed, ac roedd 22.5% (9 o 40) 5% neu fwy o dan y targed.
  Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â 2020/21 lle cyflawnodd 61% (23 o 38) y targed, roedd 18% (7 o 38) o fewn 5% o'r targed, ac roedd 21% (8 o 38) 5% neu fwy o dan y targed a osodwyd. Yn 2019/20, cyrhaeddodd 54% y targed.

- **Cymharu yn erbyn perfformiad y flwyddyn flaenorol** - Yn 2021/22, bu 60% (29 o 48) yn gwella neu'n cynnal perfformiad, 15% (7 o 48) yn gostwng ryw fymryn, ond o fewn 5%, a bu 25% (12 o 48) yn gostwng 5% neu fwy.
  Yn 2020/21, bu 57% (24 o 42) yn gwella neu'n cynnal perfformiad, roedd gostyngiad bychan yn achos 24% (10 o 42), ac roedd 19% (8 o 42) wedi gostwng 5% neu fwy. Yn 2019/20, bu 63% (32 o 51) yn gwella neu'n cynnal perfformiad.

- Ymhlith yr enghreifftiau o welliannau mae mwy o ddisgyblion blwyddyn 11 yn astudio Cymraeg iaith gyntaf, sy'n debygol o gynyddu'n gyson yn ystod y 3 blynedd nesaf, asesiadau plant a gwblhawyd yn brydlon (99%), canlyniadau'r rhaglen gyflogadwyedd, gan gynnwys gweithffyrdd, cymunedau dros waith i'r grŵp oed 16-24 a chymunedau dros waith a mwy, cynnydd yn y prentisiaethau o fewn y cyngor, prosesu budd-daliadau'n gyflymach, gwelliant pellach yng nghyflwr ffyrdd A, B ac C, cynnydd yn nhreth y cyngor a'r trethi casglu Cenedlaethol Annomestig, rhagor o wasanaethau ar gael ar-lein.

- Llwyddwyd hefyd i gyflawni neu ragori ar ein targedau ar gyfer ystod o fesurau sy'n cynnwys ein cyfraddau ailgylchu (er bod y gyfradd ailgylchu wedi gostwng rhyw fymryn), glendid strydoedd, sefydliadau bwyd oedd yn bodloni safonau hylendid bwyd (97%), canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref, ein ffigur NEET, gwersi cydberthynas iach i ddisgyblion, mesur ansawdd aer, creu/diogelu 410 o swyddi o ganlyniad i gefnogaeth ariannol gan yr awdurdod, a % etholwyr llywodraeth leol a ddilyswyd ac a gofrestrwyd i bleidleisio.

- Mae rhai elfennau o'n perfformiad wedi dirywio a/neu fethu â chyrraedd targedau yn ystod y flwyddyn, mae bron pob un o'r rhain yn dal i deimlo effeithiau'r pandemig mewn rhyw fodd, gan gynnwys presenoldeb yn yr ysgol, yr amser a gymerir ar gyfartaledd i gwblhau Grant Cyfleusterau i'r Anabl (GCA), canlyniadau 25+ oed Cymunedau dros Waith, atgyfeiriadau eildro risg uchel cam-drin domestig, yr amser a gymerir i glirio sbwriel a gafodd ei ddymchwel yn anghyfreithlon, ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt yn brydlon a chyfraddau salwch y cyngor (sydd wedi codi'n sylweddol). Roedd yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i ateb galwadau ffôn gan y cyhoedd yn is na'r targed, gyda gostyngiad bychan mewn perfformiad ar gyfer y flwyddyn, ond gwelwyd gwelliant ym mherfformiad ail hanner y flwyddyn. Mae'r cyswllt â phobl ifanc trwy'r gwasanaeth ieuenctid a'r ymweliadau â theatrau, canolfannau hamdden a llyfrgelloedd yn dal yn is na'r lefelau cyn y pandemig.

- **Meincnodi Perfformiad y Cyngor** – Yn flaenorol, ar lefel y cyngor, rydym wedi cymharu ein perfformiad ag awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru yn erbyn y set genedlaethol o Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAMs). Fodd bynnag, peidiwyd â chasglu'r mesurau hyn a'u cymharu'n genedlaethol yn 2021. Serch hynny, mae nifer o'r

mesurau hyn yn dal i gael eu meincnodi gan ein meysydd gwasanaeth. Mae nifer o wasanaethau hefyd yn rhannu arfer da a gwybodaeth trwy grwpiau meincnodi.

Ar hyn o bryd mae Data Cymru yn datblygu cyfres o fesurau gyda chefnogaeth awdurdodau lleol, gan gynnwys Castell-nedd Port Talbot, y mae modd eu defnyddio ar gyfer meincnodi ar lefel y cyngor a gwasanaethau. Yn y cyfamser, bydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn adolygu ein trefniadau meincnodi ein hunain er mwyn eu cryfhau a'u gwella ymhellach. Ar lefel weithredol, mae meysydd gwasanaeth 2022/23 wedi cwblhau hunanasesiad o berfformiad wrth ddatblygu eu Cynlluniau Adferiad Gwasanaethau. Oddi mewn i ganllawiau'r Cynlluniau hyn, anogir gwasanaethau i feincnodi eu perfformiad (e.e. yn erbyn sefydliadau eraill) lle mae data ar gael. Bydd y broses hon yn cael ei hadolygu a'i chryfhau ymhellach yn ystod 2022/23.

Mae'r tair adran nesaf (adrannau 4 -6) yn cyflwyno asesiad mwy manwl o'n llwyddiant i gyflawni ein hamcanion llesiant trwy ddarparu asesiad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r camau (y camau gweithredu manwl) o dan bob amcan llesiant a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a nodwyd er mwyn mesur cynnydd o ran cyflawni'r amcanion llesiant. Ceir sylwadau manylach ar berfformiad yng nghyswllt y Dangosyddion Perfformiad Allweddol hyn yn Adroddiad 2021/22 ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

Mae statws CAG (Coch, Ambr, Gwyrdd) pob cam wedi'i seilio ar yr allwedd ganlynol:

- **Gwyrdd**: ar y cyfan cyflawnwyd yr hyn a fwriadwyd yn ystod 2021/22
- **Ambr**: fymryn oddi ar y llwybr, nid ydym wedi cyflawni peth o'r hyn a gynlluniwyd yn ystod 2021/22, effeithiwyd ar rywfaint o'r gwaith gan y pandemig neu reswm arall
- **Coch**: Wedi gadael y llwybr o ran cyflawni'r hyn a gynlluniwyd yn ystod 2021/22, neu cafodd peth o'r gwaith neu'r cyfan ohono ei oedi neu effeithiwyd arno gan y pandemig neu reswm arall

Mae statws CAG pob Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) wedi'i seilio ar yr allwedd ganlynol:

- **Gwyrdd**: cyflawnwyd targed 2021/22 - cafodd perfformiad 2020/21 ei gynnal neu ei wella
- **Ambr**: o fewn 5% i gyrraedd y targed – o fewn 5% i berfformiad y llynedd
- **Coch**: 5% neu fwy o dan y targed – 5% neu fwy o dan berfformiad y flwyddyn flaenorol
- **Amh** – dim data cymaradwy neu dim targed wedi'i bennu

Ar ddechrau adran cynnydd pob un o'r amcanion llesiant, cynhwysir gwybodaeth ynghylch sut mae ein hamcanion llesiant yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol sy'n rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gwneir y cyfraniad hwn trwy ein dull o weithio'n unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n rhan o'r Ddeddf.

## 4. Amcan Llesiant 1 – Cynnydd yn 2021/22



**Amcan Llesiant 1:** Gwella llesiant plant a phobl ifanc:

*"Bod ein holl blant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, er mwyn iddyn nhw fod y gorau gallan nhw fod"*

| Sut mae'r amcan llesiant hwn yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol: | |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Nod y gyfres o flaenoriaethau a chamau, ar y cyd, yw sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn mynd i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant ar ddiwedd addysg amser llawn, yn barod i wneud cyfraniad cymdeithasol ac economaidd. |
| **Cymru iachach** | Mae pob ysgol yn CNPT yn "Ysgol Iach" ac mae gan y fwrdeistref sirol hefyd gyfraddau cyfranogiad da mewn gweithgaredd corfforol. Ffocws yn y Cynllun hwn yw rhoi mwy o bwyslais ar lesiant emosiynol er mwyn rhoi i blant a phobl ifanc y sgiliau, yr ymddygiad a'r gefnogaeth mae arnyn nhw eu hangen. Ar ben hynny, bydd rhaglenni rhianta yn targedu'r teuluoedd hynny sydd â'r angen mwyaf am gefnogaeth. Mae gan y Cyngor ddata da ar gyfer canfod ble mae gwahaniaethau cyrhaeddiad a chanlyniadau yn achos plant a phobl ifanc o wahanol gefndiroedd, ac mae rhaglenni yn eu lle i roi sylw i anghydraddoldeb ac annhegwch. |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Mae pwyslais cryf ar sicrhau cydraddoldeb a dathlu amrywiaeth ar draws ystod o weithgareddau. Hefyd mae cydnabyddiaeth a gwaith i ymdrin ag anghydraddoldeb yn ei holl ffurfiau, p'un a yw mewn perthynas â dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â phobl â nodweddion gwarchodedig, yn anghydraddoldeb oherwydd gwahaniaethau incwm, neu'n digwydd yn ôl a yw plant a phobl ifanc yn derbyn gofal gan eu teuluoedd eu hunain neu'r cyngor. |

| Sut mae'r amcan llesiant hwn yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol: | |
|---|---|
| | Mae rhaglenni i addysgu plant a phobl ifanc am ddiogelwch personol a chymunedol wedi ennill eu plwyf ers meitin, ond mae'r Cynllun hwn yn cydnabod bod angen adolygu ein rhaglenni'n barhaus i sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol. Er enghraifft, mae paratoi plant a phobl ifanc i gadw'n ddiogel ar-lein wedi dod yn faes ffocws allweddol oherwydd bod Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, radicaleiddio ac ymddygiad troseddol arall yn digwydd ar-lein. |
| **Cymru gydnerth** | Mae plant a phobl ifanc yn cael eu cyflwyno i bwysigrwydd yr ecosystemau a'n hamgylchedd trwy weithgareddau â ffocws teuluol yn yr amgylchedd naturiol. Dylai manteision cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn gynyddu llesiant a meithrin mwy o werthfawrogiad o rôl yr amgylchedd naturiol yn eu bywydau. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Mae lleihau anghydraddoldeb ac annhegwch yn thema gref ar draws y blaenoriaethau a ddatblygwyd i gefnogi cyflawni'r amcan hwn. Mae ffocws arbennig ar y plant sy'n wynebu'r risg uchaf o ddioddef profiad niweidiol yn ystod eu plentyndod, gyda'r bwriad o gryfhau gwaith ataliaeth ac ymyrraeth gynnar. Mae ymrwymiad hefyd i adeiladu ar ein gwaith hawliau plant er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael lleisio barn ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Mae gan y fwrdeistref sirol gyfraddau cyfranogiad da mewn gweithgaredd corfforol, ac mae ystod eang o gyfleoedd diwylliannol. Mae cynlluniau i gryfhau addysg Gymraeg a dwyieithog mewn lleoliadau addysg cyn-ysgol ac addysg amser llawn. Mae gan y Cyngor Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg sy'n cefnogi amcanion y Cyngor i gynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n gwneud hynny bob dydd. Byddwn ni hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Chomisiynydd y Gymraeg i geisio cefnogaeth i'n helpu i gyflawni ein safonau. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Mae'r gwaith a gyflwynir yn yr amcan llesiant hwn yn cyfrannu at y byd ehangach mewn llawer o ffyrdd. Er enghraifft, bydd y buddsoddiad technolegol trwy ein rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn trawsffurfio sut mae plant a phobl ifanc yn cael mynediad at ddysgu, gan ddod â phrofiadau o bob rhan o'r byd i ystafelloedd dosbarth CNPT, ochr yn ochr â meithrin sgiliau addas ar gyfer marchnadoedd llafur y dyfodol. |

**Amcan Llesiant 1 – Cynnydd yn ystod 2021/22:**

| | |
|---|---|
| **Amcan Llesiant 1**<br>**Gwella llesiant plant a phobl ifanc** | |
| **Blaenoriaeth Gwelliant 1.1 - Bydd plant yn eu blynyddoedd cynnar yn elwa o raglenni cyn ysgol integredig ac effeithiol sy'n mwyafu eu llesiant a'u parodrwydd i ddysgu** | **GWYRDD** |
| **Cam 1.1.1** - Byddwn ni'n gweithredu'r camau a nodwyd o'n cynllun gweithredu Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, gan gynnwys gweithredu rhaglenni Llywodraeth Cymru a defnyddio cyllid perthnasol i gynyddu argaeledd ac ansawdd gofal plant | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y Cam:**<br>• Yn ystod 2021/22, derbyniwyd a phroseswyd 774 o geisiadau am y Cynnig Gofal Plant, mwy na'r 597 a broseswyd yn 2020/21. Ym mis Ebrill 2022, roedd 914 o blant yn derbyn gofal plant gweithredol trwy'r Cynnig. Ar ben hynny, roedd 184 o ddarparwyr gofal plant wedi'u cofrestru i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant i deuluoedd yng Nghastell-nedd Port Talbot, a thalwyd dros £2 filiwn i ddarparwyr gofal plant oedd yn weithredol fel rhan o'r cynnig yn ystod 2021/22. Roedd £108,310 pellach wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol i gael mynediad i'r Cynnig Gofal Plant.<br>• Agorodd lleoliad gofal plant ac ystafell ddosbarth newydd yn swyddogol ym mis Mawrth 2022 yn Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmllynfell ac mae lleoliad gofal plant newydd sbon wedi cael ei gwblhau yn Ysgol Gynradd Waunceirch.<br>• Darparwyd 2339 o leoedd gofal plant diwrnod llawn ddiwedd Mawrth 2022, fymryn yn is na'r targed o 2400.<br>• Cyflwynwyd rhaglen hyfforddi amrywiol o safon i ymateb i anghenion darparwyr gofal plant, a hynny ar-lein ac wyneb yn wyneb. Bu nifer dda yn mynychu'r rhaglen, a chafwyd adborth cadarnhaol gan y cyfranogwyr. Buom ni hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau cenedlaethol trosfwaol i sicrhau bod yr hyfforddiant yn ymateb i anghenion y sector.<br>• Mae'r Swyddog Hyfforddiant a Phontio Gofal Plant a Gweithiwr Allweddol Pontio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) wedi bod yn | |

| | |
|---|---|
| cydweithio i greu protocol pontio ar gyfer pob lleoliad ac ysgol yng Nghastell-nedd Port Talbot. Nod y protocol yw sicrhau bod ysgolion yn cael gwybod am unrhyw blant ag anghenion sylweddol sydd i gychwyn yn y tymor canlynol, a bod cyfarfodydd pontio unigol yn cael eu trefnu lle bo angen, yn arbennig mewn perthynas â phlant y nodwyd bod ganddynt angen dysgu ychwanegol a nodwyd. | |
| **Cam 1.1.2** – Bydd teuluoedd sy'n cael trafferth darparu gofal rhianta da i'w plant yn cael cefnogaeth wedi'i theilwra. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Trwy Gronfa Datblygiad Plant Llywodraeth Cymru, cyflwynwyd £362,000 o gymorth i blant 0-5 oed y mae Covid wedi cael effaith niweidiol ar eu datblygiad. Roedd y cymorth hwn yn cynnwys cyflwyno 72 o sesiynau chwarae awyr agored ysgol coedwig i 504 o blant, 18 o sesiynau llesiant teuluol a gyflwynwyd i 132 o deuluoedd, a phecynnau unigryw o gefnogaeth i 64 o blant ag anghenion dysgu ychwanegol ar draws 10 lleoliad. Bu gweinyddes feithrin amser llawn yn gweithio ochr yn ochr â Thîm Anabledd Plant Bae Abertawe i gefnogi datblygiad a iechyd meddwl a llesiant 195 o blant a theuluoedd wrth iddyn nhw ddisgwyl am asesiad pediatrig.<br>• Cyflwynodd timau rhianta Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg amrywiaeth o gefnogaeth rhianta 1:1 ac mewn grwpiau i rieni plant o bob oed, a sicrhawyd cyllid trwy Raglen Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar i gyflogi dau weithiwr chwarae i ddarparu cymorth rhianta seiliedig ar chwarae, megis iaith a chwarae, a sesiynau aros a chwarae gyda phlant a'u rhieni/gofalwyr.<br>• Defnyddiwyd cyllid ychwanegol trwy'r Grant Rhianta Allan o'r Llys i gynyddu capasiti yn y timau rhianta i gefnogi Adran 1 o Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) 2020, a ddaeth i rym ar 21 Mawrth 2022. Cytunwyd ar lwybr ymateb gyda Heddlu De Cymru a'n Hadran Gwasanaethau Cymdeithasol. | |
| **Cam 1.1.3 -** Byddwn ni'n cyflwyno rhaglen genedlaethol ac ymyrraeth wedi'i thargedu trwy raglen Bookstart er mwyn cyflwyno llythrennedd a rhifedd i blant ifanc a babanod. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>Wedi i gyfyngiadau Covid gael eu llacio, o fis Tachwedd 2021, mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi ailsefydlu rhaglen lawn o sesiynau Cân a Rhigwm Bookstart. Cyflwynwyd 58 ohonynt ym mhob un o'r 8 llyfrgell sydd gennym, i 990 o blant a'u teuluoedd (roedd cyfyngu ar | |

| | |
|---|---|
| niferoedd ar hyd y cyfnod hwn). Cynhwysir rhaglen reolaidd o sesiynau Cymraeg – Sesiwn Ganu – a gynhelir mewn partneriaeth â'r Fenter Iaith. | |
| **Cam 1.1.4 -** Cam – Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno cefnogaeth amlasiantaeth, gydlynus i'r plant hynny sydd mewn perygl o ddioddef profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**

- Yn ystod 2021/2022, derbyniodd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd 1,366 o ymholiadau (82% gan rieni a gofalwyr), yn bennaf mewn perthynas â'r Cynnig Gofal Plant a chefnogaeth arall i blant a phobl ifanc. Defnyddiwyd y gwasanaeth hefyd gan ystod o weithwyr proffesiynol i holi ynghylch cefnogaeth neu wasanaethau ar gyfer y teuluoedd maen nhw'n gweithio gyda nhw.
- Daliwyd ati i fod yn asiantaeth arweiniol ar gyfer Rhaglen Fraenaru ranbarthol Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar, sy'n ceisio datblygu system gydlynus, integredig ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Defnyddiwyd rhyw £400,000 ar draws rhanbarth Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe i gyflwyno prosiectau peilot. Ymhlith themâu'r prosiectau mae iaith a lleferydd, maeth yn y blynyddoedd cynnar, cymorth i deuluoedd a chefnogaeth ADY.
- Derbyniodd y Panel amlasiantaeth Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth atgyfeiriadau ar gyfer 1,821 o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn ystod 2021/22, cynnydd o 27.5% o gymharu â 2020/21. Gwnaed rhyw 19% o'r atgyfeiriadau gan deuluoedd eu hunain.
- Darparodd y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf wasanaethau ymyrraeth gynnar (cam-drin domestig, llesiant emosiynol a meddyliol, cefnogaeth i blant ag anableddau, rhianta, cefnogaeth), a gwnaed 1,393 o atgyfeiriadau cefnogaeth. Cafodd 70% o'r cyfranogwyr a fu'n ymgysylltu â'r gwasanaeth ac a gwblhaodd eu rhaglen o gefnogaeth ganlyniadau cadarnhaol, gan gynnwys gwell llesiant emosiynol/meddyliol, mwy o allu i gefnogi anghenion dysgu a datblygiad eu plentyn, a gwelliannau i berthnasoedd teuluol.
- Ar ben hynny, yn ystod 2021/22 darparodd y Rhaglen Dechrau'n Deg y canlynol:
    - Gofal plant rhan amser wedi'i ariannu ar gyfer plant 2-3 oed, a gyflwynwyd ar draws 30 o leoliadau gofal plant o safon uchel i ryw 500 o blant.
    - Gwasanaeth ymweliadau iechyd dwys yn darparu rhaglen Plentyn Iach Cymru yn ogystal ag ymweliadau lefel uwch, cefnogaeth a grwpiau wedi'u teilwra i 1,713 o blant o dan 4 ar gyfartaledd.

- 330 o becynnau unigol o gefnogaeth i rieni.
- 93 o becynnau unigol un i un o gefnogaeth ar gyfer datblygiad iaith, lleferydd a chyfathrebu.

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth gwelliant 1.2 - Bydd plant oed ysgol yn fwy diogel, yn iachach, ac wedi ymgysylltu â'u dysgu** | **GWYRDD** |
| **Cam 1.2.1 -** Byddwn ni'n sicrhau bod cymunedau'n cael eu grymuso i gryfhau eu capasiti eu hunain, fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cyfranogi'n llawn mewn ystod o weithgareddau sy'n hybu eu llesiant cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol. | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**

- Daliwyd ati i gefnogi 11 o Glybiau Ieuenctid cymunedol sy'n sicrhau bod pobl ifanc 11-18 oed yn cael mynediad at ystod o weithgareddau addysgol, cymdeithasol ac adloniadol. Ar hyd y pandemig, roedd y clybiau ieuenctid cymunedol ar gau, a daliwyd ati i gefnogi'r bobl ifanc trwy agor clybiau rhithwir ar Microsoft Teams. Wrth i'r Clybiau Ieuenctid ailagor, rydyn ni wedi gweld cynnydd yn y niferoedd. Nifer y bobl ifanc a fu'n ymgysylltu â'n Clybiau Ieuenctid yn 2021/22 oedd 917. Mae Clwb Ieuenctid y Cymer wedi parhau'n llwyddiannus ar ôl agor, a chafodd Clybiau Ieuenctid arian ychwanegol Haf o Hwyl i'w galluogi i agor ar gyfer pobl ifanc yn ystod gwyliau haf 2021.
- Defnyddiwyd rhyw £776,000 o arian Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan (gan gynnwys yr Haf o Hwyl a'r Gaeaf Llawn Lles) i wella cyfleoedd ar gyfer chwarae plant. Darparodd prosiectau cymunedol, a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol, partneriaid a grwpiau cymunedol, ystod o weithgareddau chwarae, chwaraeon, hamdden a diwylliannol di-dâl i blant a phobl ifanc 0-25 oed. O'r arian yma, roedd £235,000 yn arian cyfalaf, sydd wedi helpu i wella lleoedd chwarae lleol a lleoliadau chwarae ar draws y sir.

| | |
|---|---|
| **Cam 1.2.2 -** Byddwn yn parhau ag ad-drefnu ysgolion fel rhan o'n Rhaglen Strategol o wella ysgolion er mwyn darparu cyfleusterau dysgu ac addysgu sy'n addas i'r 21ain ganrif, a bodloni safonau 'diogel trwy ddyluniad' | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**

Daliwyd ati â'n Rhaglen Gwella Ysgolion Strategol o ad-drefnu ysgolion, a oedd yn cynnwys:

- Agor cyfleuster newydd £9m ar Gampws Ystalyfera Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r cyfleusterau

| | |
|---|---|
| newydd yn cynnwys neuadd gyngherddau, cantîn a chegin, ystafelloedd dosbarth ychwanegol, canolfan cerddoriaeth a drama a meysydd chwarae modern.<br>• Cwblhawyd cynllun gwella £1.14m yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tyle'r Ynn.<br>• Cwblhawyd prosiect adnewyddu gwerth £640,000 yn Ysgol Gynradd Gymraeg (YGG) Cwmllynfell, ysgol 3-11 oed, ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r lle ychwanegol a'r cyfleusterau a foderneiddiwyd yn darparu ystafell ddosbarth ychwanegol a lleoliad gofal plant, gyda'r nod o gynyddu capasiti'r ysgol, gwella'r ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen, a chynnig lle i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg cyn ysgol. | |
| **Cam 1.2.3 -** Byddwn ni'n datblygu ymhellach ein Cynllun Strategol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg (CSCA), fel ein bod ni'n cynyddu'r cyfleoedd i fwy o'n plant a'n pobl ifanc gael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac fel bod disgyblion yn dod yn fwy rhugl yn y Gymraeg. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Cymeradwywyd ein Cynllun Strategol newydd 10 mlynedd ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg (CSCA) gan Lywodraeth Cymru ar 20 Gorffennaf 2022, ac fe'i mabwysiadwyd gan y Cyngor ar 28 Medi 2022.<br>• Datblygwyd Dyfarniad Cymraeg mewn Gofal Plant ar gyfer lleoliadau cyfrwng Saesneg yn ystod 2021/22. Bydd cynllun y dyfarniad yn cael ei lansio ym mis Medi 2022, a'r nod yw cynorthwyo lleoliadau i ddod yn ddarparwyr dwyieithog.<br>• Mae Swyddog Datblygu sy'n medru'r Gymraeg yn darparu sesiwn dysgu Cymraeg bob pythefnos er mwyn i gyflogeion wella'u gallu i siarad Cymraeg, ac mae'n cydweithio'n agos â'n Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a'r timau Blynyddoedd Cynnar/Dechrau'n Deg i hybu defnydd o'r Gymraeg ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol.<br>• Darparwyd nifer o sesiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb gan 'Cymraeg i Blant' a chynigiwyd sesiynau 'Clwb Cwtsh' ar-lein trwy'r Mudiad Meithrin er mwyn i deuluoedd ddysgu ymadroddion Cymraeg syml i'w defnyddio o fewn y teulu. Cynigiodd Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot hefyd ddigwyddiadau wyneb yn wyneb fel sesiynau crefft i blant a Bore Coffi i oedolion fynd i ymarfer eu Cymraeg. Hefyd, mae sesiwn 'Ti a Fi' newydd wedi cychwyn yn YGG Cwmllynfell, yn y lleoliad gofal plant newydd.<br>• Cododd canran y disgyblion blwyddyn 11 oedd yn astudio Cymraeg iaith gyntaf i 12.29% (11.33% y flwyddyn flaenorol) ac roedd yn uwch na'n targed o 11.7%. | |

| | |
|---|---|
| | |
| **Cam 1.2.4 –** Byddwn ni'n peilota model o Gymuned Plant yn ward Gorllewin Sandfields. | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**

- Yn ystod 2021/22, cyflwynwyd 113 o sesiynau ymgysylltu i 462 o deuluoedd. Cyflwynwyd y sesiynau'n rhithwir ac yng Nghanolfan Tir Morfa yn Sandfields. Teimlai'r cyfranogwyr eu bod yn cael eu cefnogi wrth ymuno â'r grwpiau'n rheolaidd, a theimlent fod y sesiynau'n helpu'n fawr o ran eu llesiant.
- Gwnaed gwaith hefyd i ddatblygu'r gofod y tu allan i'r ganolfan, gan gynnwys datblygu gardd natur, rhandir ac ardal chwarae i'r plant. Roedd y gwaith arall yn cynnwys dosbarthu parseli bwyd i'r gymuned gyda chymorth y Gwasanaeth Ieuenctid.
- Parhaodd cyfarfodydd gweithredol rheolaidd a grŵp y preswylwyr (gyda'r cynghorydd lleol) ar hyd 2021/22, yn ogystal â chyfarfodydd gyda phartneriaid a gwasanaethau. Mae'r cyfarfodydd yn golygu bod modd trafod anghenion y gymuned a chytuno ar gamau gweithredu, gan roi cefnogaeth arbennig i deuluoedd sydd â phlant ifanc.
- Buom ni'n gweithio ochr yn ochr â Thîm y Gwasanaeth Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol (GGCC) i gyflwyno 4 bloc o sesiynau yn lleoliad ysgol leol a gofal plant Tir Morfa, a hynny'n wythnosol ar gyfer cwrs penodol i gefnogi plant gyda'u sgiliau motor sylfaenol. Bu 65 o blant yn cymryd rhan ym mhob sesiwn, a soniodd yr ysgol wrthym ni am gynnydd cadarnhaol sylweddol yn llesiant, ymddygiad, nerth corfforol a symudiadau'r plant, a hynny ar ben dysgu set newydd o sgiliau. Rydyn ni wedi bod yn adeiladu partneriaeth gref gyda phrosiect Braenaru Intgreiddio'r Blynyddoedd Cynnar, ac yn cynnal y gefnogaeth barhaus gan Aelodau lleol yn Sandfields.

| | |
|---|---|
| **Cam 1.2.5 -** Byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n rhoi dyletswyddau statudol newydd a grewyd gan Lywodraeth Cymru ar waith yn effeithiol, er budd i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**

- Mae holl ysgolion Castell-nedd Port Talbot yn dilyn prosesau a systemau newydd ar gyfer ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol). Rydym wedi datblygu prosesau newydd cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau, a'u rhoi ar waith yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd.

- Ers mis Medi 2021, crewyd 14 o Gynlluniau Datblygu Unigol (CDUiau) a gynhelir gan awdurdodau lleol ar gyfer plant oed ysgol, a chytunwyd ar 40 CDU ar gyfer plant cyn ysgol, a chyflwyno 18 ohonynt.
- Buom ni hefyd yn cryfhau ein perthynas waith gyda darparwyr ôl-16 a Choleg CNPT i sicrhau bod prosesau pontio da ar waith ar gyfer pobl ifanc ag ADY sy'n mynd o'r ysgol i'r coleg, ac mewn cydweithrediad â Choleg CNPT rydym wedi datblygu cynnig ôl-16 o gefnogaeth i'r Coleg.
- Rydym ni'n dal i gynnal sesiynau 'Cynllunio ac Adolygu' gyda phob ysgol yn CNPT ddwywaith y flwyddyn. Mae'r rhain yn helpu i gynnal a herio ysgolion mewn perthynas â'u Darpariaeth Dysgu Cynhwysol a'r Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol ar gyfer disgyblion ag ADY.
- Mae holl staff gwasanaeth Cynhwysiad yr ysgolion yn mabwysiadu arferion Person-Ganolog. Darparwyd hyfforddiant hefyd i leoliadau Blynyddoedd Cynnar, i gydweithwyr ar draws gwasanaethau ôl-16, cydweithwyr Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a darparwyr Trydydd Sector.
- Rydym ni'n dal i weithio ar y cyd â phartneriaid rhanbarthol a phartneriaid is-ranbarthol i rannu arfer da a datblygu llwybrau a phrosesau ar y cyd, yn unol â deddfwriaeth newydd ADY.
- Rydym wedi sefydlu grŵp Llywio ADY Cyfrwng Cymraeg i helpu'r awdurdod lleol i gyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â dwyieithrwydd ac ADY.

| | |
|---|---|
| **Cam 1.2.6 -** Byddwn ni'n gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn datblygu pedwar diben y cwricwlwm i Gymru, a bod pob ysgol yn symud tuag at wella'u hunain. | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**

- Mae pob ysgol yn ymgysylltu â'r broses o ddylunio'r cwricwlwm i Gymru. Mae pawb ohonynt yn datblygu eu gweledigaeth, yn datblygu dealltwriaeth a rennir o gynnydd, a thrwy ddysgu proffesiynol mwyfwy effeithiol yn esblygu ffurf addysgu. Fodd bynnag, mae pandemig Covid-19 wedi bod yn rhwystr sylweddol, ac mae wedi llesteirio cyflymdra cynnydd, gan fod y cyfyngiadau'n golygu bod ysgolion yn methu cwrdd a chynllunio am ystod eang o resymau. Er gwaethaf y cyfyngiadau, mae bron yr holl leoliadau cynradd yn gwneud gwell cynnydd na'r disgwyl o ystyried yr heriau a oddefwyd.
- Mae un ysgol uwchradd wedi dewis yn swyddogol y bydd eu disgyblion blwyddyn 7 yn dechrau dysgu o dan y cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022, tra bod y lleill wedi dewis dechrau arni ym mis Medi 2023 gyda blynyddoedd 7 ac 8.

- Y sgôr capio 9 fesul disgybl yng Nghastell-nedd Port Talbot ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 oedd 378, sy’n uwch na’r targd a ffigur y flwyddyn flaenorol, sef 369. Seiliwyd y data ar gyfer y mesur hwn ar y dull asesiadau athro.
- Parhaodd y pandemig i effeithio ar bresenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, a data presenoldeb blwyddyn academaidd 2020/21 oedd 91.2% yn y cynradd ac 87.9% yn yr uwchradd, sydd fel ei gilydd yn is na’r blynyddoedd academaidd blaenorol.

| | |
|---|---|
| **Cam 1.2.7 –** Byddwn ni’n gweithio gydag ysgolion a phartneriaid i sicrhau ein bod yn darparu cefnogaeth ragorol ar gyfer iechyd a llesiant plant. | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**
Llwyddodd ein Gwasanaeth Ieuenctid i sicrhau cyllid ychwanegol trwy fenter Llywodraeth Cymru, ‘Haf o Hwyl’, i ddarparu rhaglen haf oedd yn rhoi cyfle i bobl ifanc ddod at ei gilydd mewn grwpiau, gan leihau ynysu cymdeithasol a gorbryder, a gwella llesiant.

Roedd rhaglen yr haf yn cynnig cymysgedd o glybiau ieuenctid mynediad agored i unrhyw un 11-18 oed, a gweithgareddau ar gyfer grwpiau o bobl ifanc a dargedwyd fel rhai oedd yn wynebu risg uwch o fod yn ynysig ac yn unig. Roedd y bobl ifanc a fu’n cymryd rhan yn rhaglen yr haf yn cynnwys pobl ifanc oedd yn derbyn gofal, gofalwyr ifanc, pobl ifanc LHDTC+, pobl ifanc ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu a nodwyd; pobl ifanc â phrofiad o ddigartrefedd ieuenctid neu sydd mewn perygl o wynebu hynny, rhieni ifanc o dan 25 oed, rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac unrhyw bobl ifanc sy’n mynychu clybiau ieuenctid.

Cyflwynodd rhaglen yr haf, mewn cydweithrediad ag ystod o bartneriaid, nifer o raglenni oedd yn cynnwys diwrnodau gweithgaredd megis Parc Oakwood, Heatherton, Bounce, clybiau ieuenctid yr haf, diwrnodau teulu ar y traeth, diwrnod pampro i famau ifanc, cwrs dyheadau positif, sesiynau dawns, sesiynau coginio, a digwyddiadau noson sinema, ac ar y cyd â Chanolfan y Celfyddydau, Pontardawe, cyflwynwyd amrywiaeth o weithgareddau arloesol i bobl ifanc a’u teuluoedd.

| | |
|---|---|
| **Cam 1.2.8 –** Byddwn ni’n gweithio gydag ysgolion a sefydliadau lleol i sicrhau bod addysgu’r cwricwlwm newydd yn adlewyrchu natur aml-ethnig Cymru. | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**
Cefnogwyd holl ysgolion Castell-nedd Port Talbot â rhaglen o hyfforddiant i fodloni gofynion y cwricwlwm i Gymru. Mae hyn wedi cynnwys diweddariadau rheolaidd ar elfennau gorfodol y cwricwlwm, gan gynnwys 'Datganiadau ynghylch Beth sy'n Bwysig', ac egwyddorion allweddol. Un o'r 27 Datganiad yw bod "Cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac yn cael eu ffurfio gan weithredoedd a chredoau pobl". Mae'r Datganiad yn awr yn cynnwys disgwyl i'r dysgwyr "fedru datblygu dealltwriaeth o natur gymhleth, amlweddog ac amrywiol cymdeithasau'r presennol a'r gorffennol". Mae rhaid i bob ysgol ystyried hyn wrth lunio'u cwricwlwm. Mae'r broses hon ar waith yn ein hysgolion. Mae'r storïau hyn yn amrywiol, yn cwmpasu gwahanol gymunedau, yn ogystal â hanesion pobl o dras Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Rhannwyd yr wybodaeth hon gyda Chymdeithas Gymunedol BME CNPT.

| | |
|---|---|
| **Cam 1.2.9 –** Byddwn ni'n parhau i weithio gydag ysgolion a lleoliadau eraill perthnasol i sicrhau bod eu hamgylcheddau dysgu yn ddiogel ac yn feithringar, lle ceir parch a sylw dyledus i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**
- Mae'r Gwasanaeth Dysgwyr Bregus wedi darparu ystod o ymyriadau i gefnogi grwpiau Ethnig Lleiafrifol a dysgwyr sy'n siarad Saesneg fel Ail Iaith, trwy gefnogaeth yn y dosbarth, cefnogaeth un i un, mentora/eiriolaeth, hybu llesiant, cefnogaeth i ddysgwyr fedru delio â materion hunan-ymwybyddiaeth a hunan-hyder, hybu amlddiwylliannaeth ac agweddau gwrth-hiliol.
- Mae'r Gwasanaeth Dysgwyr Bregus wedi cyflwyno amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau megis cefnogi ysgolion a phartneriaid i gyflwyno diwrnodau diwylliannol a rhyngwladol, gweithdai hyfforddi, hybu a gwreiddio digwyddiadau diwylliannol blynyddol fel Mis Hanes Pobl Ddu, Mis Sipsiwn a Theithwyr, y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, Gwyl EID, ac eraill. Maen nhw wedi ymgysylltu ag awduron du o Gymru i gyflwyno gweithdai mewn ysgolion ar draws yr awdurdod er mwyn hybu amrywiaeth a chynhwysiant.
- Mae'r Gwasanaeth Dysgwyr Bregus wedi gweithio gyda grwpiau cymunedol megis Cymdeithas Gymunedol BME CNPT a grwpiau rhanddeiliaid fel y Fforwm Sipsiwn a Theithwyr i roi cyngor a chefnogi ymgysylltiad â chymunedau ethnig lleiafrifol a phlant teithwyr a'u teuluoedd, ac mae'n cydweithio'n agos â phartneriaid eraill i gefnogi ffoaduriaid a'u teuluoedd o Syria, Affganistan ac Wcrain.
- Mae'r Cyngor Ieuenctid yn cynnwys cynrychiolaeth o holl ysgolion uwchradd yr awdurdod lleol, ac mae pobl ifanc yn cael cyfle i leisio pryderon, codi unrhyw faterion a thrafod ffyrdd o wella eu hysgolion.
- Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cynnal sesiynau cynyddu ymwybyddiaeth o Ofalwyr Ifanc ym mhob ysgol, i helpu i nodi'r plant a'r

| | |
|---|---|
| bobl ifanc hynny sydd â chyfrifoldebau gofalu, ac mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn eiriol dros y person ifanc, gan ddarparu gwybodaeth i'r ysgol a chynnig cefnogaeth ychwanegol os bydd angen. Cynigir yr un peth i bobl ifanc a allai fod mewn perygl o wynebu digartrefedd ieuenctid, lle mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cynnal sesiynau cynyddu ymwybyddiaeth ym mhob ysgol uwchradd, ac yn cefnogi'r bobl ifanc hynny sydd mewn angen.<br>• Mae'r Gwasanaeth Dysgwyr Bregus hefyd yn cefnogi grwpiau LHDTC+ mewn ysgolion, yn darparu lle diogel i bobl ifanc LHDTC+ gwrdd y tu allan i'r ysgolion, ac mae ganddynt hwythau gynrychiolaeth ar y Cyngor Ieuenctid.<br>• Mae'r gyfarwyddiaeth addysg yn rhoi cyngor a chefnogaeth i ysgolion i'w cynorthwyo i ddiogelu pob disgybl, ac anogir ysgolion i ddefnyddio'r offeryn archwilio 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel' bob blwyddyn. Mae llawer o ysgolion bellach yn defnyddio hyn yn offeryn deinamig sy'n cael ei ddiweddaru ar hyd y flwyddyn. Gwelwyd tystiolaeth o hyn mewn adolygiadau diogelu diweddar. | |
| **Blaenoriaeth gwelliant 1.3 - Bydd plant a phobl ifanc sydd angen amddiffyniad, gofal a chefnogaeth yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn, a bydd mwy o'r plant hynny yn gallu tyfu i fyny yng nghyd-destun teulu sefydlog** | **GWYRDD** |
| **Cam 1.3.1 –** Byddwn ni'n datblygu integreiddio pellach o ran trefniadau gwaith rhwng Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a Gwasanaethau Oedolion. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Er bod y pandemig wedi parhau i effeithio ar gyflwyno gwasanaeth yn ystod 2021/22, daliodd yr 'Un Pwynt Cyswllt' (SPOC) i Oedolion a Phlant i ymateb yn effeithiol i bobl oedd angen gwybodaeth, cyngor a chymorth ynghylch iechyd a llesiant plant, teuluoedd ac oedolion. Cysylltwyd â'r Gwasanaeth dros 23,000 o weithiau yn ystod 2021/22. Recriwtiwyd staff ychwanegol yn ystod y flwyddyn, sydd wedi cryfhau'r gwasanaeth ymhellach.<br>• Gwnaed gwaith ar lefel ranbarthol i ddatblygu 'Polisi Pontio'. Yn lleol, mae gwasanaethau Plant ac Oedolion yn cydweithio'n agos i gryfhau'r trefniadau pontio, a bellach cynhelir cyfarfod amlasiantaeth bob mis i sicrhau bod y pontio rhwng plentyndod ac oedolaeth mor ddi-fwlch â phosib i bobl ifanc a'u teuluoedd, ac i nodi ble gallai fod bylchau o ran cyflwyno gwasanaeth a chefnogaeth.<br>• Mae gennym arweinydd gweithredol ar Oedi Niwroddatblygiadol/Anhwylder Sbectrwm Awtistig (ADY) ar draws y gwasanaethau | |

| | |
|---|---|
| cymdeithasol i Blant ac Oedolion. Mae'r rôl yn cynnwys hyfforddi staff ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol i gynyddu ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth er mwyn creu cysylltiadau o fewn y gymuned, a chyda'n partneriaid allweddol, i gynyddu ymwybyddiaeth a chanfod anghenion cefnogi a chyfleoedd ar gyfer datblygu.<br>• Cwblhawyd 99.15% o'r asesiadau plant yn brydlon yn ystod 2021/22, sydd wedi rhagori ar ein targed o 94%. | |
| **Cam 1.3.2 –** Gyda'n partneriaid, byddwn ni'n parhau i ddatblygu ein Strategaeth Cymorth i Deuluoedd er mwyn sicrhau bod yr ystod cywir a'r safon briodol o wasanaethau yn eu lle i ymateb i'r angen. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Bu'r 'Gwasanaeth Gweithio gyda'n Gilydd' yn gweithio gyda mwy na 50 o blant a'u teuluoedd, a bu'n allweddol wrth atal yr angen i unrhyw rai o'r plant hyn a fu'n ymgysylltu â'r gwasanaeth rhag mynd i'r system ofal.<br>• Mae'r Gwasanaeth Cymorth Integredig i Deuluoedd (IFSS) wedi parhau i gyflwyno ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y teulu, gan helpu teuluoedd i gadw'r ffocws ar eu gwerthoedd a'u credoau, amlygu eu cryfderau a'u hadnoddau, a lle bo hynny'n berthnasol, galluogi'r rhieni hynny sydd â phroblemau defnyddio sylweddau i roi sylw iddyn nhw, a darparu cefnogaeth rhianta.<br>• Aethom ati i gryfhau ac ailfrandio ein gwasanaethau Camau Cadarnhaol yn unol ag awdurdodau eraill Cymru. Yr enw newydd yw 'Adfyfyrio'. Mae'r newid hwn wedi'n galluogi i sicrhau dilyniant gwasanaeth ar gyfer rhieni biolegol a allai symud i CNPT o awdurdodau lleol eraill.<br>• Mewn cydweithrediad â'r YMCA, datblygwyd sawl rhaglen waith i gefnogi plant a theuluoedd y mae Covid-19 wedi cael effaith negyddol arnyn nhw.<br>• Daliodd y Panel Adnoddau Amlasiantaeth, sydd yng ngofal a than gadeiryddiaeth ein Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc, i gwrdd â phartneriaid er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth orau'n cael ei darparu o'r adnoddau mwyaf priodol, ar adeg sy'n gywir ar gyfer anghenion plant a theuluoedd. | |
| **Cam 1.3.3 -** Byddwn ni'n gwneud gwaith â ffocws gyda phartneriaid er mwyn gwella mynediad at y gefnogaeth gywir i blant a phobl ifanc sydd â llesiant emosiynol/iechyd meddwl gwael. | **AMBR** |

| | |
|---|---|
| • Mae cyfarfodydd adolygiadau cymheiriaid gydag asiantaethau partner wedi'u gwreiddio'n llawn ac yn parhau i gael eu cynnal bob pythefnos. Mae hynny'n sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc sydd angen help a chefnogaeth yn cael eu nodi ar y cyfle cynharaf, ac yn cael mynediad at y gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir.<br>• Mae gwaith yn dal i gael ei wneud yn rhanbarthol i ddatblygu gwasanaethau cymorth emosiynol a llesiant i blant a phobl ifanc.<br>• Mae unrhyw blant a nodwyd fel rhai yr effeithiwyd arnynt gan y pandemig yng nghyswllt iechyd a llesiant emosiynol yn cael eu cefnogi gan wasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliaeth ac addysg, ac yn cael atgyfeiriad i'r 'Un Pwynt Cyswllt' ar gyfer Oedolion a Phlant (SPOC) os bydd angen gwaith mwy dwys neu yn y tymor hwy. | |
| **Cam 1.3.4 -** Byddwn ni'n datblygu ymhellach ein gwasanaeth maethu mewnol i sicrhau digonolrwydd a sefydlogrwydd lleoliadau, gan gynnwys datblygu trefniadau ar gyfer Gofalwyr Gwarcheidiaeth Arbennig. | **AMBR** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Er gwaethaf yr heriau a achoswyd gan bandemig Covid-19, mae ein dull gweithredu 'busnes fel arfer' wedi'n galluogi i gynnal ymdrech bendant i reoli'n poblogaeth o Blant sy'n Derbyn Gofal a sicrhau bod cynlluniau gofal tymor hir ein plant a'n pobl ifanc yn dal i gael eu hadolygu'n rheolaidd, ac i sicrhau mai dim ond y plant hynny sydd angen bod mewn gofal sy'n aros mewn gofal.<br>• Ar hyn o bryd mae anawsterau wrth recriwtio gofalwyr maeth ledled Cymru. Mae Maethu Cymru CNPT yn cydweithio'n agos fel rhanbarth, gan rannu syniadau ynghylch recriwtio a chadw. Ar hyn o bryd rydyn ni'n gweithio ar gynnig drafft, gan gynnwys adolygiad o'n polisi ariannol, i gadw gofalwyr, a hefyd i recriwtio gofalwyr ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion mwy cymhleth.<br>• Rydym wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru mewn partneriaeth ag Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Cymru i ddatblygu Cynllun Cefnogi Gwarcheidwaid Arbennig i Gymru gyfan. Bydd hyn yn sicrhau bod pob angen yn cael ei ystyried, a bod dull gweithredu cyson.<br>• Rydym hefyd wrthi'n datblygu Strategaeth Comisiynu Lleoliadau, a fydd yn canolbwyntio ar ymgyrch recriwtio i ymateb i'r angen a nodwyd o ran lleoliadau angenrheidiol i'n plant a'n pobl ifanc sy'n derbyn gofal. | |
| **Blaenoriaeth gwelliant 1.4 - Bydd pobl ifanc sy'n gadael addysg amser llawn yn cael cyfle i fynd i gyflogaeth, hyfforddiant neu addysg bellach/uwch** | **GWYRDD** |

| | |
|---|---|
| **Cam 1.4.1 -** Bydd y Cyngor yn darparu cyfleoedd ar ffurf lleoliadau gwaith, prentisiaethau a chyfnodau dan hyfforddiant i bobl ifanc yn ei weithlu ei hun, gan ddarparu cyfleoedd yn arbennig ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**

- Cefnogwyd 78 o Brentisiaethau Modern, yr oedd 39 ohonynt yn brentisiaid modern, a 39 yn gyflogeion cyfredol a gafodd fynediad at gyllid prentisiaeth i uwchsgilio a datblygu. O ganlyniad, nifer y prentisiaid ar gynlluniau prentisiaeth ffurfiol cydnabyddedig, fesul 1,000 o gyflogeion, yn 2021/22 yw 15.25 (78 prentisiaeth). Roedd hyn yn rhagori ar berfformiad 2020/21 a'r targed o 8 ar gyfer 2021/22.
- Ers mis Medi 2020 rydym ni wedi bod yn cyflwyno rhaglen Kickstart y Llywodraeth. Cynllun yw hwn sy'n darparu cyllid i gyflogwyr er mwyn creu lleoliad(au) swydd 6 mis ar gyfer pobl ifanc 16-24 sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ar hyn o bryd, ac mewn perygl o fod yn ddi-waith yn y tymor hir. Mae'r lleoliadau'n rhoi cyfle i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau yn y gweithle a chaffael profiad er mwyn gwella'u cyfleoedd i gael hyd i waith tymor hir. Rhoddwyd trefniadau'r Cynllun yn eu lle yn 2020/21, yn barod i'r lleoliadau gychwyn ym mis Mai 2021. Yn ystod 2021/22, roedd gennym ni 32 o leoliadau Kickstart, ac mae 19 ohonynt wedi cwblhau eu lleoliad 6 mis, a 5 wedi cael cyflogaeth bellach o fewn y Cyngor. Mae 13 o leoliadau yn parhau ac yn dal o fewn y cyfnod o 6 mis. Mae'r cynllun bellach wedi cau i ymrestriadau newydd.
- Ni chawsom leoliadau profiad gwaith yn 2021/22 oherwydd bod cyfyngiadau parhaus Covid-19 yn effeithio ar y trefniadau a'r asesiadau risg.

| | |
|---|---|
| **Cam 1.4.2 -** Bydd Gweithwyr Ieuenctid mewn Ysgolion yn cefnogi'r bobl ifanc y nodwyd eu bod yn wynebu'r risg fwyaf o beidio â bod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET), i'w helpu i gyflawni cyrchfan cadarnhaol. | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**

- Bu'r Gweithwyr Ieuenctid Gwaddol yn cefnogi 253 o ymadawyr ysgol blwyddyn 11 y nodwyd eu bod yn wynebu'r risg uchaf o fod yn NEET.
- Canran yr ymadawyr blwyddyn 11 oedd yn NEET (heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) oedd 2.4% (39 o 1,618), oedd yn well na'n targed o 3%.
- Bu'r timau Cadw mewn Cysylltiad (KIT) a'r Camau Nesaf yn cefnogi pobl ifanc 16-25 oed, ac yn trefnu lleoliadau yn y coleg, mewn darpariaeth dysgu seiliedig ar waith a chyflogaeth. Cafodd 210 o bobl ifanc eu cefnogi gan y Tîm KIT, a chafodd 144 ganlyniad

| | |
|---|---|
| llwyddiannus. Ymhlith yr enghreifftiau o ganlyniadau llwyddiannus mae cyflawni cymwysterau cydnabyddedig; mynd i ddysgu seiliedig ar waith, lleoliad gwaith neu brofiad gwaith; sicrhau cyfweliad am swydd; ymgysylltu â gwasanaeth arbenigol yn dilyn atgyfeiriad; a mynd i gyflogaeth am dâl.<br>• Bu'r Gwasanaeth Ieuenctid mewn cysylltiad â bron 30% o bobl ifanc, oedd yn uwch na'n targed o 28%. Er bod hyn yn gynnydd sylweddol o gymharu â ffigur y flwyddyn flaenorol, sef 9.5%, yr effeithiwyd arno gan Covid-19, mae'n dal yn is na'r lefelau cyn y pandemig. | |
| **Cam 1.4.3 -** Byddwn ni'n adeiladu ar ein gwaith fel Rhieni Corfforaethol i sicrhau bod pob person ifanc yn cael llety a chefnogaeth addas wrth adael gofal y Cyngor. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Mae'r Panel Rhianta Corfforaethol wedi bod yn awyddus i glywed a chefnogi lleisiau'r plant a'r bobl ifanc hynny sy'n derbyn gofal gan Gastell-nedd Port Talbot. Mae'r panel hefyd yn awyddus i sicrhau bod ein gofalwyr maeth yn cael eu cefnogi, a bod anghenion plant yn cael eu diwallu'n gyfannol gan bob partner. Mae pobl ifanc yn bresennol yn y Panel yn gyson, i sôn am eu taith trwy'r system ofal, beth sydd wedi gweithio'n dda a'r gwersi y gallwn ni eu dysgu i sicrhau bod pob person ifanc yn cael eu cefnogi wrth adael gofal y Cyngor.<br>• Daliwyd ati i weithio gyda Chomisiynu a Thai ynghylch darpariaethau priodol i'n hymadawyr gofal. Mae gwaith yn parhau hefyd gyda cholegau addysg/addysg bellach a darpariaethau hyfforddiant, i sicrhau bod pob person ifanc yn cael eu cefnogi yn y maes hwn.<br>• Mae gennym Weithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol i gefnogi'r holl bobl ifanc sy'n wynebu digartrefedd. Mae'r gweithiwr hwn yn darparu cefnogaeth uniongyrchol i bobl ifanc, a hefyd yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r gwasanaeth ehangach. Yn ogystal, darparwyd hyfforddiant perthnasol i'r timau ehangach ac rydym wedi comisiynu cwrs 'Parod i Rentu' er mwyn i ymarferwyr fedru cynorthwyo pobl ifanc i gael mynediad at lety priodol. | |
| **Cam 1.4.4 –** Bydd gweithwyr ieuenctid yn rhoi cefnogaeth bontio i ymadawyr ysgol a nodwyd gan eu hysgolion a phartneriaid, i'w helpu i gyflawni cyrchfan cadarnhaol. | **GWYRDD** |

| | |
|---|---|
| **Cynnydd y cam:**<br><br>**Cynnydd fel yn achos cam 1.4.2 uchod** | |
| **Blaenoriaeth gwelliant 1.5 - Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu helpu i leisio barn ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw** | **GWYRDD** |
| **Cam 1.5.1 –** Byddwn ni'n adolygu ein dull o ymdrin â Hawliau Plant, gan sicrhau bod dull gweithredu seiliedig ar hawliau yn cael ei wreiddio ar draws ein holl wasanaethau a swyddogaethau. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Mae hawliau plant, cyfranogiad ac ymgysylltiad a llais y plentyn yn parhau'n flaenoriaeth allweddol ar gyfer y Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc.<br>• Mae'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn awyddus i ddatblygu Siarter Hawliau Plant i sefydlu eu hymrwymiad i Hawliau Plant a gyrru agenda Hawliau Plant yn ei blaen. Cwblhawyd rhan gyntaf y Cynllun Gweithredu, ymgynghori â phlant a phobl ifanc, gweithwyr proffesiynol a gofalwyr maeth, yn 2021/22. Rhagwelir y bydd y Siarter yn cael ei llunio'n derfynol ym mis Hydref 2022, ac yn cael ei lansio ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Plant. | |
| **Cam 1.5.2 -** Bydd pob plentyn a pherson ifanc sydd angen cael eu hamddiffyn, neu y nodwyd bod angen gofal a chymorth arnynt, yn cael lleisio barn ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Yn ystod 2021/22, daliodd y Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc ati i gefnogi gweithrediad cyd-gynhyrchu (elfen allweddol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant) gyda phlant a theuluoedd, a thrwy wneud hynny, datblygu dulliau effeithiol o sicrhau bod y farn a gafwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn helpu i lywio a gwella cyflwyno gwasanaeth.<br>• Mae'r Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc wedi bod yn cymhwyso Model Ymarfer Seiliedig ar Gryfderau ers 2017 ac yn ystod 2021/22 partnerwyd â Gofal Cymdeithasol Cymru i gynhyrchu dogfen sy'n esbonio'r model yn fanylach (ei weledigaeth, ei egwyddorion ymarfer allweddol, a sut mae'r gwasanaeth yn bwriadu gweithio ar y cyd). Mae'r model yn canolbwyntio ar feithrin cydberthynas ac | |

ymddiriedaeth gyda phobl, a datblygu dealltwriaeth a rennir o sut beth yw bywyd da trwy weithio mewn modd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Bwriad Gofal Cymdeithasol Cymru yw hyrwyddo'r fframwaith a'r llawlyfr ar draws holl Awdurdodau Cymru. Ar ben hynny, cynhaliwyd pedwaredd Cynhadledd Flynyddol Gweithwyr Cymdeithasol Ymgynghorol ym mis Ionawr 2022. Hon oedd y gynhadledd rithwir gyntaf, a bu'n llwyddiannus iawn, gydag adborth cadarnhaol iawn yn dod oddi wrth asiantaethau partner. Nod y gynhadledd oedd lansio Model Ymarfer Seiliedig ar Gryfderau Castell-nedd Port Talbot.

- Ailsefydlwyd y Grŵp Gwella Ymarfer ar ôl dod i ben ddechrau'r pandemig. Mae'r Cylch Gorchwyl wedi cael ei ddiweddaru, ac mae cynllun ar waith i wella ymarfer. Aelodau'r grŵp yw gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr o bob rhan o'r gwasanaeth, ac ochr yn ochr â'r Grŵp Gweithwyr Cymdeithasol Ymgynghorol mae'n datblygu cynlluniau i wella ymarfer ar draws y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai. Rhan o'i waith yw ystyried safbwyntiau a fynegwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth er mwyn helpu i sbarduno gwelliannau i'r gwasanaeth a gyflwynir.
- Er bod lefel y gweithgaredd archwilio wedi cael ei lleihau yn ystod 2021/22 oherwydd bod y pandemig yn parhau, mae clywed llais plant a theuluoedd yn dal yn elfen allweddol o'r Fframwaith Dysgu ac Ymarfer o Safon. Mae ailsefydlu Rhaglen Archwilio gynhwysfawr yn gam allweddol ar gyfer y Gwasanaeth wrth symud ymlaen i 2022/23.

| | |
|---|---|
| **Cam 1.5.3 -** Byddwn ni'n gweithio gyda'n partneriaid Meddwl am y Teulu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu dylanwadu ar ffurf gwasanaethau a'u datblygiad. | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**

- Ailgychwynnwyd yr ymgysylltu â phlant a theuluoedd oedd yn rhan o'r gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf yn ystod 2021/22. Mae cefnogaeth Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei chynnig fel cyfuniad o sesiynau rhithwir ac wyneb yn wyneb. Mae'r tîm plant a theuluoedd yn cynnal grwpiau ac ymweliadau yn y gymuned ac yn rhithwir.
- Mae pob gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn ffyrdd gwahanol. Er enghraifft, mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cynnal grwpiau teulu a sesiynau un i un yn y gymuned, tra bod Hafan wedi bod yn cwblhau ymweliadau cartref.
- Yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst 2021, cynhaliwyd cyfres o sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb gyda 37 o blant 3-12 oed mewn 6 digwyddiad oedd yn rhan o raglen yr haf, fel rhan o'n hymgyrch 'Dewch i Sgwrsio' – oedd yn ceisio casglu barn trigolion er mwyn helpu i ddylanwadu ar yr hyn y bydd y cyngor yn ei wneud yn y dyfodol a helpu i wneud CNPT yn lle gwell i fyw ynddo.

| **Cam 1.5.4 -** Byddwn ni'n annog pobl ifanc i ymarfer eu hawl i bleidleisio a chyfranogi mewn democratiaeth leol. | **GWYRDD** |
|---|---|

**Cynnydd y cam:**

Ar 5 Mai 2022, yn dilyn ymlaen o etholiadau'r Senedd yn 2021, roedd modd i bobl ifanc 16-17 oed, ynghyd â dinasyddion tramor cymwys, gofrestru a bwrw eu pleidlais mewn etholiadau lleol am y tro cyntaf erioed. Fel rhan o'n gwaith i annog pleidleiswyr i gofrestru ac ymgysylltiad democrataidd ar draws y Fwrdeistref Sirol penodwyd (trwy Gyllid Grant Llywodraeth Cymru) swyddog ymgysylltu ac estyn allan oedd yn gyfrifol am arwain rhaglen o weithgaredd, yn targedu ac yn annog yn benodol bobl ifanc a rhai o grwpiau a dangynrychiolir i gofrestru'n etholiadol, yn ogystal â datblygu cynllun gweithredu ymarferol. Roedd hyn yn cynnwys:

- Ychwanegu at y digwyddiadau cyswllt estyn allan ar-lein ac wyneb yn wyneb gydag ysgolion uwchradd CNPT a Choleg CNPT.
- Gwella'r cyswllt rheolaidd gyda grwpiau mewnol CNPT, gan gynnwys rhwydwaith cefnogi'r Cydlynwyr Ardal Lleol, y rhwydwaith Cymuned o Ymarfer, Cyswllt â Theithwyr, y Cyngor Ieuenctid a'r Maer Ieuenctid, yn ogystal â'r timau Cyfathrebu, Marchnata a Digidol.
- Sefydlu cysylltiadau a phartneriaethau newydd gyda sefydliadau a grwpiau allanol, gan gynnwys y rhwydwaith Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol, Eiriolaeth Eich Llais Chi, Blwch Democratiaeth, grwpiau cymunedol Mwslimaidd Lleol, grwpiau cymunedol BAME, cyfryngau lleol, Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Etholiadol a Chymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol.
- Anfon negeseuon allweddol wedi'u targedu trwy ohebiaeth uniongyrchol â phobl ifanc 16-17 oed, yn ogystal â defnyddio'r broses ganfasio flynyddol i helpu gydag ymgyrchoedd hyrwyddo, gan ddylunio deunyddiau arbennig i'w cynnwys a briffiadau ar-lein ar gyfer dosbarthiadau (er enghraifft anfon gohebiaeth unigryw wedi'i thargedu'n benodol at bobl ifanc 16/17 oed sydd heb gofrestru i bleidleisio).
- Cynllunio o amgylch dyddiadau allweddol i helpu gydag ymgyrchoedd hyrwyddo fel 'wythnos Croeso i'ch Pleidlais' a diwrnodau ymwybyddiaeth eraill i hybu'r gwaith wyneb yn wyneb (lle bo modd) yn ogystal â gweithgarwch ar-lein.
- Defnyddio cyfryngau hysbysebu traddodiadol megis radio lleol, yn ogystal â phlatfformau cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo a chysylltu ag adnoddau a luniwyd yn arbennig, gyda chefnogaeth y Comisiwn Etholiadol a Llywodraeth Cymru.

O ganlyniad i'r amrywiaeth hwn o weithgarwch a gynlluniwyd, wedi'i gyfuno â chefnogaeth cymorth grant uniongyrchol gan Lywodraeth

| | |
|---|---|
| Cymru i hybu capasiti swyddogion, roedd modd cynyddu cyfradd cofrestru gyffredinol pleidleiswyr 16-17 oed 12.8%, fel ei bod yn codi i 58.5% cyn y dyddiad cau ar gyfer cofrestru pleidleiswyr ar gyfer etholiadau lleol 5 Mai 2022. | |
| **Blaenoriaeth gwelliant 1.6 - Bod plant a phobl ifanc yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel** | **GWYRDD** |
| **Cam 1.6.1 –** Byddwn ni'n cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal a iach, a bod ymddygiad camdriniol bob amser yn anghywir (Strategaeth Cydberthynas Iach i greu Cymunedau Cryfach) | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Mae'r Is-grwp Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn parhau i gwrdd yn rhithwir, er mwyn sicrhau bod gwersi oed-briodol ar berthnasoedd iach yn cael eu cyflwyno i bobl ifanc.<br>• Mae Ymarferwyr Ieuenctid yn cyflwyno'r Gwersi Addysg Cydberthynas Iach a Rhywioldeb (RSE) i bobl ifanc mewn lleoliadau addysg uwchradd. Er bod y gwaith o gyflwyno hyn wedi cael ei lesteirio'n sylweddol gan y pandemig, yn ystod chwarter olaf 2021/22 rydyn ni wedi gallu cyflwyno'r wers i 1,408 o ddisgyblion ysgol uwchradd. Bydd y wers oed-briodol yn cael ei chyflwyno i ddisgyblion ysgol gynradd blwyddyn 6 yn 2022/23.<br>• Mae digwyddiad Blynyddol Diogelwch Cymunedol y Criw Croch hefyd yn cynnwys gwers ar Berthnasoedd Iach, a gyflwynwyd i ryw 1,800 o ddisgyblion. Yn ystod 2021/22 cyflwynwyd hyn yn rhithwir, ond bydd yn cael ei chyflwyno wyneb yn wyneb yn ystod 2022/23.<br>• Mae Ymarferwyr Ieuenctid yn cynyddu ymwybyddiaeth ac yn cefnogi pobl ifanc gyda pherthnasoedd iach fel rhan o'r Gwasanaeth Galw Heibio Cyngor ar Berthnasoedd (RADS) yn holl leoliadau ieuenctid a cholegau CNPT. | |
| **Cam 1.6.2 -** Byddwn ni'n sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gwybod sut mae cadw'n ddiogel ar-lein. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Mae pob ysgol wedi ymgysylltu ag offeryn hunanwerthuso 360 gradd Safe Cymru trwy blatfform Hwb, ac maen nhw wedi cael hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio. Caiff ysgolion eu hatgoffa am y canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, sy'n cynnwys pennod benodol ar ddiogelwch ar-lein, ac argymhellir polisi e-ddiogelwch fel rhan o Bolisi Diogelu CNPT i ysgolion. Caiff ysgolion eu hatgoffa | |

hefyd ynghylch y parth diogelwch ar-lein cenedlaethol sydd ar Hwb ar-lein, ac adolygiadau thematig Estyn. Cefnogir ysgolion ymhellach gan eu Swyddog Cefnogi Addysg.

- Mae Llywodraethwyr Ysgol yn cael hyfforddiant blynyddol ar ddiogelwch ar-lein, ac yn derbyn adnoddau i helpu i herio a chefnogi gweithdrefnau a phrotocolau diogelwch ar-lein eu hysgol.
- Mae Personau Diogelu Dynodedig yn derbyn diweddariadau rheolaidd o ran unrhyw wybodaeth, ganllawiau ac adnoddau gan Lywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill, e.e. NSPCC.
- Mae digwyddiad blynyddol Diogelwch Cymunedol y Criw Croch yn cyflwyno gweithdy ar Seiberdroseddu a gyflwynwyd i ryw 1,800 o ddisgyblion. Yn ystod 2021/22 cafodd hyn ei gyflwyno'n rhithwir, ond fe'i cyflwynir wyneb yn wyneb yn ystod 2022/23.

| **Cam 1.6.3 –** Byddwn ni'n sicrhau bod holl wasanaethau'r cyngor yn dilyn arferion diogelu trylwyr a chyson | **GWYRDD** |
|---|---|

**Cynnydd y cam:**

- Rydym ni'n parhau i adolygu a datblygu ein hymateb i arfer diogelu ar draws y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc trwy'r hyn a ddysgwyd o'r gweithgareddau a gynhaliwyd gan y Grŵp Strategol Safon Ymarfer.
- Mae niferoedd Amddiffyn Plant (AP), gan gynnwys ailgofrestru, wedi parhau'n gyson ar hyd y flwyddyn ddiwethaf. Mae pob ailgofrestriad yn awr yn arwain at adolygiad rheolwr er mwyn dysgu ohono.
- Mae'r Cynadledda Grwpiau Teulu yn awr wedi'i wreiddio'n dda ar draws y Gwasanaethau Plant, o Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth hyd at waith yn y Llysoedd. Y cam nesaf fydd ystyried symud hyn i mewn i'r Gwasanaethau Oedolion.
- Roedd Archwiliad ar y Cyd o drefniadau AP ar draws CNPT yn gyffredinol gadarnhaol ac yn dilysu ein hymateb i niwed y tu allan i gartref y teulu trwy'r cyfarfodydd proffil risg cymunedol a thriongli. Rydym bellach yn casglu gwybodaeth fel mater o drefn ynghylch personau a mannau sy'n destun pryder, ac wrth wneud hynny yn datblygu dealltwriaeth feddal a fydd yn fodd i dargedu'n well y rhai sy'n ceisio cam-drin plant, a hefyd i wneud lleoedd yn fwy diogel. Mae'r ymateb partneriaeth i niwed y tu allan i gartref y teulu yn aeddfedu ac mae ymrwymiad ar draws y bartneriaeth.
- Mae angen rhagor o waith ar draws y bartneriaeth mewn ymateb i Ecsbloetio Troseddol, sef y ffactor risg amlycaf bellach y tu allan i gartref y teulu.

| | |
|---|---|
| • Yn ystod 2021/22 cwblhaodd rhyw 1,600 o gyflogeion y cyngor hyfforddiant e-ddysgu gorfodol ar ddiogelu, ac roedd hynny'n cynnwys modiwl ynghylch plant a phobl ifanc. | |
| **Cam 1.6.4 –** Byddwn ni'n gweithio gyda'n partneriaid i roi ein Strategaeth Diogelwch Ffyrdd ar waith. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Ers i'r cyfyngiadau gael eu llacio'n raddol yng ngwanwyn 2021, rydym wedi dechrau gweld effaith gadarnhaol o safbwynt cyflwyno diogelwch ffyrdd i bob grŵp oedran. Dychwelodd addysg yn ein lleoliadau ysgol i drefniant wyneb yn wyneb, ac mae ein hyfforddiant i yrwyr wedi ailgychwyn, er bod rhai cyfyngiadau o hyd ar y niferoedd fesul sesiwn yn y car ac mewn ystafelloedd hyfforddi.<br>• Yn ystod 2021/22 cododd nifer y disgyblion a fu'n cyfranogi yn ein rhaglen diogelwch ffyrdd cynradd o 4,186 yn 2020/21 i 9,130 o ddisgyblion.<br>• Cynyddodd y nifer ar ein rhaglen hyfforddi beicio hefyd o 81 o ddisgyblion i 508 o ddisgyblion eleni, tra cynyddodd ein rhaglen hyfforddi i Blant 5-7 oed sy'n Cerdded – Kerbcraft, i gyfranogiad gan 1,795 o ddisgyblion, o gymharu â nifer is, sef 737, yn 2020/21. Cyflwynwyd addysg Ysgol Uwchradd i 1,623 o ddisgyblion eleni, yn hytrach na 100 y llynedd, ac mae'r hyfforddiant pellach ar y ffordd i yrwyr ifanc sydd newydd gymhwyso wedi codi o 11 yn 2020/21 i 27 yn 2021/22.<br>• Ym mis Mawrth 2022, cawsom ni hwb ariannol o £495,000 gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022/2023.<br>• Gweler hefyd gam 2.3.5. isod. | |
| **Blaenoriaeth gwelliant 1.7 – Bydd plant o bob oed yn elwa o gyfranogiad mewn gweithgareddau yn yr amgylchedd naturiol, fydd yn rhoi budd o safbwynt llesiant a mwy o werthfawrogiad o rôl yr amgylchedd naturiol yn eu bywydau.** | **GWYRDD** |
| **Cam 1.7.1 –** Gan weithio gyda phartneriaid a darparwyr arbenigol, byddwn ni'n defnyddio cyllid allanol i gyflwyno rhaglenni o weithgareddau â ffocws teuluol yn yr amgylchedd naturiol. | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**

- O’r £776,000 a gafwyd ar ffurf cyllid Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan (gan gynnwys yr Haf o Hwyl a’r Gaeaf llawn Lles), ariannwyd nifer o brosiectau cymunedol er mwyn cyflwyno gweithgareddau chwaraeon a chwarae awyr agored, gan gynnwys chwarae mewn parciau ac Ysgol Goedwig. Defnyddiwyd arian cyfalaf hefyd i wneud gwelliannau i barciau a mannau chwarae lleol er mwyn gwella ansawdd mynediad at chwarae awyr agored.
- Trwy’r Gronfa Datblygiad Plentyn, darparwyd cyfleoedd ar gyfer chwarae awyr agored, gyda 72 o sesiynau chwarae ysgol goedwig yn cael eu cyflwyno i 504 o blant 0-5 oed.
- Mae’r prosiect Mawndiroedd Coll wedi bod yn cynnal sesiynau dysgu awyr agored, gan alluogi plant lleol i ddysgu am eu hamgylchedd lleol a’i brofi, dysgu am fawndiroedd, a hefyd am fywyd gwyllt pwysig yr ardal.
- Darparwyd sesiynau iechyd a llesiant i deuluoedd yn yr awyr agored, gan annog teuluoedd lleol i fynd allan i’r amgylchedd ac annog hyder mewn chwarae naturiol.
- Mae prosiectau yng Nghraig Gwladus hefyd wedi cefnogi’r ysgolion lleol i ddefnyddio’r Parc ar gyfer dysgu awyr agored.
- Cyfeirier hefyd at Gam 2.8.1 isod

Mae gwybodaeth fanylach gyda sylwadau am berfformiad ar gael yn ein cyfres lawn o ddangosyddion perfformiad:

| Dangosydd Perfformiad | 2019/20 Gwirioneddol | 2020/21 Gwirioneddol | 2021/22 Gwirioneddol | 2021/22 Targed | Perff. CAG yn erbyn Targed 21/22 | Perff. CAG yn erbyn 20/21 Gwirioneddol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1 Amcan Llesiant 1 – Gwella llesiant plant a phobl ifanc** | | | | | | |
| CP/002 - Nifer y lleoedd gofal plant diwrnod llawn a ddarparwyd | 2335 | 2413 | 2339 | 2400 | Ambr | Ambr |
| CP/005 – Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd | 94.02 **BA 18/19** | 93.33 **BA 19/20** | 91.18 **BA 20/21** | Dim targed wedi'i bennu | **Amh** | Ambr |
| CP/006 – Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | 93.46 **BA 18/19** | 92.01 **BA 19/20** | 87.88 **BA 20/21** | Dim targed wedi'i bennu | **Amh** | Ambr |
| CP/007 – Canran y disgyblion a aseswyd yn Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen | 16.63 **BA 18/19** | Ni chynhaliwyd asesiadau oherwydd Covid | | 15.8 | **Amh** | **Amh** |
| CP/008 – Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf | 11.40 **BA 18/19** | 11.33 **BA 19/20** | 12.29 **BA 20/21** | 11.70 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/009 – Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddyn nhw symud 3 gwaith neu fwy | 7.77 | 4.1 | Data ar gael ddiwedd 2022 | 8 | **Amh** | **Amh** |
| CP/011 - Mesur 24 – Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd yn brydlon | 98.76 | 97.71 | 99.15 | 94.00 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/013 Canran y bobl ifanc sy'n NEET – Ymadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET) | 2.15 | 2.12 | 2.41 | 3.00 | Gwyrdd | Coch |
| CP/014 - Canran y bobl ifanc 11-19 oed sydd mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau Ieuenctid | 45.75 | 9.47 | 29.79 | 28.00 | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/018 – Diogelwch Ffyrdd – Lladd neu anafu'n ddifrifol: Plant a anafwyd (0-15 oed)<br>***Mae data 2020/21 ar gyfer blwyddyn galendr 2021.*** | 3 | 0 | 1 | **Dim targed wedi'i bennu** | **Amh** | **Amh** |
| CP/019 – Diogelwch Ffyrdd – Lladd neu anafu'n ddifrifol - Beicwyr Pedal a anafwyd (pob oed)<br>***Mae data 2020/21 ar gyfer blwyddyn galendr 2021.*** | 0 | 1 | 0 | **Dim targed wedi'i bennu** | **Amh** | **Amh** |
| CP/020 – Diogelwch Ffyrdd – Lladd neu anafu'n ddifrifol – Gyrwyr Ifanc (16-24 oed)<br>***Mae data 2020/21 ar gyfer blwyddyn galendr 2021.*** | 1 | 1 | 0 | **Dim targed wedi'i bennu** | **Amh** | **Amh** |
| CP/108- Sgôr capio 9 | 342.09 | 369.00 | 378.00 | 345.00 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/109 - Nifer y prentisiaid ar gynlluniau prentisiaeth ffurfiol cydnabyddedig, fesul 1,000 o gyflogeion | 6.72 | 8.06 | 15.25 | 8.00 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/115 - % y plant sydd wedi derbyn y wers Perthnasoedd Iach er mwyn rhoi sylw i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) | Dangosydd newydd ar gyfer 2021/22 | | 42.55 | 35.00 | Gwyrdd | **Amh** |

**Astudiaeth Achos 1: Prosiect Cam Nesa**

**Cefndir:** Nod Cam Nesa oedd lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed sydd heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) trwy ddull gweithredu hyblyg sy'n cynnwys, ochr yn ochr â blaenoriaethu canlyniadau cyflogaeth, cynnig cefnogaeth i unigolion er mwyn iddyn nhw gael mynediad at ddysgu pellach, caffael cymwysterau a chyfranogi mewn hyfforddiant. Bu'r cynnig hwn o gymorth i bobl ifanc sicrhau mynediad wedi'i gefnogi a symud ymlaen i gyflogaeth gynaliadwy. Lluniwyd y prosiect i ategu ac ychwanegu gwerth at wasanaethau heb eu dyblygu. Cyflwynwyd y prosiect rhanbarthol gan awdurdodau lleol Sir Benfro, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion ac Abertawe.

Trwy'r prosiect hwn, cefnogodd ein Gwasanaeth Ieuenctid 494 o bobl ifanc a'u helpu i gael mynediad at gyflogaeth, addysg amser llawn neu hyfforddiant. Bu prosiect Cam Nesa yn gweithio'n benodol gyda phobl ifanc 16-24 oed oedd wedi colli cysylltiad â'r farchnad swyddi, a heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Bu Gweithwyr Ieuenctid a gyflogwyd gan y prosiect yn darparu cefnogaeth wedi'i theilwra ar gyfer y bobl ifanc, er enghraifft eu helpu gyda chwilio am swyddi, llunio CV, technegau cyfweliad a llenwi ffurflenni cais. Ar ben hynny, byddent yn rhoi cyngor ac arweiniad yn ôl y galw, gan gynnwys eu cyfeirio ymlaen at wasanaethau cefnogi arbenigol. Ers i'r prosiect gael ei lansio yn 2018, cefnogwyd 243 o bobl ifanc i gyflogaeth, 58 i addysg neu hyfforddiant a llawer o gymwysterau gwahanol.

Er bod Cam Nesa bellach wedi dod i ben (caeodd y prosiect ym mis Awst 2021), mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn parhau i ddarparu cefnogaeth i bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET trwy eu Tîm Cadw mewn Cysylltiad (KIT), a llwyddodd y Gwasanaeth Ieuenctid i sicrhau Cyllid Adnewyddu Cymunedol (CRF) i ddatblygu eu Tîm Camau Nesaf ôl-16. Mae'r tîm hefyd yn rhoi cefnogaeth cyflogadwyedd i bobl ifanc 18-25 oed mewn partneriaeth â Chanolfan Byd Gwaith yn eu canolfannau yng Nghastell-nedd a Phort Talbot.

**Sut mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at 5 ffordd o weithio egwyddor datblygu cynaliadwy:**

- **Tymor hir –** cyfrannodd y prosiect at weledigaeth hirdymor amcan llesiant 1 y cynllun corfforaethol – gwella llesiant plant a phobl ifanc. Darparodd y prosiect gyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu bywyd cymdeithasol a sgiliau bywyd, ynghyd â sgiliau galwedigaethol ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol. Llwyddodd y prosiect i helpu 243 o bobl ifanc i sicrhau cyflogaeth a gynhelir, sy'n aml yn arwain at gyfleoedd pellach, datblygiad a mwy o ymdeimlad o hunan-werth.
- **Integreiddio –** mae'r prosiect yn cysylltu ag amcan llesiant 1 y cynllun corfforaethol – gwella llesiant plant a phobl ifanc, a chynlluniau cyflawni lleol eraill yn y sefydliad. Lluniwyd darpariaeth Cam Nesa i osgoi dyblygu gwasanaethau, ond i wella'r cyfleoedd i bobl ifanc. Bu'r prosiect yn gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr lleol, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a darparwyr hyfforddiant. Ceir rhagor o wybodaeth am sut mae Amcan Llesiant 1 yn gweithio'n gronnol at gyflawni'r 7 Nod Llesiant Cenedlaethol ar dudalennau 13 ac 14 uchod.
- **Ymwneud –** Bu prosiect Cam Nesa yn cydweithio'n agos â darpariaethau gwasanaeth ieuenctid eraill, lle cafodd arfer da ei rannu a'i fabwysiadu. Rhannwyd data perfformiad misol rhwng yr holl bartïon dan sylw, ynghyd â phrosesau monitro manwl. Roedd y bobl ifanc yr ymgysylltwyd â nhw yn ymwneud â dylunio eu pecyn unigryw o gefnogaeth a helpu'r gweithiwr ieuenctid i gael hyd i'r llwybr gorau posibl iddyn nhw.
- **Cydweithio –** Roedd Cam Nesa yn ddarpariaeth partneriaeth ranbarthol oedd yn cynnwys Gyrfa Cymru, Canolfannau Gwaith, Colegau, Darparwyr Dysgu

seiliedig ar Waith, Asiantaethau Atgyfeirio Arbenigol a chyflogwyr lleol, pawb ohonynt yn cydweithio i helpu pobl ifanc i ddileu unrhyw rwystrau, i gefnogi iechyd a llesiant, ac er mwyn iddyn nhw gyflawni eu nod.

- **Ataliaeth –** Bu prosiect Cam Nesa o gymorth i leihau cyfanswm y bobl ifanc sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn ein cymunedau lleol. Roedd llawer o'r sesiynau a'r cyrsiau oedd yn cael eu cynnig yn helpu pobl ifanc i wella'u hiechyd meddwl a'u llesiant. Byddai'r bobl ifanc oedd yn ymgysylltu â'r rhaglen yn aml yn gwella ansawdd eu bywyd, trwy sicrhau cyflogaeth a gynhelid.

**Enghreifftiau o ganlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaeth:**

- Dywedodd un person ifanc a gafodd gefnogaeth trwy'r prosiect: "Rwy'n wirioneddol ddiolchgar am y gefnogaeth a'r cymorth ges i gan dîm Cam Nesa. Fe wnaethon nhw wella fy CV, rhoi hyfforddiant i fi a'm helpu gyda sgiliau cyfweliad, ac fe wnaeth y cyfan fy helpu i gael y swydd."
- Nod gyrfa hir dymor un person ifanc oedd agor ei busnes ei hun yn trin blew cwn, ac mae bellach ar ei ffordd at gyflawni'r dewis gyrfa yma. Mae hi'n fwy na bodlon ar y gefnogaeth a gafodd ar hyd y daith, ac meddai "oni bai bod Cam Nesa wedi talu am fy nghwrs, fyddwn i ddim lle rwyf fi heddiw. Mae'r gefnogaeth gefais i wedi bod yn rhyfeddol, ac rwy'n wirioneddol ddiolchgar".
- Dywedodd un person ifanc arall – "rwy wedi treulio 6 blynedd yn fy stafell wely, doeddwn i byth yn gwybod bod pobl eraill yn dioddef yr un fath â fi, ac yn meddwl mod i ar fy mhen fy hun gyda'm meddyliau. Rwy'n dymuno mod i wedi sylweddoli a chymryd rhan mewn grwpiau'n gynt, achos rwy'n mwynhau'n fawr. Alla i ddim credu faint mae pobl yn barod i siarad am eu problemau a'u trafod, mae'n gwneud i mi deimlo'n well amdanaf fy hun."
- "Rydw i wrth fy modd, ac eisiau diolch i chi am bopeth rydych chi wedi'i wneud i fi, o'm helpu i lenwi ffurflenni i addasu fy CV, rydych chi wedi bod yn gymaint o help, ac rwy'n ddiolchgar iawn am bopeth wnaethoch chi. Diolch :)"
- "Ers mynychu'r sesiynau rwy wedi dod yn fwy hyderus, ac rwy'n arbennig yn mwynhau'r drefn o gwrdd ag eraill yn ein cyfarfodydd Teams. Mae'n cadw fy meddwl dan reolaeth".
- "Diolch am yr holl gefnogaeth yn ystod fy amser ar Gredyd Cynhwysol. Mae'r brentisiaeth yn mynd yn dda iawn ac rwy'n ei mwynhau. Rwy bellach ar lwybr at Lefel 3 Gweinyddiaeth Fusnes".
- "Roeddwn i'n ansicr pa lwybr gyrfa i'w ddewis. Pan gwrddais i â'r gweithiwr, fe wnaeth hi fy helpu i edrych ar opsiynau a theilwra fy CV ar gyfer gwahanol rolau (na fyddwn i wedi meddwl amdanyn nhw). Fe wnaethon ni ymgeisio am nifer o brentisiaethau, ac rwy'n teimlo na fyddwn i wedi llwyddo yn fy rôl newydd heb ei chefnogaeth a'i hanogaeth hi."

## 5. Amcan Llesiant 2 – Cynnydd yn 2021/22



**Amcan Llesiant 2:** Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol:

*"Bod pawb yn cyfranogi'n llawn ym mywyd y gymuned – yn gymdeithasol ac yn economaidd"*

| Sut mae'r amcan llesiant hwn yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol: | |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Blaenoriaeth allweddol yw creu/hwyluso cyfleoedd cyflogaeth o safon i bobl leol. P'un a yw hynny trwy fanteisio ar bŵer prynu a dylanwad gweithgareddau uniongyrchol y Cyngor, neu trwy ei rôl creu lleoedd, mae sicrhau twf yn y cyfleoedd cyflogaeth lleol a chefnogi pobl i gael gwaith yn un o brif uchelgeisiau'r Cynllun hwn. |
| **Cymru iachach** | Mae sicrhau tai gweddus, fforddiadwy yn ffocws arall allweddol, ynghyd â gwaith i sicrhau bod mwy yn cael ei wneud i alluogi pobl sy'n dioddef cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau neu sydd mewn perygl o ddioddef ymddygiad troseddol ar-lein i'w hamddiffyn eu hunain. Mae cynlluniau penodol ar gyfer cefnogi pobl sydd ag anghenion iechyd a gofal mwy arwyddocaol, ond mae ffocws ymarfer yn cael ei newid er mwyn rhoi pwyslais ar hybu annibyniaeth. |

| Sut mae'r amcan llesiant hwn yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol: | |
|---|---|
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Mae pwysigrwydd "cymuned" yn cael ei bwysleisio'n arbennig mewn perthynas â sut mae'r Cyngor yn bwriadu diwallu anghenion gofal a chymorth y trigolion mwy bregus. |
| **Cymru gydnerth** | Mae pwyslais cryf ar gynaliadwyedd ar draws nifer o'r meysydd blaenoriaeth, a hynny o ran sut rydym ni'n bwriadu lletya ein poblogaeth a sut rydym ni'n ceisio sicrhau dichonoldeb tymor hir ein cymunedau trwy ofalu bod cyfleoedd cyflogaeth o safon ar gyfer pobl leol. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Mae ffocws clir ar waith i ymdrin ag anghydraddoldeb ar draws pobl o bob math gwahanol o gefndir, ond hefyd mae ymrwymiad pendant i sicrhau dull gweithredu seiliedig ar hawliau, nid o ran sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau addysg a gwasanaethau cymdeithasol statudol yn unig, ond ar draws holl waith y Cyngor. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu** | Nod y blaenoriaethau yw cryfhau a datblygu cyfalaf cymdeithasol cymunedau er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a chadernid. Bydd y gwaith hwn hefyd yn sicrhau bod diwylliant unigryw pob cymuned yn cael ei barchu, gan gynnwys gwaith i estyn defnydd beunyddiol o'r Gymraeg a diogelu treftadaeth gyfoethog y fwrdeistref sirol. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Bydd gweithgaredd rheoleiddio a chaffael yn rhoi sylw priodol i ddyletswydd y Cyngor i weithredu mewn modd cynaliadwy a chyfrifol. Mae'r Cyngor wedi ymuno â'r Rhaglen Cadwyni Cyflenwi Moesegol. Mae hynny'n golygu ymrwymo i sicrhau bod y Cyngor yn edrych yn ofalus ar ffynhonnell ei nwyddau a'i wasanaethau er mwyn sicrhau bod y trefniadau hynny'n rhai moesegol. |

| Amcan Llesiant 2 – Gwella llesiant yr holl oedolion sy’n byw yn y fwrdeistref sirol | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth gwelliant 2.1 - Bod pobl leol yn gallu cael mynediad at gyflogaeth gynaliadwy, leol, o safon** | **GWYRDD** |
| **Cam 2.1.1** – Cefnogi busnesau sydd eisoes yn bodoli a busnesau newydd i helpu i greu a chynnal cyfleoedd cyflogaeth lleol i bobl leol | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Yn ystod 10 mis cyntaf 2021/22, parhaodd amrywiol gyfyngiadau mewn grym, ac roedd sectorau busnes megis Hamdden, Lletygarwch, Manwerthu a Thwristiaeth yn parhau i deimlo’u heffaith. Ar yr adeg honno, i gefnogi busnesau lleol, prosesodd y Tîm Datblygu Economaidd dros 320 o daliadau grantiau brys ar ran Llywodraeth Cymru i fusnesau bach oedd yn gweithredu o fewn y sectorau hyn. Ar ben hynny, derbyniodd y tîm dros 700 o geisiadau am gyngor, gwybodaeth neu gefnogaeth ariannol.<br>• Cynorthwywyd gyda 244 o ymholiadau cychwyn busnesau newydd yn ystod 2021/22, nifer sydd fymryn yn is na’n targed o 250. Fodd bynnag, cyflawnwyd hyn er gwaethaf yr amodau economaidd anffafriol a’r ffaith bod adnoddau staff yn dal i gael eu dyrannu i weinyddu ceisiadau am daliadau brys trwy amrywiol gynlluniau grantiau Llywodraeth Cymru.<br>• Mae’r Tîm Datblygu Economaidd yn graddol ddychwelyd at gyswllt wyneb yn wyneb, yn parhau i gyflwyno cefnogaeth ‘rithwir’ a hefyd, yn bwysig, yn ystyried ffyrdd newydd o gefnogi busnesau newydd fydd yn cychwyn yn y dyfodol.<br>• Cyflwynodd y Tîm 12 o ddigwyddiadau menter ‘rhithwir’ yn ystod 2021/22, gan ddarparu cefnogaeth i drigolion lleol oedd yn ystyried cychwyn eu busnes eu hunain. | |
| **Cam 2.1.2** - Mwyafu’r cyllid strategol sydd ar gael i gyflwyno rhaglenni cyflogadwyedd fel Gweithffyrdd+ a Chymunedau dros Waith, er mwyn cynorthwyo’r rhai sy’n economaidd segur ac yn ddi-waith i gaffael a chynnal cyflogaeth. | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**

- Parhaodd y pandemig i effeithio ar gyfranogwyr oedd yn cael eu cefnogi gan Gweithffyrdd+, ac roedd y tîm yn annog ymgysylltu trwy'r ffôn, e-bost a negeseuon testun. Cafwyd 705 o atgyfeiriadau, gyda 216 yn ymrestru. Cafodd 112 o bobl eu helpu i wneud cynnydd yn ôl at waith, hyfforddiant neu wirfoddoli, oedd yn uwch na'n targed o 72. O dan yr amgylchiadau roedd hyn yn gyflawniad aruthrol i'r tîm. Effeithiwyd ar y canlyniadau gan y pandemig yn benodol, gan mai cynulleidfa darged Gweithffyrdd yw'r rhai y mae ganddynt Anabledd neu Gyflyrau Iechyd sy'n Cyfyngu ar Waith. O ganlyniad, roedd y cyfnod hwn yn un anodd iawn ar gyfer ystyried gwaith, oherwydd bod yr unigolion mor agored i niwed.
- Rhagorwyd yn sylweddol ar darged Cymunedau dros Waith ar gyfer nifer y bobl 16-24 oed a gafodd eu helpu i sicrhau hyfforddiant, gwaith gwirfoddol, profiad gwaith, addysg amser llawn neu gyflogaeth gynaliadwy, gan fod 134 wedi'u cefnogi yn erbyn targed o 44. Fodd bynnag, roedd nifer yr atgyfeiriadau'n isel yn achos y grŵp oed 25+, a gwelwyd hynny ledled Cymru. Yn achos y grŵp hwn, cafodd 50 o bobl eu cefnogi yn CNPT yn ystod y flwyddyn, yn erbyn targed o 86.
- Rhagorwyd yn sylweddol hefyd ar darged y rhaglen Cymunedau dros Waith a mwy ar gyfer pobl a gafodd eu helpu i sicrhau hyfforddiant, gwaith gwirfoddol, profiad gwaith, addysg amser llawn, cyflogaeth gynaliadwy, neu'r rhai mewn 'tlodi yn y gwaith', a rhagorwyd yn sylweddol hefyd ar nifer y bobl 16 oed a throsodd, gyda 525 yn cael eu cefnogi yn 2021/22 yn erbyn targed o 300, gyda 159 yn cael eu cefnogi yn 2020/21.
- Daeth mynediad i'r rhaglen Kickstart i ben ar 1 Mawrth 2022, gyda'r lleoliadau hynny'n parhau i mewn i'r flwyddyn ariannol newydd. Mae'r gefnogaeth i bobl ifanc sicrhau cyflogaeth, ac i fusnesau recriwtio gyda chymhelliad ariannol talu am y cyflog am 6 mis, wedi bod yn llwyddiannus, gyda 108 o bobl yn cael eu lleoli gyda busnesau lleol, a 32 o unigolion yn cael eu cefnogi gan y Cyngor.
- Mae'r Orsaf Waith, a ariannir gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot, yn 'siop dan yr unto' sy'n cynnig cymorth ymarferol i bobl sydd am symud ymlaen i swydd trwy hyfforddiant, profiad gwaith, cyngor gyrfaoedd, gwirfoddoli a chefnogaeth un i un gyda chyflogaeth. Trwy gael mynediad at gyllid Llywodraeth Cymru, rydyn ni wedi adnewyddu dau adeilad a fu gynt yn adfeiliedig y tu ôl i'r Orsaf Waith, sydd bellach yn darparu llety o safon uchel ar gyfer hyfforddiant a chyflwyno'r rhaglen mewn cydweithrediad â Chyflogadwyedd (Employability).
- Ar ben hynny, rydyn ni wedi datblygu cynnig trwy'r Gronfa Adnewyddu Cymunedol i gynorthwyo mwy o bobl i gael profiad gwaith am dâl.

| | |
|---|---|
| **Cam 2.1.3 -** Bydd y Cyngor yn ceisio osgoi dileu swyddi gorfodol gymaint ag sy'n bosibl . | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Byddwn ni'n parhau â'n hymrwymiad i leiafu dileu swyddi gorfodol a sicrhau dilyniant cyflogaeth ar gyfer ein cyflogeion trwy ganolbwyntio ar weithgareddau ailgyfeirio, gan ddefnyddio'r Cynllun Dileu Swyddi Gwirfoddol, sydd bellach yn gynllun pen-agored ers 17 Medi 2019, a chyfyngu ar nifer y swyddi sy'n cael eu hysbysebu'n allanol.<br>• Cafwyd 3 achos o ddileu swyddi gorfodol yn ystod 2021/22 a 2 yn 2020/21. | |
| **Cam 2.1.4 -** Cam - Mwyafu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl leol trwy fuddion cymunedol a chefnogi buddsoddiadau newydd yn y fwrdeistref sirol | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Er gwaethaf cyfyngiadau ar safleoedd a phrinder staff a chyflenwadau ar hyd 2021/22, gwnaed cynnydd da o ran y gwaith ar brosiectau adeiladu'r Cyngor, gydag amrywiol gyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant a phrofiad gwaith yn cael eu cynnig i bobl leol.<br>• Yn ystod 2021/22, hwyluswyd 2,844 o wythnosau hyfforddi ar ffurf cyfleoedd prentisiaeth, cyfnodau dan hyfforddiant a phrofiad gwaith, cynnydd ar y 2,026 a gyflawnwyd yn 2020/21. | |
| **Blaenoriaeth gwelliant 2.2 - Bod pobl leol yn gallu cael mynediad at dai fforddiadwy o safon** | **AMBR** |
| **Cam 2.2.1 -** Byddwn ni'n gweithio gyda datblygwyr a phartneriaid i ddarparu cyflenwad, cyfuniad, math a deiliadaeth digonol o dai i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol, gan gynnwys y gymuned sipsiwn a theithwyr yn y lleoliadau cywir | **AMBR** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Mae Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) y Cynllun Datblygu Lleol yn monitro gweithrediad strategaeth a pholisïau'r cynllun. Mae'r CDLl yn darparu ar gyfer 8,760 o unedau tai er mwyn cyflwyno'r 7,800 o anheddau sy'n ofynnol ar gyfer y strategaeth twf ar sail | |

economaidd erbyn 2026. Adroddodd AMB 2021 (2020/21) mai 2,357 o unedau tai a gwblhawyd yn erbyn targed o 4,956 ers dyddiad sylfaen y CDLl yn 2011, sy'n cyfateb i 48% yn unig o'r targed cronnol yn cael ei gyflawni hyd yma. Er bod digon o dir wedi'i ddyrannu yn y CDLl i ymateb i'r gofyn a nodwyd am dai, am amrywiaeth o resymau (gan gynnwys rhai sy'n annibynnol ar y system gynllunio), nid yw safleoedd yn dod gerbron ac yn gwneud cynnydd fel y rhagwelwyd. O ran tai fforddiadwy a gyflwynir trwy'r system gynllunio, adroddodd AMB 2021 fod 72 o unedau fforddiadwy wedi cael eu cyflwyno trwy gytundebau Adran 106 ers 2011, oedd yn cyfateb i 10% yn unig o'r targed cronnol o 722 o unedau. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng cyflawni tai fforddiadwy a chyflawni tai yn ehangach, ac mae'r sefyllfa'n adlewyrchu'r ffaith nad yw safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLl yn dod gerbron fel y rhagwelwyd yn wreiddiol.

- Cymeradwywyd Cytundeb Cyflawni'r CDLl Amnewid gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2022, ac mae'n cyflwyno amserlen o dair blynedd a hanner i gwblhau'r cynllun, gyda dyddiad mabwysiadu a ragwelir ym mis Gorffennaf 2025. Cynhaliwyd 'Galwad am Safleoedd Ymgeisiol' rhwng 1 Mawrth a 31 Mai 2022, lle gwahoddwyd tirfeddianwyr, y cyhoedd a datblygwyr i gyflwyno'u tir i'w gynnwys yn y cynllun er mwyn ei ddatblygu neu ei ddiogelu. Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu diwygiedig Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o bwyslais ar hyrwyddwyr safleoedd yn dangos dichonoldeb a chyflawnadwyedd safleoedd, a ddylai helpu i sicrhau mai safleoedd dichonadwy lle gwelwyd bod ymrwymiad clir yn unig sy'n cael eu cynnwys yn y CDLl Amnewid (CDLlA). Mae'r lefelau twf sy'n ofynnol ar gyfer tai ar draws cyfnod y CDLlA (2021-2036) yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd.
- Cwblhawyd yr estyniad i Safle Sipsiwn a Theithwyr Cae Garw yn 2016 ac roedd yn bodloni'r angen a nodwyd hyd at 2022. Cwblhawyd Asesiad Llety newydd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ym mis Chwefror 2022, fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, ac ar hyn o bryd mae'n disgwyl i gael ei Gymeradwyo gan y Gweinidog.
- Ailddechreuwyd defnyddio 6 eiddo a fu'n achosi problemau hirdymor yn sgîl gweithredu uniongyrchol gan y Cyngor. Mae 7 eiddo arall wedi mynd trwy broses Gweithdrefn Gorfodi Gwerthu ac wedi newid perchnogaeth, ond nid ydynt wedi cael eu hailfeddiannu eto. Cafwyd trafferthion wrth sicrhau data hanfodol o ffynonellau mewnol eraill i fedru adrodd am ganran yr eiddo preifat gwag y dechreuwyd eu defnyddio eto. Byddwn ni'n unioni hyn yn 2022/23.

| | |
|---|---|
| **Cam 2.2.2 –** Byddwn ni'n arwain y gwaith o hwyluso'r bartneriaeth tai strategol leol er mwyn atal digartrefedd yn amlach a rhoi cartref i'r digartref yn gyflymach. | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**

- Mae Cynllun Ailgartrefu Cyflym yn cael ei ddatblygu i helpu pobl i symud i lety parhaol, ochr yn ochr â rhoi sylw i'w hanghenion cefnogi yn gynt.
- Cynyddwyd faint o lety interim brys sydd ar gael i'r digartref, i ymateb i'r galw cynyddol.
- Mae cyllid ychwanegol wedi golygu bod modd i'r tîm Opsiynau Tai ehangu, a chrewyd 13 o swyddi newydd i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i ddefnyddwyr gwasanaeth a hefyd i staff presennol, yn unol â'r galw cynyddol.
- Llwyddwyd i atal 60.7% o aelwydydd rhag bod yn ddigartref, sydd fymryn yn uwch na'n targed o 60%.

| | |
|---|---|
| **Cam 2.2.3 -** Byddwn ni'n targedu'r cyllid sydd ar gael i ddarparu cymorth tai effeithiol i bobl y nodwyd bod angen help a chymorth ychwanegol arnyn nhw | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**

- Ar ben y swyddi newydd yn Opsiynau Tai (y soniwyd amdanynt yng ngham 2.2.2 uchod), defnyddiwyd Grant Cefnogi Tai i ddarparu cymorth wedi'i dargedu gan sefydliadau allanol/elusennau, megis cefnogaeth i gyn-droseddwyr, a iechyd meddwl yng nghyswllt anabledd, camddefnyddio sylweddau, ac ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig.
- Yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22, gosodwyd 66 o systemau gwres canolog nwy newydd mewn cartrefi ar draws y fwrdeistref trwy Gynllun y Gronfa Cartrefi Cynnes. Ers mis Mehefin 2020, gosodwyd 108 o systemau gwres canolog newydd ar draws y fwrdeistref, gyda chyfanswm gwariant o £485,000 ar draws y cynllun cyfan.

| | |
|---|---|
| **Cam 2.2.4 -** Byddwn ni'n parhau i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl oddi mewn i derfynau'r cyllid sydd ar gael i'r Cyngor | **AMBR** |

**Cynnydd y cam:**

Mae effeithiau'r pandemig yn dal i amharu ar gyflawni Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Daliodd argaeledd contractwyr ac mewn rhai achosion cyflenwi deunyddiau i fod yn broblem. Bu gwelliant yn yr amser a gymerir i gyflawni Grant Cyfleusterau i'r Anabl, sydd wedi gostwng o 363 o ddiwrnodau yn 2020/21 i 339 o ddiwrnodau yn 2021/22. Fodd bynnag, mae nifer y diwrnodau a gymerir ar gyfartaledd yn dal yn uwch na'r targed o 270.

| | |
|---|---|
| **Cam 2.2.5 –** Byddwn ni'n datblygu Strategaeth ar gyfer y Rhaglen Cymorth Tai, sy'n amlinellu cyfeiriad strategol y Cyngor ar gyfer gwasanaethau cymorth tai. | **AMBR** |
| **Cynnydd y cam:**<br>Datblygwyd Strategaeth ar gyfer y Rhaglen Cymorth Tai yn ystod 2021/22 ac ymgynghorwyd arni yn gynnar yn 2022/23. Bydd y strategaeth yn amlinellu cyfeiriad strategol yr awdurdod lleol ar gyfer gwasanaethau cymorth tai, yn darparu golwg strategol sengl ar ddull Castell-nedd Port Talbot o ymdrin â gwasanaethau cymorth tai ac atal digartrefedd, yn cymryd i ystyried beth byddwn ni, fel awdurdod lleol, yn ei wneud i gefnogi cyflwyno gweledigaeth a nodau Llywodraeth Cymru yng nghyswllt atal digartrefedd, ac yn hybu'r newid trawsffurfiannol sy'n ofynnol er mwyn symud i'r dull ailgartrefu newydd cyflym. Bydd y drafft terfynol wedi'r ymgynghoriad hwn yn cael ei ystyried gan y Cabinet ym mis Hydref 2022. Achoswyd oedi i'r gwaith hwn gan effeithiau'r pandemig. | |
| **Blaenoriaeth gwelliant 2.3 - Bod pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel** | **AMBR** |
| **Cam 2.3.1 -** Byddwn ni'n gwneud ymyrraeth gynnar ac ataliaeth yn flaenoriaeth i leihau nifer y dioddefwyr eildro a lleihau nifer yr achosion risg uchel (Strategaeth Perthnasoedd Iach i greu Cymunedau Cryfach) | **AMBR** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol a'u partneriaid wedi bod yn rhoi'r amrywiol gamau gweithredu ar waith fel rhan o'r Strategaeth a ddiweddarwyd ynghylch Trais yn erbyn Benywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) 'Perthnasoedd Iach i greu Cymunedau Cryfach' ar hyd 2021/22.<br>• Bu'r Tîm Diogelwch Cymunedol yn cydlynu ymgyrch Diwrnod y Rhuban Gwyn, a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2021. Eleni roedd yr ymgyrch yn cynnwys clybiau rygbi ar lawr gwlad yn ein helpu i hybu negeseuon allweddol am berthnasoedd iach. Roedd yr ymgyrch yn canolbwyntio'n bennaf ar y cyfryngau cymdeithasol oherwydd bod rhai cyfyngiadau Covid-19 yn parhau.<br>• Mae ein Tîm o Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) bellach yn gweithio yn ôl model hybrid, ac mae eu cyfraddau ymgysylltu'n dal yn 73%, sy'n uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol, er gwaethaf y cynnydd yn y galw am y gwasanaeth.<br>• Roedd 34.7% o achosion o gam-drin domestig yn ddioddefwyr eildro, ac er bod hyn yn dal yn uwch na'n targed o 32%, mae'r ffigur | |

wedi gostwng o gymharu â'r ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd o 19% yn atgyfeiriadau dioddefwyr risg uchel i'r IDVA (Ymgynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig). Mae gwaith yn parhau i gefnogi'r dioddefwyr hynny sydd ag anghenion mwy cymhleth, y gall fod arnynt angen cefnogaeth ychwanegol, cefnogaeth dros gyfnod hwy, neu a all adael cefnogaeth, ond dychwelyd yn ddiweddarach.

| | |
|---|---|
| **Cam 2.3.2 -** Byddwn ni'n cefnogi ac yn amddiffyn pobl sy'n agored i gael eu denu i mewn i frawychiaeth ac eithafiaeth | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**

- Datblygwyd Panel 'Channel' CNPT i sicrhau bod yr awdurdod yn gallu cefnogi'r rhai y nodwyd y gallent fod yn agored i gael eu radicaleiddio. Mae'r Panel hwn yn cael ei gydlynu a'i gefnogi gan y Tîm Diogelwch Cymunedol, dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Diogelu. Mae lefel mynychu'r amrywiol bartneriaid yn y panel yn dda, a cheir canlyniadau cadarnhaol i'r rhai sy'n cael eu hatgyfeirio.
- Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cydweithio'n agos â Heddlu De Cymru ac Uned Eithafiaeth a Gwrth-frawychiaeth Cymru i sicrhau bod atgyfeiriadau'n cael eu hasesu'n briodol. Caiff achosion perthnasol lefel isel eu trafod yn 'Channel', ac mae'r Heddlu'n delio â'r achosion risg uwch. Yna mae'r achosion a drafodir yn 'Channel' yn cael cynnig cefnogaeth, lle bo hynny'n briodol, gan ddarparwr ymyriadau a achredwyd gan y Swyddfa Gartref, a rhennir diweddariadau rheolaidd ar gynnydd. Mae Panel 'Channel' yn atebol i'r Bwrdd CONTEST Rhanbarthol a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

| | |
|---|---|
| **Cam 2.3.3 -** Byddwn ni'n parhau i fonitro ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws y fwrdeistref sirol, mewn cydweithrediad â'n partneriaid diogelwch cymunedol, ac yn sicrhau ymateb effeithiol yn ôl y galw | **AMBR** |

**Cynnydd y cam:**

- Cynyddodd aelodaeth y cynllun Patrôl Pawennau (Paws on Patrol) yn ystod 2021/22 a bellach mae'n cynnwys 1,300 o aelodau. Mae pobl sy'n mynd â'r ci am dro sydd ag ymwybyddiaeth gymunedol yn helpu eu cymdogaeth leol trwy fod yn llygaid ac yn glustiau i'r gymuned a rhoi gwybod am faterion fel graffiti, baw cŵn, goleuadau stryd diffygiol, gollwng sbwriel yn anghyfreithlon, ymddygiad gwrthgymdeithasol (YGG) a gweithgarwch troseddol. Mae Partneriaeth CNPT Mwy Diogel o'r farn y gall y miloedd sy'n mynd â'u cŵn am dro yn y fwrdeistref sirol chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gadw cymdogaethau'n fwy glân a diogel.

- Pan laciwyd cyfyngiadau Covid 19 gwelwyd cynnydd yn y digwyddiadau cysylltiedig ag YGG, yn enwedig yng nghanol ein trefi. Roedd pryder difrifol ynghylch diffyg adrodd digonol, gan nad oedd y darlun a gâi ei bortreadu ar y cyfryngau cymdeithasol yn cael ei adlewyrchu yn ystadegau'r heddlu na'r cyngor. Sefydlwyd is-grwpiau penodol i ddelio ag achosion arbennig o YGG, gan gynnwys Canol Tref Castell-nedd, Canol Tref Port Talbot a Llansawel. Mae nifer dda o bartneriaid perthnasol yn dod i'r cyfarfodydd hyn, ac maent yn cael cefnogaeth gan Gynghorwyr perthnasol y Wardiau a'r Aelodau Cabinet. Mae'r grwpiau'n edrych ar gynlluniau gweithredu wedi'u targedu i roi sylw i bryderon, gan gynnwys camau gweithredu tymor hwy a mwy strategol, lle bod hynny'n berthnasol.
- Derbyniodd Grŵp Partneriaeth Canol Tref Castell-nedd Wobr Diogelu am y gwaith cadarnhaol a wnaed yng Nghanol Tref Castell-nedd.
- Mae gweithrediadau'r Heddlu yn parhau, ac mae diweddariadau rheolaidd yn cae eu bwydo i'r bartneriaeth, er mwyn sicrhau bod y sefyllfa'n cael ei monitro.
- Mae ymgysylltu parhaus â busnesau a masnachwyr lleol, gyda ffocws cynyddol ar annog adroddiadau i 101.

| | |
|---|---|
| **Cam 2.3.4 -** Byddwn ni'n gweithio gyda'r Bwrdd Cynllunio Ardal (BCA) a phartneriaid ehangach i roi dull seiliedig ar fodel iechyd cyhoeddus ar waith i ddarparu gwasanaethau ar draws y gymuned i wella'r ymatebion i bobl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau, gan roi blaenoriaeth i leihau marwolaethau oherwydd cyffuriau a gwella gwasanaethau i'r rhai sydd â mwy nag un cyflwr ar yr un pryd. | **AMBR** |

**Cynnydd y cam:**

- Ym mis Ebrill 2021 contractiodd y Bwrdd Cynllunio Ardal Ymgynghoriaeth *Figure 8* i ddechrau datblygu panel ymgynghorol annibynnol a fydd yn dwyn yr enw Comisiwn y Gwir am Ddefnydd o Sylweddau ym Mae'r Gorllewin (SUTC). Mae cyd-gadeiryddion wedi cael eu recriwtio, a'r bwriad yw y bydd aelodau'r Comisiwn yn eu lle erbyn mis Awst 2022. Bydd y Comisiwn yn ymchwilio i brif achosion a chanlyniadau defnyddio cyffuriau a marwolaethau oherwydd cyffuriau i unigolion a'u teuluoedd; ac yn sgîl hynny yn argymell mesurau polisi ac ymarferol cadarn a chyflawnadwy i ymdrin â hwy.
- Ochr yn ochr â gwaith SUTC, bydd tîm y BCA yn gweithio gyda phartneriaid comisiynu i gyflawni'r argymhellion interim sy'n deillio o'r Comisiwn, yn ogystal â datblygu dull Cynghrair wrth gomisiynu model Iechyd Cyhoeddus Integredig newydd sbon ar gyfer gwasanaethau defnyddio sylweddau ar draws y rhanbarth. Cytunwyd ar adnodd i symud ymlaen gyda'r elfen hon o'r prosiect Trawsffurfio.

| **Cam 2.3.5 -** Byddwn ni'n gweithio gyda'n partneriaid i roi ein Strategaeth Diogelwch Ffyrdd ar waith | **GWYRDD** |
|---|---|

**Cynnydd y cam:**

- Ers i'r cyfyngiadau gael eu llacio'n raddol yng ngwanwyn 2021, rydym wedi dechrau gweld effaith gadarnhaol ar ein gwaith yn cyflwyno diogelwch ffyrdd ar draws pob grŵp oed. Roedd y cynnydd o ran cyflawni'r gwaith a gynlluniwyd gennym ar y llwybr cywir ar gyfer 2021/22. Er na phennwyd targedau ar gyfer Castell-nedd Port Talbot gan Lywodraeth Cymru yn 2021, hyd at a chan gynnwys blwyddyn galendr 2020, mae niferoedd y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol ar ein ffyrdd wedi bod yn sylweddol is o flwyddyn i flwyddyn o'i fesur yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru.
- Mae dadansoddiad o'r damweiniau a gofnodwyd gan yr heddlu yng Nghastell-nedd Port Talbot (pob difrifoldeb) yn dangos gostyngiad cyson ers 2015. Cofnodwyd 216 o ddamweiniau yn 2015 a 94 yn 2021. O'r 94 o ddamweiniau yn 2021, cafwyd 132 o anafiadau oedd yn cynnwys 4 marwolaeth, 15 o anafiadau difrifol a 113 o fân anafiadau. Effeithiodd y pandemig ar nifer y damweiniau ffyrdd a'r anafiadau a gofnodwyd gan yr heddlu oherwydd y cyfyngiadau ar sut, ble a pham gallai pobl deithio yng Nghymru. Er bod ffigurau 2021 rywfaint yn uwch na rhai 2020 oherwydd bod y llacio ar y cyfyngiadau'n parhau, maent yn dal yn is na'r lefelau cyn y pandemig. Gwaetha'r modd, lladdwyd 4 mewn damweiniau traffig ar y ffordd yn ystod 2021, sy'n uchel i Gastell-nedd Port Talbot o gymharu â'n ffigurau blynyddol cyffredinol. Fel Awdurdod, ein huchelgais yw marwolaethau 'sero', a byddwn yn parhau i sicrhau bod yr hyn rydym ni'n ei gynnig yn cael ei dargedu'n gyson, ac yn berthnasol o ran arddull a chynnwys wrth i ni symud ymlaen.
- Yn 2021/22, ailgychwynnodd rhaglen lawn o hyfforddiant beiciau modur a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Ailgydiwyd yn BikeSafe, yr hyfforddiant beiciau modur a arweinir gan yr Heddlu, ar ôl methu â'i gyflwyno yn 2020/21 oherwydd y pandemig. Eleni, hyfforddwyd 66 o feicwyr modur yn BikeSafe, a chyflwynwyd Dragon Rider Cymru, ein Cynllun Lefel Uwch ar gyfer Beiciau Modur, i 99 o reidwyr, nifer sydd wedi codi o 51 yn 2020/21. Ailgychwynnodd ein cwrs 'First Bike on Scene' (FBoS) hefyd, gan gyflwyno hyfforddiant i 90 o bobl eleni.
- Bu'r cynllun Beicio i'r Gwaith yn llwyddiannus iawn yn 2020 gyda 249 o gyflogeion yn ymuno. Ailagorwyd y cynllun ym mis Ebrill 2021 am 7 wythnos a chwblhawyd 99 o geisiadau.

| | |
|---|---|
| **Cam 2.3.6 -** Byddwn ni'n gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod y rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth yn cael eu diogelu trwy gryfhau ein trefniadau diogelu ar gyfer oedolion bregus. | **AMBR** |

**Cynnydd y cam:**

- Daliodd y Gwasanaethau Oedolion ati i ymateb i'r pandemig a sicrhau bod y rhai ag anghenion cymhleth yn cael blaenoriaeth, a bu ein Grŵp Diogelu Gweithredol Lleol yn cwrdd bob chwarter i fwrw golwg dros y trefniadau diogelu ar draws y cyngor.
- Dechreuodd y gwaith ar reoli'r Gorchymyn Amddifadu o Ryddid (DoLO – neu DoLs Cymunedol), sy'n golygu bod person o dan oruchwyliaeth barhaus/yn cael cefnogaeth barhaus mewn lleoliad cymunedol, ddiwedd 2021. Nodwyd achosion yn y tîm Anableddau Cymhleth sy'n byw mewn sefyllfaoedd gyda chymorth, ac maent bellach yn cael eu blaenoriaethu'n unol â chanllawiau blaenoriaethu Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion (ADASS). Estynnwyd y gwaith hwn ar draws y Gwasanaethau Oedolion yn ehangach i gwmpasu pawb y gallai fod angen DoLO arnynt. Mae achosion unigol yn cael eu symud trwy'r Llys Amddiffyn er mwyn awdurdodi cynlluniau gofal, gorchmynion lles cymunedol diogel ac i ddiogelu rhyddid yr unigolyn. Rydym hefyd yn mapio'r adnoddau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod trefniadau addas yn eu lle ar gyfer gweithredu'r Mesurau Diogelu Rhyddid a chydymffurfio â nhw. Ar hyn o bryd rydym ni'n adolygu'r prosesau llwybr sydd gennym ar waith ar gyfer DoLs cymunedol, ond bydd angen ystyried y newid i LPS a'r effaith ar strwythur cyfredol ein gwasanaeth.
- Mae cefnogaeth wedi cael ei darparu hefyd (gyda chysylltiad â diogelu) i oedolion sy'n arddangos ymddygiad niweidiol.
- Mae gwaith yn dal i'w wneud i ddatblygu'r ymateb i niwed y tu allan i gartref y teulu ymhellach ar draws y Gwasanaethau Oedolion.

| | |
|---|---|
| **Cam 2.3.7 –** Byddwn ni'n rheoleiddio safleoedd bwyd i sicrhau bod y bwyd sy'n cael ei ddarparu yn addas i'w fwyta gan bobl a bod y safle y caiff ei werthu ohono yn hylan. | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**

- Mae canran y safleoedd bwyd a archwiliwyd ac y cafwyd eu bod o fewn y diffiniad cyfreithiol o 'gydymffurfio'n gyffredinol' â gofynion hylendid bwyd yn dal yn uchel, 96.6%, sy'n golygu Sgôr Hylendid Bwyd o 3, 4, neu 5 (allan o 5). Mae gan lai na 4% o'r busnesau bwyd Sgôr o 0, 1 neu 2, ac mae'r safleoedd hynny'n denu camau dilynol a gorfodi ychwanegol.

| | |
|---|---|
| • Er bod y sgôr 'cydymffurfio cyffredinol' yn dal yn uchel, mae'r gwasanaeth yn dilyn cynllun adferiad cenedlaethol (a luniwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) ac Awdurdodau Lleol), i ymdrin ag ôl-groniadau gwaith yn dilyn y pandemig, yn arbennig yn achos archwiliadau a raglennwyd ar gyfer busnesau hen a newydd. Mae'r cynllun adferiad yn estyn hyd at 2023/24, ac yn rhoi blaenoriaeth i waith gyda busnesau newydd ac unrhyw fusnesau presennol sydd mewn categori risg uwch. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth yr adnoddau a ddargyfeiriwyd i'r ymateb lleol i Covid-19 (yn arbennig i gefnogi Cartrefi Gofal a'r gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu (TTP)). | |
| **Cam 2.3.8 -** Byddwn ni'n ymchwilio i achosion o dorri uniondeb y gadwyn fwyd, o'r fferm i'r fforc (porthiant, iechyd anifeiliaid a safonau bwyd) | **AMBR** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Cwblhawyd pob un o'r 41 (100 %) archwiliad risg uchel / gradd A ar gyfer Iechyd Anifeiliaid, bwyd a phorthiant. Fodd bynnag, mae'r ystadegyn hwn yn cuddio'r ffaith, er bod y gwasanaeth wedi llwyddo i archwilio'r holl fusnesau risg uchel o fewn y cyfnod (mae un busnes ar gau dros dro), bod effaith ar gyfraddau archwilio safleoedd risg is, a bod rhai agweddau ar waith Safonau Masnach wedi cael eu dadflaenoriaethu.<br>• Mae gwybodaeth a gasglwyd ar lefel leol a rhanbarthol yn dangos bod angen dargyfeirio adnoddau i fusnesau risg is, sydd wedi cael eu diystyru, ac o ganlyniad wedi dod yn risg uwch. Mae hyn yn rhannol oherwydd newid gweithgarwch, ond hefyd oherwydd diffyg presenoldeb gorfodi yn y busnes, yn dilyn yr anawsterau gorfodi a achoswyd gan y pandemig a blaenoriaethu adnoddau. Mae cydymffurfio â datganiadau alergenau a chamddisgrifio bwyd yn broblemau sylweddol mewn busnesau risg is. Yn dilyn y pandemig, mae llawer o fusnesau wedi symud ar-lein, sy'n golygu eu bod yn anoddach eu canfod. Mae angen gwneud mwy o waith yn y maes hwn, ond bydd yn galw am adnoddau mewn maes sydd eisoes o dan bwysau. | |
| **Cam 2.3.9 -** Gan weithio gyda phartneriaid a diogelu'r cyhoedd, byddwn ni'n ymchwilio i achosion sylweddol o dwyllo defnyddwyr, diogelwch cynnyrch a gwerthiant oed-gyfyngedig a ganfyddir yn rhagweithiol neu'n adweithiol | **AMBR** |

**Cynnydd y cam:**

- O'r 415 o weithiau y buom ni'n ymweld â busnesau, cafwyd mewn 335 o achosion fod y busnesau'n cydymffurfio, neu llwyddwyd i sicrhau eu bod yn dychwelyd at gydymffurfio (80.72%). Er bod y ffigur hwn yn cyrraedd y targed, mae'r ystadegau'n cuddio nifer yr achosion o dorri'r rheolau a'r ymchwiliadau y mae angen rhoi sylw iddynt. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi bod trwy gyfnod o amharu sylweddol o ran staff, gan gynnwys salwch staff a galwadau eraill.
- Mae Safonau Masnach wedi gofyn i'w partneriaid rannu gwybodaeth a mynd ati i ledaenu gwybodaeth a gasglwyd. Bu hyn yn llwyddiannus trwy fforwm y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Fodd bynnag mae hyrwyddo'r gwasanaeth wedi dioddef, gan fod gorfodi'n cael blaenoriaeth, ac mae'r adnoddau'n gyfyngedig.
- Mae Safonau Masnach wedi gwella'r cysylltiadau cydweithio o fewn y cyngor â'r Tîm Datblygu Economaidd i gefnogi busnes, ac â Gorfodi Gwastraff a Thrwyddedu i rannu gwybodaeth a gasglwyd.
- Mae'r tîm Safonau Masnach hefyd wedi dechrau hyrwyddo cynllun 'Prynu Hyderus' Safonau Masnach, sy'n Cymeradwyo Masnachwyr. Penodwyd swyddog i gysylltu â busnesau lleol i'w hannog i ymuno â'r cynllun, ac mae'r swyddog dan sylw yn gweithio ar y cyd â'r Tîm Datblygu Economaidd a Thimau Safonau Masnach cymdogol i hyrwyddo'r cynllun. Y gobaith yw y bydd hyn yn galluogi amgylcheddu masnachu teg, ac yn rhoi hyder i ddefnyddwyr yn y gwasanaethau a'r cynnyrch maen nhw'n eu prynu gan fusnesau yn y rhanbarth.

| | |
|---|---|
| **Cam 2.3.10 -** Byddwn ni'n gweithio gyda'n holl randdeiliaid i gyflwyno amgylchedd adeiledig diogel a chynaliadwy | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**

- Sicrhawyd bod yr holl waith adeiladu rheoledig yn bodloni gofynion y Rheoliadau Adeiladu er mwyn diogelu iechyd a diogelwch pobl mewn adeiladau ac o'u hamgylch.
- Oherwydd natur y gwaith daliwyd ati i gyflwyno'r gwasanaeth ynghylch strwythurau peryglus ar hyd 2021/22, a pharhaodd y ceisiadau rheoleiddio adeiladu fel arfer.
- Gwiriwyd 100% o'r ceisiadau rheoli adeiladu 'cynllun llawn' o fewn 15 diwnrod.
- Cymeradwywyd 99.2% o'r ceisiadau 'cynllun llawn' y tro cyntaf.

| Blaenoriaeth gwelliant 2.4 - Bydd pobl sy'n methu gweithio yn gallu mwyafu eu hincwm | GWYRDD |
|---|---|
| **Cam 2.4.1 -** Cefnogir pobl i dderbyn y budd-daliadau mae ganddyn nhw hawl i'w cael oddi wrth Lywodraeth y Deyrnas Unedig. | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**

- O fis Ebrill 2021 hyd ddiwedd Ionawr 2022, mae ein Huned Hawliau Lles wedi cefnogi mwy na 2,000 o bobl â chyngor budd-daliadau, cynrychiolaeth mewn apeliadau a gwaith achosion llawn (llenwi ffurflenni, er enghraifft), gan godi mwy na £5m o incwm ychwanegol ar gyfer y cleientiaid hyn. Mae hynny'n cynrychioli £2,500 y person ar gyfartaledd.
- Cyflwynwyd dau daliad Tanwydd Gaeaf o £100 yr un i fwy na 10,000 o drigolion.
- Proseswyd taliadau hunanynysu o £500 neu £750 i fwy na 5,000 o drigolion a fu'n gorfod colli enillion oherwydd y gofyniad i hunanynysu ar ôl dal Covid-19.
- Gweinyddwyd y Cynllun Bonws Gofal Cymdeithasol o £750
- Proseswyd hawliadau Budd-dal Tai mewn 2.73 diwrnod (ar gyfartaledd), sy'n welliant o 0.4 diwrnod ar berfformiad 2020/21 ac yn gyfforddus o fewn ein targed blynyddol. Hefyd cyfradd cywirdeb prosesu budd-daliadau ar gyfer y flwyddyn oedd 99.98%.

| | |
|---|---|
| **Cam 2.4.2 -** Byddwn ni'n gweithredu Cynllun Llywodraeth Cymru i ysgafnhau'r baich Treth Cyngor ar y rhai sydd â'r incwm isaf. | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**

- Darparwyd rhyw £19m mewn cymorth treth cyngor i ryw 17,000 o aelwydydd a phenderfynu rhewi elfen y Cyngor o'r bil Treth Cyngor.
- Rhoddwyd cynlluniau ar waith i gyflwyno taliadau Cynllun Cymorth Costau Byw Llywodraeth Cymru i ryw 55,000 o aelwydydd.
- Neilltuwyd £2m mewn Cronfa wrth Gefn i Liniaru Caledi, a datblygwyd cynllun i gynorthwyo'r rhai mae'r argyfwng costau byw yn effeithio fwyaf arnynt.
- Rhagorwyd ar ein targedau cyfraddau casglu ar gyfer treth y cyngor (casglwyd 98.01%) a threthi annomestig (98.9%) ac roedd y ddau

| | |
|---|---|
| gyfradd casglu fymryn yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. | |
| **Cam 2.4.3 -** Byddwn ni'n parhau i weithio gyda Chwarae Teg i gyflawni ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Rhywedd, gan gynnwys camau penodol i leihau'r bwlch cyflog sydd gan y Cyngor rhwng y rhywiau. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Adroddir ar ddata'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau flwyddyn wedi iddo ddigwydd. Bwlch cyflog canolrif y Cyngor rhwng y rhywiau yn 2021 oedd 3.86%, tra bod y cymedr yn 6.59%. Mae'r canolrif wedi cynyddu rhyw fymryn ers 2020, pan oedd yn 3.44% (roedd yn 3.93% yn 2019). Mae'r cymedr wedi gostwng, gan ei fod yn 7.2% yn 2020. Mae hyn yn golygu bod y gwahaniaeth yng nghyfradd gyfartalog benywod yr awr wedi parhau'r un fath yn 2021 ag yr oedd yn 2020. Mae benywod yn ennill 93c am bob £1 a enillir gan wrywod.<br>• Er bod y gyfradd wedi parhau yr un fath, rydym wedi aros ar y llwybr cywir gyda'r gwaith hwn, ac mae'r Cyngor wedi ymrwymo i Gynllun Cyflogwyr Chwarae Teg am drydedd flwyddyn i'n helpu gyda strategaethau i leihau ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae peth o'r gwaith a wnaed yn cynnwys cyflwyno'r Fframwaith Gweithio Hybrid, sydd wedi sicrhau bod rheolwyr yn canolbwyntio ar gyfathrebu â'u timau ynghylch ffyrdd mwy hyblyg o weithio. Cafodd hyfforddiant rheoli a chymell Timau Hybrid ei estyn a'i gyflwyno yn 2021/2022 a datblygwyd sesiynau ar wobrwyo/gydnabod ac adborth adeiladol i arweinwyr a rheolwyr a'u cyflwyno mewn cydweithrediad â Chwarae Teg. | |
| **Blaenoriaeth gwelliant 2.5 – Bydd pobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn cael eu helpu i ddatblygu gwydnwch, a mynediad at gefnogaeth o fewn eu cymuned. Os dim ond y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gallu diwallu eu hangehnion, byddant yn derbyn gwasanaethau sydd wedi'u personoleiddio** | **GWYRDD** |
| **Cam 2.5.1 –** Byddwn ni'n datblygu ymhellach y "drws blaen" i'r gwasanaethau cymdeithasol, gan sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n gydlynus | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>Ym mis Mawrth 2022 aeth y Pwynt Cyswllt Sengl i Oedolion (SPOC) yn fyw, gan gwblhau asesiadau ar gyfer gwaith cymdeithasol a therapi galwedigaethol ar ôl cynyddu'r staffio o fewn y tîm. Mae hyn wedi sicrhau bod galwadau'n cael eu hateb yn fyw gan ein swyddogion cyswllt, bod yr atgyfeiriadau hynny'n cael eu prosesu fel ymateb yr un diwrnod gan y tîm amlddisgyblaeth, a bod trigolion CNPT yn cael | |

| | |
|---|---|
| mynediad ar unwaith at wybodaeth/gyngor/gymorth. Lle bo angen asesiadau, mae'r rhain ar hyn o bryd yn cael eu cwblhau o fewn 4 diwrnod gwaith ar gyfartaledd, a phennwyd maen prawf o 7 diwrnod gwaith. | |
| **Cam 2.5.2 -** Byddwn ni'n datblygu'r ddarpariaeth gofal cartref a gofal preswyl i bobl hŷn i sicrhau bod digon o leoliadau o safon ar gael i ddiwallu'r angen lleol. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Cynhaliwyd cyfarfodydd wythnosol gyda darparwyr yn 2021/22 i gefnogi'r farchnad ofal, a chynhaliwyd cyswllt beunyddiol â darparwyr oedd yn profi achosion o Covid-19. Rhoddwyd cefnogaeth bellach i'r sector gofal, gan gynnwys dosbarthu Cyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi pwysau costau ychwanegol oedd yn codi o Covid-19, dosbarthu Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) a sefydlwyd cofrestr gwirfoddolwyr o bobl yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, er mwyn cefnogi darparwyr gofal gyda phrinder staff difrifol yn sgîl Covid-19.<br>• Datblygwyd cynlluniau wrth gefn ar gyfer gwasanaethau i sicrhau dilyniant gwasanaethau gofal ar hyd y pandemig.<br>• Cyflogwyd nyrs Heintiau, Amddiffyniad a Rheolaeth ar lefel ranbarthol i gefnogi cartrefi gofal.<br>• Codwyd y ffioedd a delid am leoliadau cartrefi preswyl a chartrefi gofal nyrsio 11% o fis Hydref 2021. Roedd y cynnydd hwn yn cefnogi cartrefi gofal i dalu cyflog Byw Go Iawn i'r staff a gwella telerau ac amodau eraill y gweithlu, er mwyn helpu i wella lefelau recriwtio a chadw staff.<br>• Sefydlwyd tudalen ranbarthol ar y rhyngrwyd, fel bod gan gartrefi gofal yr wybodaeth ddiweddaraf am Covid-19. | |
| **Cam 2.5.3 -** Byddwn yn rhoi'r cynllun o'r Ysbyty i'r Cartref (Hospital 2 Home) ar waith i gefnogi pobl dros 65 oed i ddychwelyd adref o'r ysbyty cyn gynted ag y byddan nhw'n ddigon da, fel bod modd iddyn nhw ymadfer a derbyn asesiad o'u hanghenion cefnogi tymor hwy mewn amgylchiadau mwy cyfarwydd. | **AMBR** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Mae'r cynllun o'r Ysbyty i'r Cartref wedi cael ei weithredu yn CNPT yn unol â blaenoriaethau rhanbarthol, a'i ailfrandio dan yr enw Gartre Gynta. Mae adnodd ychwanegol i gefnogi hyn, ond mae recriwtio wedi bod yn broblem, gyda swyddi gwag ymhlith y gweithwyr cefnogi, y gweithwyr cymdeithasol a'r staff therapi. | |

- Rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022, cefnogwyd 568 o bobl dros 65 oed i ddychwelyd adre o'r ysbyty er mwyn eu hasesu mewn amgylchedd cyfarwydd.

| | |
|---|---|
| **Cam 2.5.4 -** Byddwn ni'n datblygu ymhellach ein model seiliedig ar ddilyniant o ofal ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl, anableddau dysgu ac anableddau corfforol | **AMBR** |

**Cynnydd y cam:**

- Yn ystod 2021/22, defnyddiwyd ymarferiadau asesu a mapio i ganfod yr angen am ystod o fodelau llety a gofal i ddiwallu anghenion y boblogaeth. Yn arbennig llety cam i fyny a cham i lawr. Mae Iechyd Meddwl yn faes allweddol i'w ddatblygu. Modelau o lety a gofal sy'n hybu cyfleoedd yr unigolyn i wneud cynnydd.
- Datblygiad llwyddiannus Tŷ Geraint, y cynllun gofal ychwanegol cyntaf i bob math o anabledd, lle mae unigolion wedi symud o ofal preswyl arbenigol i fyw yn eu fflatiau eu hunain gyda chefnogaeth yn ôl y galw. Mae'r adborth cadarnhaol gan y tenantiaid, eu teuluoedd, y darparwr a'r gweithwyr proffesiynol wedi ategu'r ymrwymiad i'r angen am wahanol fodelau o lety a gofal – nid yw un model yn addas i bawb.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd cynnydd a llety yn fisol, ac mae amrywiaeth o waith llety a gofal ar wahanol gyfnodau datblygiad neu gynllunio sy'n cynnwys byw â chymorth i unigolion ag awtistiaeth, Cynllun Craidd a Chlwstwr ar gyfer pob anabledd, iechyd meddwl a digartrefedd, ailwampio model presennol llety â chymorth anableddau dysgu ar gyfer llety symud ymlaen/dilyniant, trafodaethau gyda Landlord Cymdeithasol Cofrestredig fflatiau annibynnol gyda chymorth yn ôl y galw, ac archwilio cyfleoedd i sicrhau tir ar gyfer modelau llety a adeiladwyd at y diben.
- Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc i sicrhau defnydd o'r model dilyniant o lety a gofal, gan gynnwys Pan fydda i'n Barod ar gyfer ymadawyr gofal.
- Mae ffocws ar leoliad Ategu/Bywydau a Rennir, ac angen dilyniant clir a chynllunio nodau fel rhan o gynllunio gofal.
- Rydym ni'n defnyddio gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliaeth i gefnogi cynllunio gofal, gan gyflawni canlyniadau cynnydd personol, h.y. Bspoked, Gwasanaeth Annibyniaeth Cymunedol.

| | |
|---|---|
| **Cam 2.5.5 -** Byddwn ni'n adolygu'r gwasanaethau rydym ni'n eu darparu ar gyfer pobl â'r anghenion mwyaf cymhleth, i sicrhau eu bod yn parhau'n addas at y diben | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**

- Rydym ni'n parhau i weithio mewn partneriaeth i beilota syniadau newydd a rhoi model newydd o ofal ar waith mewn dull gweithredu sydd â chynllun a strwythur pendant, yn cyd-fynd â'r model ariannu newydd rhanbarthol i gyflymu trawsffurfio a gwreiddio gwasanaethau mewn modd cynaliadwy.
- Rydym ni'n dal i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i archwilio cyfleoedd i dreialu gwahanol ddulliau gweithredu, syniadau i gyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer yr unigolion rydym ni'n eu cefnogi.
- Cwblhau model byw â chymorth a gofal ar gyfer iechyd meddwl yn 2021.
- Mae'r Rhaglen Comisiynu ar gyfer Anghenion Cymhleth (dull gweithredu Rhanbarthol) yn parhau â'i hagenda o gyflawni dull gweithredu a rennir ar gyfer trefniadau marchnad, comisiynu a chaffael wrth ymateb i anghenion unigolion ag anghenion cymhleth.
- Rydym ni'n parhau i fesur canlyniadau pobl â'r anghenion mwyaf cymhleth fesul achos, ac mae'r ffocws yn parhau ar asesiadau canlyniadau o safon, cynllunio gofal ac adolygiadau.

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth gwelliant 2.6 - Bydd pobl yn gallu lleisio'u barn ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw, a phan fydd angen help ar bobl i leisio'u barn, bydd cymorth ar gael ar ffurf eiriolaeth** | **GWYRDD** |
| **Cam 2.6.1 -** Byddwn ni'n rhoi'r Strategaeth Ranbarthol ar y Cyd ar gyfer Gofalwyr ar waith gyda'n partneriaid iechyd | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**

- Mae gweithgorau rhanbarthol yn symud blaenoriaethau Strategaeth Gofalwyr Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg yn eu blaen.
- Darparwyd PPE (Cyfarpar Diogelu Personol) i ofalwyr di-dâl trwy'r Gwasanaeth Gofalwyr.
- Comisiynwyd y Gwasanaeth Gofalwyr i ddarparu egwyliau byr arloesol i ofalwyr, gan gynnwys talebau ar gyfer triniaethau sba, diwrnodau i'r brenin ac aelodaeth o gampfa.

| | |
|---|---|
| • Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i egwyddorion y canllawiau cynllunio ar gyfer camau gweithredu brys, er mwyn sicrhau bod gofalwyr yn cael eu hystyried wrth ddatblygu a gweithredu mesurau brys cysylltiedig â Covid-19.<br>• Hwyluswyd defnydd o gyfleoedd seibiant amgen i ofalwyr gan y Gwasanaeth Gofalwyr. | |
| **Cam 2.6.2 -** Byddwn ni'n gwreiddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau ar gyfer pobl hŷn a phobl anabl ar draws y Cyngor, ac yn sicrhau bod pobl yn cael mynediad at gefnogaeth ar ffurf eiriolaeth lle bo angen hynny | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>Lle nodir bod angen eiriolydd ar rywun, trefnir bod un yn cael ei benodi. Mae gan y Cyngor gontract ar gyfer gwasanaeth eiriolaeth. Rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar hawliau ar draws y gwasanaeth. | |
| **Blaenoriaeth gwelliant 2.7 - Datblygu ystod o strategaethau i wella iechyd a llesiant pobl hŷn ar draws y fwrdeistref sirol** | **GWYRDD** |
| **Cam 2.7.1 –** Byddwn ni'n cynhyrchu 'Datganiad Sefyllfa Marchnad' sy'n nodi'r gwasanaeth a gyflenwir, y galw amdano a'r bylchau er mwyn gwella comisiynu cymorth i ymateb i anghenion pobl. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Mae Adroddiad Sefydlogrwydd Marchnad lleol (ASM) wedi cael ei ddatblygu, a fydd yn llywio'r Adroddiad Sefydlogrwydd Marchnad Rhanbarthol. Cyflwynwyd yr ASM i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'i gymeradwyo ym mis Mehefin 2022. Mae Adran 144b o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gofyn bod Awdurdodau Lleol yn paratoi ac yn cyhoeddi ASMau. Mae ASMau yn helpu Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i fod mewn gwell sefyllfa o ran cynllunio a chomisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer eu poblogaethau lleol a rhanbarthol, yn offerynnau defnyddiol ar gyfer darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol a reoleiddir, ac ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr di-dâl sydd â diddordeb yn yr ASM a gyhoeddwyd, gan eu bod yn dangos sut mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio ac yn cynnig tryloywder ynghylch darpariaeth y gwasanaeth. Ar sail yr ASMau hyn, bydd swyddogion yn symud ymlaen i ddatblygu Datganiadau Sefyllfa Marchnad lleol a rhanbarthol (DSMau), sef dogfennau sy'n nodi pa fathau o wasanaethau sy'n ofynnol i ymateb i anghenion y boblogaeth yn awr ac yn y dyfodol. | |

| | |
|---|---|
| Yna defnyddir yr ASMau a'r DSMau i lywio'r gwaith o greu strategaethau comisiynu lleol a rhanbarthol.<br>• Datblygwyd rhaglen o waith comisiynu i symud y gwaith angenrheidiol yn ei flaen, fel y nodwyd trwy'r adroddiad sefydlogrwydd marchnad.<br>• Cynhaliwyd cyfarfodydd comisiynu rheolaidd gyda darparwyr i drafod bylchau yn y gwasanaeth a bwriadau comisiynu. | |
| **Blaenoriaeth gwelliant 2.8 - Bydd pobl yn elwa o gyfranogiad mewn gweithgareddau yn yr amgylchedd naturiol, a fydd yn darparu manteision o ran llesiant a mwy o werthfawrogiad o rôl yr amgylchedd naturiol yn eu bywydau** | **GWYRDD** |
| **Cam 2.8.1 –** Byddwn ni'n defnyddio cyllid allanol i gyflwyno rhaglenni o weithgareddau yn yr amgylchedd naturiol, neu sy'n ymwneud ag ef, yn amrywio o weithgareddau â ffocws ar lesiant, i gynyddu ymwybyddiaeth o'r amgylchedd naturiol, a symud ymlaen (lle bo hynny'n berthnasol) i wirfoddoli a gweithgareddau cymunedol. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Ym mis Mai 2021 agorodd ein llwybr Teithio Llesol a uwchraddiwyd yng Nghastell-nedd.<br>• Mae nifer o brosiectau wedi sicrhau cyllid i gefnogi ymgysylltiad cymunedol a gwirfoddoli yn yr amgylchedd naturiol: Prosiect Mawndiroedd Coll De Cymru, Prosiect Cysylltu Seilwaith Gwyrdd a phrosiect Craig Gwladus. Mae'r rhain i gyd yn cefnogi ac yn uwchsgilio cymunedau a gwirfoddolwyr lleol, ochr yn ochr â chyflwyno canlyniadau cadarnhaol i rywogaethau a chynefinoedd. Mae pob un o'r prosiectau hyn hefyd yn darparu gweithgareddau awyr agored sydd â ffocws ar iechyd a llesiant, yn ogystal ag amrywiaeth o ddigwyddiadau, hyfforddiant addysgiadol a gweithgareddau ysgol.<br>• Mae'r Bartneriaeth Natur Leol wedi datblygu Adroddiad Cyflwr Byd Natur i CNPT (sydd i'w gyhoeddi yn 2022), ac mae Grŵp Natur CNPT 4 wedi galluogi grwpiau cymunedol lleol i ymgysylltu ag arbenigedd y bartneriaeth ehangach.<br>• Mae presenoldeb parhaus ar y cyfryngau cymdeithasol wedi parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o amgylchedd naturiol CNPT. | |

Mae gwybodaeth fanylach a sylwadau ar berfformiad wedi'u cynnwys yn ein cyfres lawn o ddangosyddion perfformiad:

| Dangosydd Perfformiad | 2019/20 Gwirioneddol | 2020/21 Gwirioneddol | 2021/22 Gwirioneddol | 2021/22 Targed | Perff. CAG yn erbyn Targed 21/22 | Perff. CAG yn erbyn 20/21 Gwirioneddol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2 Amcan Llesiant 2 – Gwella Llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol** | | | | | | |
| CP/021 – Nifer yr ymholiadau cychwyn busnes newydd a gynorthwywyd | 273 | 199 | 244 | 250 | Ambr | Gwyrdd |
| CP/025 - Nifer y swyddi a gafodd eu dileu yn orfodol gan y Cyngor | 9 | 2 | 3 | **Dim targed wedi'i bennu** | **Amh** | Coch |
| CP/031 - Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref | 51.50 | 66.67 | 60.67 | 60.00 | Gwyrdd | Coch |
| CP/032 - Nifer y diwrnodau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i gyflawni Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 196.00 | 363.20 | 339.51 | 270.00 | Coch | Gwyrdd |
| CP/034 - Canran yr achosion o gam-drin domestig lle mae pobl yn ddioddefwyr eildro – Gwasanaeth yr Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) – y dioddefwyr sy'n wynebu'r risg uchaf | 40.05 | 37.30 | 34.67 | 32.00 | Coch | Gwyrdd |
| CP/019 – Diogelwch Ffyrdd – Lladd neu anafu'n ddifrifol – anafiadau i feicwyr pedal (Pob Oed)<br>***Mae data 2021/22 ar gyfer blwyddyn galendr 2021.*** | 0 | 1 | 0 | **Dim targed wedi'i bennu** | **Amh** | **Amh** |
| CP/040 - Diogelwch ffyrdd – Lladd neu anafu'n ddifrifol: Gyrwyr Hŷn (75 oed a throsodd)<br>***Mae data 2020/21 ar gyfer blwyddyn galendr 2021.*** | 0 | 0 | 1 | **Dim targed wedi'i bennu** | **Amh** | **Amh** |
| CP/041 – Diogelwch ffyrdd – Lladd neu anafu'n ddifrifol: Beicwyr Modur – pob oed | 6 | 1 | 3 | **Dim targed** | **Amh** | **Amh** |

| ***Mae data 2021/22 ar gyfer blwyddyn galendr 2021.*** | | | | **wedi'i bennu** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CP/042 – Canran y sefydliadau bwyd sy'n bodloni safonau hylendid bwyd | 95.15 | 96.00 | 96.62 | 95.00 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/110 - Gweithffyrdd+ - Nifer y bobl a gynorthwywyd i ddychwelyd i waith, hyfforddiant neu wirfoddoli | 127 | 58 | 112 | 72 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/112- Canran yr eiddo preifat gwag y dechreuwyd eu hailddefnyddio | Dim data oherwydd Covid-19 | | | 4.30 | **Amh** | **Amh** |
| CP/116 – Cymunedau dros Waith – blaenoriaeth 1 (25+ oed):<br>nifer y bobl a gafodd eu cynorthwyo i sicrhau hyfforddiant, cyfle i wirfoddoli, profiad gwaith neu gyflogaeth gynaliadwy | Amh Newydd | 72 | 50 | 86 | Coch | Coch |
| CP/117 – Cymunedau dros Waith – Blaenoriaeth 3 (16-24 oed): nifer y bobl a gafodd eu cynorthwyo i sicrhau hyfforddiant, cyfle i wirfoddoli, profiad gwaith, addysg amser llawn neu gyflogaeth gynaliadwy | Amh Newydd | 47 | 134 | 44 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/118 – Cymunedau dros Waith a Mwy – Rhaglen ar gyfer 16+ oed:<br>nifer y bobl a gafodd eu cynorthwyo i gaffael hyfforddiant, cyfle i wirfoddoli, profiad gwaith, cyflogaeth gynaliadwy neu'r rhai sy'n "dlawd er eu bod mewn gwaith" | Amh Newydd | 159 | 525 | 300 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/119 – Budd-daliadau – y diwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd ar gyfer hawliadau newydd a newidiadau i amgylchiadau – o'r cais i'r asesiad | 2.30 | 3.10 | 2.73 | 6.00 | Gwyrdd | Gwyrdd |

**Astudiaeth Achos 2: Cronfa Cartrefi Cynnes CNPT**

Cefndir: Sefydlwyd y Gronfa Cartrefi Cynnes gan y Grid Cenedlaethol, ac mae'n cael ei gweinyddu gan *Affordable Warmth Solutions* i roi sylw i rai o'r materion sy'n effeithio ar aelwydydd tlawd o ran tanwydd. Hwyluswyd y cynllun gan ein Tîm Adnewyddu Tai ar gyfer ardal Castell-nedd Port Talbot.

I fod yn gymwys, rhaid i berchnogion cartrefi fod:

- Heb system gwres canolog nwy neu olew eisoes.
- Yn berchen ar gartref neu'n rhentu un yn breifat yng Nghastell-nedd Port Talbot (bydd gofyn bod landlordiaid preifat yn talu cyfraniad o 25% at gost y gwaith).
- Yn cyfrif fel aelwyd incwm isel NEU yn gwario mwy na 10% o incwm yr aelwyd ar filiau ynni NEU yn hawlio rhai budd-daliadau penodol NEU yn byw mewn ardal incwm isel fel y nodwyd ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Ers i'r cynllun hwn gael ei lansio ym mis Mehefin 2020, mae wedi darparu systemau gwres canolog nwy newydd i 108 o gartrefi yn y fwrdeistref. Yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22, gosodwyd 66 o systemau gwres canolog nwy newydd gwerth mwy na £280,000 ar draws y fwrdeistref, gyda chyfanswm gwariant o £485,000 ar draws y cynllun cyfan. Daeth y cynllun i ben ar 31 Mai 2022.

**Sut mae'r gwaith yma'n cyfrannu at 5 ffordd o weithio egwyddor datblygu cynaliadwy:**

- **Tymor hir** – Mae'r cynllun Cartrefi Cynnes yn helpu i sicrhau bod aelwydydd incwm isel, tlawd o ran tanwydd ac agored i niwed yn cael system wresogi effeithlon, reoladwy wedi'i gosod yn eu cartrefi, gan leihau eu biliau ynni a helpu i'w codi allan o dlodi tanwydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn y cyfnod yma, gan fod costau ynni wedi codi'n ddramatig ar draws y byd, a rhagwelir y byddant yn codi'n sylweddol uwch erbyn diwedd 2022, fel bod llawer mwy o aelwydydd yn wynebu tlodi tanwydd. Ar ben hynny, mae'r boeler safon A yn cynnwys gwarant 7 mlynedd, a disgwylir bod ganddo oes o fwy na 10 mlynedd. Mae boeler effeithlon hefyd yn helpu i leihau allyriadau $CO_2$.
- **Integreiddio** – Yn achos 2021/22 mae'r prosiect hwn yn cysylltu ac yn cyfrannu at gyflawni Amcan Llesiant 2 Cynllun Corfforaethol y Cyngor – Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol a'n blaenoriaeth gwelliant o helpu pobl i gael mynediad at dai fforddiadwy o safon. Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch sut mae Amcan Llesiant 2 yn gweithio ar y cyd at gyflawni'r 7 Nod Llesiant Cenedlaethol ar dudalennau 40 a 41 uchod.
- **Ymwneud** – Rydym ni'n gweithio mewn partneriaeth â Chyngor ar Fudd-daliadau, Gofal a Thrwsio, ac Age Connects Castell-nedd i gynnig gwasanaeth cyfeirio ymlaen, a hyrwyddwyd y cynllun trwy Fanciau Bwyd, datganiadau i'r wasg ac adeiladau cymunedol ar draws y Fwrdeistref. Trwy gydweithio'n agos â Chymru Gynnes a Communitas, sicrhawyd bod cleientiaid cymwys yn derbyn Talebau cynllun Estyn y Rhwydwaith Tlodi Tanwydd i helpu gyda chost y cysylltiad nwy â'r eiddo, ac yn y mwyafrif o achosion roedd y daleb yn talu am 100% o gost y gwaith gosod. Gan weithio gydag Ymwybyddiaeth Ynni Cenedlaethol (NEA) gosodwyd 16 o systemau monitro $CO_2$ a thymheredd mewn eiddo, o leiaf 3 mis cyn gosod y system wresogi newydd, ac fe wnaethon nhw aros yn eu lle am o leiaf 3 mis ar ôl y gwaith gosod. Mae'r data a gofnodir yn cael ei ddadansoddi ar hyn o bryd gan yr NEA, ynghyd â biliau ynni. Bydd y canfyddiadau'n helpu wrth ddatblygu rhagor o brosiectau effeithlonrwydd ynni.
- **Cydweithio** – Mae'r Tîm Adnewyddu ac Addasu Tai yn gweithio gyda nifer o wahanol asiantaethau a chyrff ariannu i gyflawni gwelliannau i gartrefi ar

draws y fwrdeistref. Mae CNPT yn gweithio mewn cydweithrediad ag Affordable Warmth Solutions sy'n gweinyddu'r cynllun, a 4 contractwr lleol sy'n gwneud y gwaith gosod gan ddefnyddio'r gadwyn gyflenwi leol. Buom hefyd yn gweithio gyda Chymru Gynnes a Communitas i asesu cleientiaid ar gyfer talebau Cynllun Estyn y Rhwydwaith Tlodi Tanwydd (FPNES) tuag at gost cysylltiad nwy â'r eiddo. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor ar Fudd-daliadau, Gofal a Thrwsio, ac Age Connects Castell-nedd i gynnig gwasanaeth cyfeirio ymlaen, a chafodd y cynllun ei hyrwyddo trwy Fanciau Bwyd.

- **Ataliaeth** – Mae'r cynllun cartrefi cynnes yn helpu i sicrhau bod gan aelwydydd incwm isel, tlawd o ran tanwydd ac agored i niwed system wresogi effeithlon, reoladwy wedi'i gosod yn eu cartrefi, gan leihau eu biliau ynni a helpu i'w codi allan o dlodi tanwydd. Bydd hynny'n helpu i wella iechyd a llesiant, yn ogystal â lleihau allyriadau CO2 i'r amgylchedd. Mae'r cynllun hefyd yn darparu gwybodaeth werthfawr a all fod o gymorth i ddatblygu prosiectau effeithlonrwydd ynni pellach.

**Enghreifftiau o Ganlyniadau Cadarnhaol**:

- Bydd gan aelwydydd a fu'n llosgi tanwydd solet gynt system wresogi fwy rheoladwy yn awr, ac amgylchedd iachach yn y cartref, yn enwedig i'r rhai â phroblemau resiradol. Bydd y cynllun yn helpu i godi aelwydydd allan o dlodi tanwydd trwy leihau eu biliau ynni.
- Yn ystod oes y prosiect gwnaed 108 o osodiadau, oedd yn cynnwys 83 o gysylltiadau newydd â'r prif gyflenwad nwy.
- Cynorthwywyd 52 o aelwydydd lle roedd y trigolion dros 60 oed, roedd gan 21 o aelwydydd blant o dan 16 oed yn byw ynddynt, ac roedd 40 o aelwydydd yn derbyn budd-daliadau.
- Mae dadansoddiad o'r Tystysgrifau Perfformiad Ynni (EPC) cyn ac ar ôl gosod (o'r data diweddaraf sydd ar gael) yn dangos bod 20 o eiddo wedi codi 3 band, 39 o eiddo wedi codi 2 fand, a 42 o eiddo wedi codi un band, gyda 7 eiddo yn unig yn parhau heb newid. Derbyniodd 15 o aelwydydd ychwanegiad at yr inswleiddio yn y lofft i gyrraedd y safon ofynnol.
- Dywedodd un o drigolion Glyn-nedd, a gafodd system gwres canolog nwy newydd wedi'i osod: "Fy ymateb cychwynnol wrth ddarllen am y cynllun Cartrefi Cynnes oedd na fydden ni'n gymwys, oherwydd ein bod ni'n deulu oedd mewn gwaith. Ar ôl un alwad ffôn fe ges i wybod y gallen ni fod yn gymwys. Nododd ffurflen syml iawn i'w llenwi ein bod ni mewn tlodi tanwydd. Roedd y broses o gyflwyno cais yn hwylus, ac roedd ymgynghorydd parod i helpu wrth law. Roedd trefniadau gosod y boeler nwy yn effeithlon iawn, gydag ychydig iawn o amharu, a chafodd y gwaith ei gwblhau'n gyflym."
- Dywedodd un o drigolion Brynaman, a gyflwynodd gais yn llwyddiannus i'r Gronfa Cartrefi Cynnes: "Rydw i mor fodlon ar y system boeler newydd. Mae'n llawer cynhesach. Mae'r system gwres canolog newydd yn fwy effeithlon ac rydw i wedi arbed arian yn barod."

## 6. Amcan Llesiant 3 – Cynnydd yn 2021/22



**Amcan Llesiant 3:** Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl:

*"Bydd Bwrdeistref Sirol gyfan Castell-nedd Port Talbot yn lle bywiog, iach a diogel i fyw, gweithio a mwynhau amser hamdden ynddo"*

| **Sut mae'r amcan llesiant hwn yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol:** | |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Mae'r amcan llesiant yn nodi ystod o gamau arfaethedig i greu cyflogaeth cynaliadwy o safon trwy weithio'n lleol ac yn rhanbarthol. Mae nifer o'r prosiectau Bargen Ddinesig arfaethedig yn canolbwyntio ar dechnolegau carbon isel a chreu gallu i wneud yn fawr o botensial technolegau digidol. |
| **Cymru iachach** | Mae'r blaenoriaethau'n arddangos dealltwriaeth gadarn o benderfynyddion llesiant a'r pwerau sydd ar gael i'r Cyngor i effeithio ar y penderfynyddion hynny. |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Mae'r blaenoriaethau a nodir yn yr adran hon yn darparu sylfaen ar gyfer yr amcanion i blant a phobl ifanc ac oedolion mewn amrywiaeth o ffyrdd – trwy sicrhau cysylltedd, argaeledd cyflogaeth yn lleol, cyfleoedd ar gyfer hamdden, diogelu'r amgylchedd a sicrhau bod y fwrdeistref sirol yn ddeniadol i fuddsoddwyr. |

| Sut mae'r amcan llesiant hwn yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol: | |
|---|---|
| **Cymru gydnerth** | Mae'r blaenoriaethau yn cyfeirio at yr adrannau pwysig yn ein Cynllun Datblygu Lleol a fu'n destun arfarniadau cynaliadwyedd llawn ac yn dangos sut bydd y polisïau hynny'n darparu sylfaen ar gyfer amcanion y Cyngor yng nghyswllt gwella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol ei breswylwyr. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Datblygwyd y blaenoriaethau i greu mwy o gyfle i bawb wneud cynnydd mewn bywyd. Mae hyn yn cynnwys: cyfle i sicrhau cyflogaeth o safon, mannau diogel a glân lle gall pobl fyw a magu eu teuluoedd ac ystod eang o ddewisiadau ar gyfer cymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Mae pwysigrwydd safleoedd treftadaeth lleol a'r rhan sydd gan y rhain i'w chwarae wrth gynnal diwylliant yn rhan o'r blaenoriaethau, fel y mae adfywio cymunedau'r cymoedd. Mae gweithio gyda chymunedau yn cael lle amlwg fel thema yn yr adran hon, fel yn yr adrannau blaenorol. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Ymhlith y blaenoriaethau mae lleihau'r gwastraff a gynhyrchir a chynyddu ailgylchu, yn ogystal â chyflawni ystod o gamau i ddiogelu a datblygu asedau naturiol y fwrdeistref sirol. Mae pwysigrwydd cynyddol technolegau digidol ac ynni newydd (e.e. cysyniad pŵer solar "Adeiladau Gweithredol") hefyd yn cael eu hymgorffori i'r gwaith arfaethedig. |

| Amcan Llesiant 3 – Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth gwelliant 3.1 - Byddwn ni'n darparu amgylchedd lle gall busnesau newydd ymsefydlu a lle gall busnesau presennol dyfu** | **GWYRDD** |
| **Cam 3.1.1** – Byddwn ni'n cyflawni rhaglenni adfywio strategol | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Mae gwaith adfer Glannau'r Harbwr yn parhau, i baratoi ar gyfer datblygu yn y dyfodol.<br>• Mae'r adnewyddu yn 8 Stryd y Gwynt, Castell-nedd wedi cael ei gwblhau.<br>• Rydym wedi cynorthwyo i gyflwyno datblygiad Coastal y tu ôl i Boots yng Nghastell-nedd, yn ogystal â'r gwaith adnewyddu parhaus ar Glwb y Rhyddfrydwyr gynt ar Stryd y Berllan.<br>• Mae gwaith yn agos at gael ei gwblhau ar y datblygiad hamdden a manwerthu newydd yng Nghastell-nedd, a chwblhawyd Sinema'r Plaza ym Mhort Talbot yn haf 2022.<br>• Cwblhawyd y Ganolfan Dechnoleg newydd ar Barc Ynni Baglan yn gynnar yn 2022.<br>• Rydym wedi cwblhau'r gwaith adnewyddu yn y swyddfeydd ar hen safle Crown yng Nghastell-nedd. Mae'r swyddfeydd yn awr yn llawn, ar ôl cael eu meddiannu gan dri chwmni lleol. Mae tua hanner yr hen ffatri hefyd ym meddiant cwmni lleol. | |
| **Cam 3.1.2** - Cam - Byddwn ni'n mwyafu'r cyfleoedd ariannu i gefnogi cyflwyno rhaglenni adfywio strategol y Cyngor. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Rydym wedi cyrchu cyllid Llywodraeth Cymru trwy'r rhaglen Buddsoddi Adfywio a Dargedir (TRI), gan gynnwys Grantiau Datblygu i Wella Eiddo, Grantiau Byw Cynaliadwy, Grantiau Tasglu'r Cymoedd, a chefnogaeth i Brosiectau Strategol TRI.<br>• Rydym hefyd wedi cyrchu Grantiau Creu Lleoedd trwy'r fenter Trawsffurfio Trefi, yn ogystal â thrwy gyllid Croeso Cymru.<br>• Roeddem wedi cyflwyno dau gynnig pecyn ar gyfer etholaethau Castell-nedd ac Aberafan ar ffurf cais i Gronfa Lefelu i Fyny'r Deyrnas | |

| | |
|---|---|
| Unedig ym mis Mehefin 2021. Ym mis Hydref 2021 hysbyswyd y Cyngor fod y ddau gynnig yn aflwyddiannus. | |
| **Cam 3.1.3 –** Byddwn ni'n cyflawni'r rhaglenni/prosiectau a arweinir gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot sy'n rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Cafodd y prosiect rhanbarthol Cartrefi sy'n Bwerdai (HAPS) rydyn ni'n ei arwain ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Gorffennaf 2021, yn dilyn adolygiad allanol gan Gateway Assurance. Daeth Rheolwr Prosiect HAPS i'w swydd ym mis Tachwedd 2021, ac mae'r prosiect wedi symud i'r cyfnod cyflwyno.<br>• Cafodd y rhaglen Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel (SILCG) yr ydym ni'n ei arwain ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Awst 2021, yn dilyn adolygiad allanol gan Gateway Assurance. Cychwynnodd Rheolwr y Rhaglen SILCG yn ei swydd ym mis Mawrth 2022. Mae'r rhaglen o brosiectau ar adegau cyflwyno gwahanol, ac mae'r gwaith adeiladu ar Ganolfan Dechnoleg y Bae ym Mharc Ynni Baglan (a ariannwyd yn rhannol gan Gyllid o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop) wedi'i gwblhau. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Phrifysgol Abertawe fel partner cyflwyno i baratoi'r brîff ar gyfer cyfleuster arbenigol ar gyfer datgarboneiddio'r diwydiant dur a metelau – Hwb Pontio Diwydiannol De Cymru oddi wrth Garbon.<br>• Ar 30 Mehefin 2021, cymeradwyodd y Cabinet yr achos busnes o blaid Rhaglen newydd Sgiliau a Doniau rhanbarthol dan arweiniad Cyngor Sir Gaerfyrddin, oedd yn bwriadu cyflwyno gofynion sgiliau a hyfforddiant holl brosiectau Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Lansiwyd yr alwad am geisiadau Sgiliau a Doniau ym mis Mawrth 2022. | |
| **Cam 3.1.4 -** Byddwn ni'n cefnogi busnesau hen a newydd i dyfu'r economi leol a denu buddsoddiad newydd. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Ar hyd 2021/22 parhaodd y gwaith adeiladu ar adeilad modern y ganolfan dechnoleg sy'n pweru ei hunan ar Barc Ynni Baglan. Cwblhawyd y cyfleuster gwyrdd blaengar yn gynnar yn 2022, a bydd yn darparu lle hyblyg ar gyfer swyddfeydd i gwmnïau newydd a busnesau lleol sy'n tyfu, gyda ffocws ar y sectorau Ymchwil a Datblygu ac Arloesedd, ond heb ei gyfyngu i hynny. | |

- Er gwaethaf heriau Covid-19, cefnogodd y Tîm Datblygu Economaidd 36 o brosiectau twf, buddsoddi ac arallgyfeirio gan gwmnïau gweithgynhyrchu lleol. Rhai enghreifftiau yw busnesau'n ehangu'r gofod gweithgynhyrchu o 25,000 i 90,000 tr. sg., o 10,000 i 25,000 tr. sg. ac o 25,000 i 150,000 tr. sg. Mae'r ehangu yma wedi helpu i greu a/neu ddiogelu mwy na 200 o swyddi. Ar ben hynny, mae prosiectau pellach yn cael eu cefnogi, gyda photensial i greu/ddiogelu 400 i 500 o swyddi pellach.
- Ar hyd 2021/22, bu'r Tîm Datblygu Economaidd yn gweithio ar 39 o ymholiadau mewnfuddsoddi posibl i ddenu buddsoddiadau pellach i'r ardal. Roedd yr ymholiadau hyn yn bennaf gan gwmnïau gweithgynhyrchu o'r tu allan i Gastell-nedd Port Talbot oedd yn awyddus i ymsefydlu yn yr ardal, ac is-fusnesau arloesi cysylltiedig ag academia. Roedd yr ymholiadau ar gyfer sefydlu labordai a swyddfeydd oedd yn amrywio o 20,000 i 100,000 tr. sg. Yn arbennig, derbyniwyd ymholiadau gan ystod o sectorau, gan gynnwys gwyddorau bywyd a meddygol, busnesau Ymchwil a Datblygu arloesol, cwmnïau gweithgynhyrchu cysylltiedig â charbon isel, ac eraill cysylltiedig â datblygiadau ehangach megis Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd.
- Er mwyn cefnogi cyfleoedd twf ac arallgyfeirio, mae Cynnig Adnewyddu Cymunedol yn cael ei ddatblygu i gefnogi Arloesedd yn ein sector Gweithgynhyrchu/Peirianneg trwy ddarparu adolygiadau diagnostig 1-1 a sefydlu Fforwm Busnes i annog cydweithio; rhwydweithio; cyfnewid syniadau; hysbysu busnesau ynghylch cefnogaeth berthnasol a chysylltu busnesau â chyrff masnachu/proffesiynol a sefydliadau cysylltiedig â diwydiant.
- Mae gwaith wedi bod yn parhau o amgylch brand lle newydd "Blaen a Chanol" CNPT er mwyn datblygu gwefan newydd "Buddsoddi yn CNPT" i helpu i ddenu buddsoddiadau newydd a chefnogi busnesau lleol sy'n awyddus i fuddsoddi yn nhwf sectorau allweddol, h.y. gweithgynhyrchu; ynni adnewyddadwy; technoleg; meddygol/fferyllol.
- Yn 2021/22, roedd 410 o swyddi wedi cael eu creu neu eu diogelu o ganlyniad i gefnogaeth ariannol uniongyrchol gan y Tîm Datblygu Economaidd, nifer sy'n sylweddol uwch na'r targed o 280. Cyflawnwyd hyn er gwaethaf ansicrwydd economaidd parhaus a'r anawsterau mae llawer o'n busnesau lleol wedi'u hwynebu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Dechreuwyd gweithio ar ddatblygu cynnig am Arian Adnewyddu Cymunedol er mwyn helpu i wella cymhwysedd digidol ar draws pob sector busnes.
- Mae gwaith yn symud ymlaen ar ddatblygu Cynllun Adferiad Economaidd i CNPT er mwyn helpu i ganolbwyntio ar ddiogelu swyddi, busnesau ac incwm wrth i ni ddod allan o'r pandemig, ac i helpu i gynllunio ar gyfer twf yn y tymor hwy.

| | |
|---|---|
| **Cam 3.1.5 -** Byddwn ni'n nodi cyfleoedd cadwyn gyflenwi ar gyfer cwmnïau lleol fel rhan o ddatblygiadau pwysig yn y fwrdeistref sirol | **AMBR** |
| **Cynnydd y cam:**<br>Er gwaethaf cyfyngiadau ar safleoedd a phrinder staff a chyflenwadau ar hyd 2021/22, mae'r prosiectau adeiladu wedi dechrau ennill momentwm. Fodd bynnag, roedd llawer o gwmnïau yn dal i brofi anawsterau recriwtio a chadwyn gyflenwi a diffyg deunyddiau; serch hynny, llwyddodd y Tîm Datblygu Economaidd i ganfod cyfleoedd cadwyn gyflenwi ar gyfer busnesau lleol, a dyfarnwyd 36% o'r contractau i gwmnïau lleol, sy'n allbwn boddhaol ar gyfer 2021/22. | |
| **Blaenoriaeth gwelliant 3.2 - Byddwn ni'n gweithio gyda chymunedau i gynyddu ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio** | **AMBR** |
| **Cam 3.2.1 –** Byddwn ni'n adolygu ac yn mireinio ein strategaeth rheoli gwastraff yng nghyd-destun cyflawni yn erbyn targedau statudol. | **AMBR** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Yn 2021/22 daliwyd ati i roi camau ar waith y cytunwyd arnynt fel rhan o adolygiad diwethaf y Strategaeth Wastraff. Yr un eitem sy'n dal heb ei gweithredu yw peilota casgliadau 'cewynnau', sydd i gychwyn yn 2022/23.<br>• Profwyd gostyngiad bach mewn perfformiad 'ailgylchu' yn 2021/22, ynghyd â 12 Cyngor arall, ond ar ganran o 66%, roeddem yn dal i ragori ar y targed statudol cyfredol o 64%.<br>• Mae'r adolygiad nesaf o'n Strategaeth Wastraff i gael ei gynnal yn hydref 2022 er mwyn rhoi unrhyw gamau gweithredu gofynnol ar waith i gyflawni'r targed o 70% erbyn 2024/25 ac osgoi unrhyw gosbau ariannol am fethu â chyrraedd hynny.<br>• Ar ben hynny, gwelwyd gostyngiad (gwelliant) yn swm y gwastraff a gynhyrchwyd fesul person, o 209.7 tunnell yn 2020/21 i 204.37 tunnell yn 2021/22 a gwelliant bychan yng nglendid ein strydoedd, o 90.98% yn 2020/21 i 92.85% yn 2021/22.<br>• Cododd nifer y diwrnodau i glirio sbwriel a ollyngwyd, ar gyfartaledd, o 2.84 yn 2020/21 i 4.52 diwrnod yn 2021/22. Roedd hyn yn | |

| | |
|---|---|
| bennaf oherwydd bod rhai aelodau staff wedi'u symud i'r Gwasanaethau Gwastraff i gefnogi effeithiau'r pandemig, ynghyd ag anawsterau adnoddau staff cyffredinol oedd hefyd o ganlyniad i'r pandemig. | |
| **Blaenoriaeth gwelliant 3.3 - Gall pobl leol ac ymwelwyr gael mynediad at gyfleusterau hamdden a chymunedol da, parciau gwledig a chefn gwlad** | **AMBR** |
| **Cam 3.3.1 -** Byddwn ni'n nodi cyfleoedd i fuddsoddi mewn twristiaeth ar gyfer y sector preifat a chyhoeddus | **AMBR** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Mae 10 darparwr twristiaeth presennol wedi cael eu cynorthwyo gydag ymholiadau oedd yn amrywio o gydymffurfio â chanllawiau Covid-19, i gynigion i ehangu'r ddarpariaeth lety bresennol (gan gynnwys llety â gwasanaethau a darpariaeth wersylla). Cefnogwyd rhagor o ddarparwyr twristiaeth (2 newydd a 5 arfaethedig), oedd yn cynnwys llety a gweithgareddau/atyniadau, yn ystod 2021/2022.<br>• Sicrhaodd y Tîm Twristiaeth £120,000 o gyllid trwy Gynllun 'Brilliant Basics' Croeso Cymru i greu man newid cwbl hygyrch yn Aquasplash Glan Môr Aberafan, i adnewyddu'r ddarpariaeth bresennol o ran toiledau cyhoeddus, ac i wella llwybrau mynediad. Bydd y cyfleuster newydd man newid yn ehangu mynediad at Lan Môr Aberafan i grwpiau o ymwelwyr sydd ag anghenion mynediad.<br>• At ei gilydd bu gostyngiad yn nifer y busnesau sector twristiaeth oedd yn ceisio cymorth yn ystod 2021/2022, gan fod y sector yn destun cyfyngiadau parhaus yn ystod 2021/2022 ac mae'n parhau i weithio at adferiad wedi'r pandemig. | |
| **Cam 3.3.2 -** Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i adnewyddu, atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau a strwythurau sy'n bwysig yn lleol. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Mae 8 Stryd y Gwynt yng Nghastell-nedd wedi cael ei adnewyddu, a chwblhawyd y gwaith ailddatblygu ar Sinema'r Plaza ym Mhort Talbot yn haf 2022. Mae'r naill a'r llall yn Adeiladau Rhestredig.<br>• Mae'r gwaith adnewyddu ar y Tŷ Tyrbinau ym Mharc Margam wedi cael ei gwblhau, ac mae'r gwaith adnewyddu ar y Castell yn | |

| | |
|---|---|
| parhau.<br>• Rydym wedi sicrhau £250,000 o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i baratoi Strategaeth Dreftadaeth ar gyfer y Fwrdeistref, er mwyn sicrhau bod ein treftadaeth adeiledig a naturiol yn gynaliadwy ac yn cael ei diogelu. | |
| **Cam 3.3.3 –** Byddwn ni'n datblygu ac yn hyrwyddo'r sector twristiaeth lleol | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Lansiodd y Tîm Twristiaeth ymgyrch a gwefan newydd ar gyfer marchnata cyrchfannau ym mis Medi 2021. Nod ymgyrch Calon Ddramatig Cymru yw denu ymwelwyr i aros dros nos yn yr ardal. Mae dros 20 o fusnesau twristiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot yn rhan o'r ymgyrch, ac maent wedi cyfuno profiadau sy'n cynnig ysbrydoliaeth i deithwyr sy'n ystyried gwyliau yn yr ardal. Mae'r gweithredwyr yn amrywio o westai a bythynnod gwyliau i ddarparwyr chwaraeon antur ac eiddo hanesyddol. Mae'r ymgyrch wedi cyrraedd pob targed a bennwyd hyd yma.<br>• Cefnogwyd 10 o ddarparwyr twristiaeth oedd eisoes yn bodoli a 2 ddarparwr twristiaeth newydd a 5 arfaethedig yn ystod 2021/22.<br>• Mae Llecyn Sblasio newydd yn Aberafan wedi disodli'r hen bwll padlo, ac mae ffynhonnau, chwistrelli a rhaeadrau dŵr newydd, wedi'u gwasgaru ar draws ardal chwarae ganolog. Ar ben hynny, sicrhaoedd y Tîm Twristiaeth £120,000 o gyllid trwy Gynllun 'Brilliant Basics' Croeso Cymru i greu man newid cwbl hygyrch yn Aquasplash Glan Môr Aberafan, adnewyddu'r ddarpariaeth bresennol o ran toiledau cyhoeddus, a gwella llwybrau mynediad. | |
| **Cam 3.3.4 -** Byddwn ni'n datblygu'r modelau gwasanaeth sy'n cefnogi ein gwasanaethau hamdden, ein theatrau a'n parciau fel bod llifoedd incwm newydd yn cefnogi eu gweithrediad a'u bod yn llai dibynnol ar gymhorthdal gan y Cyngor. | **AMBR** |

| | |
|---|---|
| **Cynnydd y cam:**<br>• Ar 1 Chwefror 2022, cytunodd Aelodau'r Cabinet i ddod â gwasanaethau hamdden yn ôl o dan reolaeth y cyngor (mewnol). Yn dilyn penderfyniad y Cabinet, bydd swyddogion y cyngor yn awr yn gweithio gyda Celtic Leisure i hwyluso gwasanaeth hamdden mewnol ac ymgymryd â'r gwaith ymgynghori angenrheidiol.<br>• Mae ffigurau ymwelwyr â Pharc Margam yn parhau i gynyddu, gyda chynnydd o fwy na 50,000 o ymwelwyr o 244,491 (2016) i 298,008 yn 2021, ar gefn cyfyngiadau COVID a hyder y cyhoedd. Er bod dau gyfleuster masnachol wedi cau oherwydd y pandemig (yr Orendy a ddefnyddiwyd fel canolfan brechu torfol ar gyfer rhaglen frechu Covid-19, ynghyd â'r siop anrhegion a gaewyd yn sgîl canllawiau Covid-19 ac i wneud gwaith cynnal a chadw hanfodol ar yr adeilad), llwyddodd y parc i weithredu o dan derfyn ei gyllideb yn 2021/22. Mae'r Orendy bellach wedi ailagor yn llawn, ac mae dros 90 o briodasau wedi'u bwcio yno yn 2022/23, cynnydd o gymharu â'r 62 yn 2020/21 (cyn y pandemig).Mae'r gwaith atgyweirio ar y siop anrhegion bellach wedi'i gwblhau ac ailagorodd ym mis Gorffennaf 2022. Ar ben hynny, mae buddsoddiadau diweddar yn yr Orendy, Charlotte's Pantry a'r cyfleuster chwarae i blant wedi golygu bod modd i'r parc fwyafu'r cyfleoedd i greu incwm, a fydd yn parhau mewn blynyddoedd i ddod.<br>• Bydd cyflwyno cerbyd trydan newydd yn golygu bod modd cyflwyno'r Gwasanaeth Llyfrgell Cartref amhrisiadwy i fwy o bobl nag erioed o'r blaen. Bydd y cerbyd newydd trydan yn fwy dibynadwy, yn galw am lai o waith cynnal a chadw, ac yn cynnig mwy o hyblygrwydd. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell Cartref yn dosbarthu llyfrau a gwybodaeth i drigolion sy'n wynebu anawsterau, neu sy'n methu ymweld â'u llyfrgell leol.<br>• Mae'r pandemig yn dal i effeithio ar nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd, theatrau a chanolfannau hamdden. Er bod y niferoedd wedi cynyddu o gymharu â 2020/21, maen nhw'n dal yn is na'r lefelau cyn y pandemig. Yn sgîl cau llyfrgelloedd yn ystod y pandemig, ychwanegwyd at bob agwedd ar yr hyn a gynigir yn ddigidol. O ganlyniad, mae lawrlwytho e-Lyfrau a llyfrau e-Sain yn ddigidol wedi codi 100%. | |
| **Cam 3.3.5 -** Byddwn ni'n datblygu'r hyn y mae ein theatrau'n ei gynnig i ddenu ystod eang o berfformiadau a chyflwyniadau. | **AMBR** |
| **Cynnydd y cam:**<br>Er bod y pandemig wedi cau'r theatrau yn ystod 2020/21 a hanner 2021/22, rydym ni'n dal i ddatblygu'r hyn sy'n cael ei gynnig yn ein theatrau, gan ddiwygio a monitro er mwyn denu ystod eang o sioeau a pherfformiadau. | |

| Blaenoriaeth gwelliant 3.4 - Canfod a datblygu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd cynaliadwy yng nghymunedau'r cymoedd ar draws y fwrdeistref sirol, gan wella iechyd a llesiant ein cymunedau | GWYRDD |
|---|---|
| **Cam 3.4.1 –** Byddwn ni'n gweithio gyda datblygwyr a phartneriaid i gyflwyno safleoedd datblygu strategol allweddol ar hyd coridor yr arfordir (gan gynnwys Coed Darcy, Glannau'r Harbwr ym Mhort Talbot, Parc Ynni Baglan a Champws Arloesedd Prifysgol Abertawe) a chyflawni twf cynaliadwy yn ardaloedd y cymoedd. | AMBR |

**Cynnydd y cam:**

- **Pentref Trefol Coed Darcy** – Mae St Modwen Developments Ltd wedi cyflwyno cais cynllunio amlinellol ar gyfer datblygiad defnydd cymysg gyda phob mater wedi'i neilltuo ac eithrio mynediad strategol. Mae'r cais hwn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. O ganlyniad, bydd y Cyngor a'r datblygwr yn parhau i gydweithio ar drafodaethau ynghylch cyfnodau'r datblygiad, y prif gynllun trosfwaol a'r Cytundeb Cyfreithiol Adran 106 ar gyfer darparu seilwaith ac amwynderau angenrheidiol.
- **Ailddatblygu Bae Baglan** – Dyhead hirdymor yw hwn sy'n debygol o gymryd sawl blwyddyn i'w gyflawni, gydag ardaloedd o fewn y dyraniad a allai fod yn addas i hwyluso'r twf yn yr economi wybodaeth. Mae'n bosib y bydd angen unedau mwy o faint yn sgîl y cynnydd mewn cyfleusterau ymchwil a datblygu mewn unedau llai ar Gampws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol abertawe, ac yng Nglannau'r Harbwr, wrth i'r safleoedd hyn barhau i ddatblygu, ac felly mae Bae Baglan yn darparu digon o le a seilwaith iddyn nhw ehangu. Mae'r safle yn elwa o statws parth menter, sy'n helpu i annog buddsoddi yn yr ardal.
- Oddi mewn i **Ardal Ailddatblygu Strategol Glannau'r Harbwr** mae gwaith yn symud ymlaen i roi sylw i faterion llifogydd a pharatoi safleoedd ar gyfer datblygu er mwyn hwyluso gwireddu'r cynigion ar gyfer ailddatblygiad defnydd cymys o'r ardal. Bydd gwaith paralel ar Barth Menter y Glannau ym Mhort Talbot yn bwydo i'r broses o wireddu dyheadau ar gyfer yr ardal hon.
- **Cais cynllunio amlinellol ar gyfer Canolfan Wildfox (Cwm Afan)** – Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol (yn amodol ar gytundeb cyfreithiol Adran 106) ar 18 Ionawr 2022. Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn cynnal trafodaethau cyn-ymgeisio fel rhagflaenydd i gyflwyno ceisiadau materion neilltuedig, a rhyddhau amodau ar gyfer penderfyniad erbyn mis Hydref 2022. Mae ymchwiliadau safle a gwaith paratoi yn digwydd ar y safle ar hyn o bryd i lywio'r ceisiadau hyn.
- **Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd (GCRE)** – Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol i hon ar 21 Gorffennaf 2021. Mae trafodaethau cyn-ymgeisio parhaus yn cael eu cynnal gyda'r Awdurdod er mwyn rhyddhau amodau, a chyflwyno Cyfnod 1 o'r

| | |
|---|---|
| datblygiad eleni. Gallai'r datblygiad hwn, ar safle glo brig gynt, ddarparu cyfleoedd adfywio a chyflogaeth, ynghyd â manteision cysylltiedig i'r rhanbarth ehangach.<br>• Yn ystod 'Galwad am Safleoedd Ymgeisiol' y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLlA) (1 Mawrth 2022 tan 31 Mai 2022), cynhaliwyd cyfarfodydd gyda thirfeddianwyr yr holl safleoedd uchod i drafod y dyheadau ar gyfer y safleoedd, a'r wybodaeth y byddai gofyn iddynt ei darparu er mwyn i'r safleoedd gael eu hystyried i'w dyrannu yn y CDLlA.<br>• Rydym ni'n datblygu ymhellach achos busnes y rhaglen Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel.<br>• Penderfynwyd ar 712 o 819 (87%) o'r holl geisiadau cynllunio yn brydlon yn ystod 2021/22. Targed 2021/22 oedd 95%. | |
| **Cam 3.4.2 –** Byddwn ni'n hyrwyddo ac yn diogelu portffolio amrywiol o dir cyflogaeth a chyfleoedd cyflogaeth yn y mannau cywir. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>Mewn cydweithrediad â Chyngor Abertawe rydym wedi penodi ymgynghorwyr (Turley) i gynnal Asesiad Tai a Thwf Economaidd i lywio'r Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLlA) sy'n dod i'r amlwg. Mae hwn yn ddarn allweddol o dystiolaeth a fydd yn pennu graddfa, lleoliad a swm y twf a fydd yn digwydd yn y Fwrdeistref Sirol yn ystod cyfnod y cynllun (15 mlynedd, o 2021-2036) ac yn llywio Dyraniadau Cyflogaeth a Pholisïau'r CDLlA. | |
| **Cam 3.4.3 -** Datblygu rhaglen wedi'i blaenoriaethu o fentrau i gyflawni twf economaidd yng nghymunedau ein cymoedd | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Yn ystod 2021/22 cefnogwyd 50 o fusnesau yn y cymoedd.<br>• Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol i'r 'Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd' (GCRE) ym mhen uchaf cymoedd Dulais a Thawe ar 21 Gorffennaf 2021.<br>• Mae ein Cynllun Adferiad Economaidd wedi cael ei fabwysiadu, a bydd yn canolbwyntio ar ein cymunedau yn y cymoedd, h.y. dechreuodd y tîm Datblygu Economaidd weithio ar ganfod partneriaid cymorth busnes allweddol er mwyn datblygu dull | |

cydweithredol o gefnogi busnesau o fewn yr economi sylfaenol, i helpu i sicrhau mwy o fanteision economaidd i'n cymunedau yn y cymoedd.

- Comisiynwyd astudiaeth i ddatblygu Strategaethau Adfywio ar gyfer canol ein trefi eilaidd a thrydyddol, sydd wedi'u lleoli yn y Cymoedd yn bennaf.
- Rydym ni'n datblygu cynnig i'r Gronfa Lefelu i Fyny fel rhan o agenda Lefelu i Fyny Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer Cwm Nedd, sy'n cwmpasu diwylliant, treftadaeth ac atyniadau twristiaeth.

| | |
|---|---|
| **Cam 3.4.4 –** Canfod a sicrhau cyllid i gyflwyno'r rhaglen a flaenoriaethwyd o fentrau yng nghymunedau'r cymoedd | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**

- Rydym ni'n datblygu cynnig i'r Gronfa Lefelu i Fyny fel rhan o agenda Lefelu i Fyny Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer Cwm Nedd, sy'n cwmpasu diwylliant, treftadaeth ac atyniadau twristiaeth.
- Rydym ni'n parhau i gyrchu cyllid Llywodraeth Cymru trwy'r Rhaglenni Buddsoddi Adfywio a Dargedwyd a Thrawsffurfio Trefi, yn ogystal â defnyddio ein Grantiau Eiddo Masnachol i gyflwyno prosiectau adnewyddu yn ein cymunedau yn y Cymoedd.
- Mae'r Tîm Datblygu Economaidd yn datblygu Cynlluniau Gweithredu penodol i gyflwyno ymyriadau cymorth busnes wedi'u targedu a helpu i gyflwyno Cynllun Adferiad Datblygu Economaidd Castell-nedd Port Talbot. Mae'r tîm hefyd yn ystyried amrywiol gyfleoedd cyllido megis y Gronfa Ffyniant a Rennir a chysylltu â phartneriaid allweddol i weithio ar y cyd ym mhob cymuned ar gyflawni ymyriadau.

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth gwelliant 3.5 - Gwarchod, cadw a gwella ein hamgylchedd naturiol (gan gynnwys seilwaith gwyrdd a glas, tirluniau a chefn gwlad pwysig, cynefinoedd a rhywogaethau a gwydnwch yr ecosystem ehangach), gan gynyddu ymwybyddiaeth o'i werth ac annog cyfranogiad ehangach** | **GWYRDD** |
| **Cam 3.5.1 –** Bydd holl wasanaethau'r cyngor yn cydweithio i gyflawni'r Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth. | **AMBR** |

**Cynnydd y cam:**

- Cafodd y Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth (CDB) ei adolygu, a chynhyrchwyd fersiwn wedi'i diweddaru a'i chymeradwyo ym mis Tachwedd 2021. Paratowyd y CDB mewn ymgynghoriad ag adrannau ar draws y Cyngor ac mae'n nodi camau sydd eisoes ar waith a chamau pellach a gyflawnir. Mae amrywiaeth y camau gweithredu yn sicrhau dull gweithredu mwy cydlynus rhwng gwasanaethau, fel bod y Cyngor yn cyflawni'r hyn sy'n ofynnol.
- Mae archwilio tir sy'n eiddo i'r cyngor (un o'r camau gweithredu) yn gwneud cynnydd da ar hyn o bryd, ac mae'r archwiliad o wasanaethau yn symud ymlaen, ond yn rhedeg yn hwyr, yn rhannol oherwydd Covid-19 ac yn rhannol oherwydd anawsterau capasiti staff. Mae proses Asesiad Effaith Integredig y Cyngor (AEI) hefyd yn cynnwys elfen ar fioamrywiaeth, ac o ganlyniad yn sicrhau bod holl effeithiau strategaethau, prosiectau a pholisïau yn cael eu hasesu'n briodol.
- Mabwysiadwyd dull newydd 'caru gwenyn' o reoli ymylon ein ffyrdd a'n glaswelltiroedd gan Fwrdd Cabinet Adfywio a Datblygu Cynaliadwy y Cyngor ym mis Gorffennaf 2021. Bydd hyn yn arwain at gynnydd mawr mewn rhywogaethau blodau gwyllt a'r pryfed fel gwenyn sy'n eu peillio, gan gefnogi ein Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chynllun Gweithredu Adferiad Natur CNPT.
- Mae 51 o ardaloedd sydd â chyfoeth o fioamrywiaeth yn cael eu diogelu a/neu eu gwella. Mae'r rhestr o safleoedd cadwraeth natur, sy'n cynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol, ardaloedd yr ydym ni'n gweithio arnynt ar hyn o bryd o dan brosiectau a ariannir a grantiau, a safleoedd sy'n rhan o gynllun Caru Gwenyn CNPT.
- Mae nifer yr hectarau o dir ym mherchnogaeth neu o dan reolaeth y cyngor sy'n cael ei ddiogelu a/neu sydd o dan reolaeth briodol ar gyfer bioamrywiaeth wedi gostwng o 179.4 i 161.1. Diddymwyd y safleoedd Gweithio gyda Natur oherwydd bod grant Llywodraeth Cymru wedi dod i ben, a bod oedi cyn i grant newydd gychwyn. Ychwanegwyd rhagor o safleoedd fel rhan o gynllun Caru Gwenyn CNPT. Mae cwmpas hyd y tir a reolir (Km) sy'n cynnwys ymylon yn bennaf wedi codi rhyw fymryn, o 22.79 Km i 23.12 Km.

| | |
|---|---|
| **Cam 3.5.2 –** Byddwn ni'n defnyddio ein pwerau statudol i herio lefelau annerbyniol o lygredd | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**

- Yn haf 2021, fe wnaethom ni gychwyn prosiect monitro ansawdd aer arloesol oedd yn ceisio darparu mesuriadau llygredd cywir "amser go iawn", er mwyn gallu cael hyd i atebion ar gyfer cymunedau mwy gwyrdd a iach. Mae'r prosiect, y cyntaf o'i fath yng Nghymru, yn astudiaeth beilot sy'n profi'r cysyniad o fonitro llygredd aer yn lleol, ac mae'n rhan o raglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe, ac yn cael ei chyflwyno fel rhan o'n Strategaeth Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy (DARE).
- Mae monitro ansawdd aer yn parhau ar draws CNPT. Mae ardal Port Talbot/Taibach yn dal i gael ei datgan yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA). Mae un o'n Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn y Cynllun Corfforaethol yn mesur nifer yr achosion o dorri'r trothwy $PM_{10}$ yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer (Port Talbot / Taibach). Ein targed blynyddol a bennwyd ar gyfer nifer y diwrnodau pan awn dros y terfyn llygredd $PM_{10}$ yw 35 diwrnod. Cafwyd 27 o achosion o fynd drosto yn ystod 2021/22.
- Ni chynhaliwyd asesiadau risg ar gyflenwadau dŵr preifat yn ystod 2021/22 oherwydd pwysau gwaith a chyfyngiadau Covid-19, ond cynhelir dulliau amgen o ymyrraeth yn unol â chyfarwyddyd yr Arolygiaeth Dŵr Yfed.

| | |
|---|---|
| **Cam 3.5.3 -** Byddwn ni'n gweithio ac yn ymgysylltu â chymunedau lleol a phartneriaid ehangach i gyflwyno rhaglen o weithgareddau a fydd yn cefnogi cyfranogiad pobl leol wrth ofalu am eu hamgylchedd naturiol. | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**

- Mae nifer o brosiectau wedi sicrhau cyllid (gweler cam 3.5.4 isod) i gefnogi ymgysylltiad cymunedol a gwirfoddoli yn yr amgylchedd lleol: Prosiect Mawndiroedd Coll De Cymru, Prosiect Cysylltu Seilwaith Gwyrdd, a phrosiectau Craig Gwladus. Mae'r rhain yn cefnogi ac yn uwchsgilio cymunedau lleol i ofalu am eu bioamrywiaeth lleol a'u hamgylchedd. Ar hyn o bryd mae 48 o wirfoddolwyr amgylcheddol yn gweithio gyda'r prosiectau hyn.
- Mae grŵp newydd o'r enw 'CNPT dros Natur' wedi cael ei sefydlu gan y Bartneriaeth Natur Leol a'i hwyluso gan y Tîm Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt. Nod y grŵp hwn yw hwyluso, ymgysylltu a chefnogi grwpiau cymunedol. Mae'n darparu llwybr i grwpiau o'r fath gael mynediad at gefnogaeth, arbenigedd a chyngor, gan sicrhau bod gweithredu gan wirfoddolwyr yn cael ei ganolbwyntio yn y modd

| | |
|---|---|
| mwyaf cynhyrchiol ac addas, ochr yn ochr â chefnogi'r amgylchedd naturiol lleol. | |
| **Cam 3.5.4 –** Byddwn ni'n gwneud y defnydd gorau o gyfleoedd ariannu allanol er mwyn ychwanegu gwerth at wasanaethau sydd eisoes yn bodoli, a chynyddu ein capasiti i gyflwyno prosiectau hirdymor, graddfa tirlun er budd yr amgylchedd naturiol a'r trigolion. | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**

- Dyfarnwyd £1.56 miliwn i Brosiect Partneriaeth Mawndiroedd Coll De Cymru o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, ac mae gwaith wedi cychwyn i adfer mawndiroedd a chynefinoedd ucheldir eraill ochr yn ochr ag ymgysylltu â chymunedau ym mhen uchaf Cwm Afan ac i mewn i ardal Rhondda Cynon Taf. Gweler astudiaeth achos y Mawndiroedd Coll ar dudalennau 90-92 isod.
- O'r diwedd cadarnhawyd cyllid Llywodraeth Cymru o dan y cynllun ariannu Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant ar gyfer Prosiect Cysylltu Seilwaith Gwyrdd (De-orllewin Cymru), ac mae'r gwaith wedi cychwyn. Mae'r rheolaeth safle a'r gwirfoddoli wedi ailgychwyn ar lawer o safleoedd, gan gynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol, a dechreuwyd datblygu cynigion SG newydd arloesol. Bu'r gronfa hon hefyd yn darparu cynllun grantiau bychain ar gyfer grwpiau cymunedol lleol.
- Mae prosiectau i wella Parc Gwledig Craig Gwladus ac ymgysylltu cymunedau a gwirfoddolwyr â'u hamgylchedd a'u treftadaeth wedi parhau, a sicrhawyd cyllid pellach o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i wneud gwaith prosiect pellach.
- Trwy gyllid adferiad gwyrdd codwyd nifer o dyrau bywyd gwyllt ym Mharc Gwledig y Gnoll a gwarchodfa natur leol Tomen y Bryn. Mae tystiolaeth o ddefnydd ohonynt gan dylluanod ac ystlumod o fewn ychydig fisoedd, ac maent wedi bod yn llwyddiant mawr.
- Trwy Gyllid 'Mannau Lleol i Fyd Natur' Llywodraeth Cymru, cyflwynwyd nifer o brosiectau i wella gwerth bioamrywiaeth safleoedd. Ymhlith y prosiectau mae creu gwarchodfeydd natur 'cerrig gwersylla' newydd ym Mharc Vivian a Wood Street.
- Bu cyllid Partneriaeth Natur Leol Cymru hefyd yn fodd i hwyluso a chefnogi Partneriaeth Natur CNPT, gan gynnwys datblygu Adroddiad Cyflwr Byd Natur CNPT (sydd i'w gyhoeddi yn 2022) a darparu cynllun grantiau bychain ar gyfer grwpiau cymunedol lleol.
- Mae Grantiau Gwella Mynediad Llywodraeth Cymru hefyd wedi cefnogi gwelliannau mynediad i'n Hawliau Tramwy Cyhoeddus, megis:
    - Llwybr Troed Newydd – Glyn-nedd (Earlsfield Close) – Gosodwyd hawl tramwy cyhoeddus newydd gyda strwythurau;
    - Llwybr Troed Newydd – Godre'r Graig (Hodgsons Road) – Gosodwyd hawl tramwy cyhoeddus newydd gyda grisiau concrid a chanllawiau;

| | |
|---|---|
| ○ Llwybr Troed 16 Cilybebyll – Prosiect i gyfnewid sawl sticill am gatiau mochyn;<br>○ Llwybr Troed 223 Llangiwg – Prosiect i wella arwyneb presennol y llwybr;<br>○ Amnewidiwyd nifer o bontydd hefyd, ynghyd â chyflawni prosiectau gwella eraill llai. | |
| **Cam 3.5.5 –** Byddwn ni'n gweithio i wella'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys gwella seilwaith gwyrdd er budd cymunedau gwledig a threfol. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br><br>Fel y manylir yng Ngham Cam 3.5.4 uchod | |
| **Blaenoriaeth gwelliant 3.6 - Gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r agenda cynllunio rhanbarthol** | **GWYRDD** |
| **Cam 3.6.1 -** Byddwn ni'n gweithio ar y cyd ag awdurdodau cymdogol i rychwantu a chyflwyno Cynllun Datblygu Strategol sy'n cyfateb i ofynion Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer cydweithio rhanbarthol trwy greu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (CJCs) ac mae'n gofyn bod Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSiau) yn cael eu paratoi. Mae trafodaethau rhwng yr awdurdodau cynllunio lleol ar draws y rhanbarth wedi parhau, i benderfynu sut dylid symud ymlaen i baratoi CDS, gan gynnwys ystyried y trefniadau llywodraethu, yr adnoddau sydd ar gael (staff/cyllid), ac amseriad paratoi'r cynllun.<br>• Mae gwaith wedi parhau yng nghyswllt cefnogi a chyfrannu at yr agenda ranbarthol. Cynhaliwyd trafodaethau rhwng Penaethiaid Gwasanaeth a Swyddogion Polisi yn rheolaidd i bennu rôl awdurdodau yn y dyfodol, cwmpas y gwaith sy'n ofynnol mewn unrhyw CDS yn y dyfodol, a'r posibiliadau o ran mentrau ac astudiaethau ar y cyd yn y dyfodol.<br>• Yn ddiweddar rydym wedi comisiynu nifer o astudiaethau gyda'n hawdurdodau cymdogol. Ymhlith yr astudiaethau hyn mae – Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd Cam 1 gyda rhanbarth De-orllewin Cymru; Astudiaeth Tai a Thwf Economaidd, Asesiad ar y Cyd o'r Farchnad Dai Leol, a mireinio Ardal Twf Cenedlaethol de-orllewin Cymru. Bydd y rhain yn darparu sylfaen o dystiolaeth ar gyfer y CDLlA a methodoleg a thystiolaeth posibl ar gyfer CDSiau yn y dyfodol. Rydym yn parhau i adeiladu ar berthnasoedd gwaith da gydag | |

| | |
|---|---|
| awdurdodau cymdogol, ac yn rhannu arfer gorau. | |
| **Cam 3.6.2 –** Byddwn ni'n gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu asesiad llesiant a fydd yn dadansoddi'r cryfderau, yr asedau, yr heriau a'r cyfleoedd yn ein cymunedau, er mwyn llywio'r Cynllun Llesiant nesaf. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) wedi cwblhau ei ail asesiad lleol o lesiant. Mae ymgynghori cyhoeddus wedi digwydd a chytunwyd ar yr asesiad terfynol gan y BGC ar 19 Gorffennaf 2022. Y camau nesaf fydd cytuno ar amcanion llesiant a datblygu manylion y cynllun llesiant sydd i'w gyhoeddi ym mis Mai 2023. | |
| **Blaenoriaeth gwelliant 3.7 - Hybu a chyflwyno hygyrchedd cynaliadwy a gwella cysylltedd a chysylltiadau cyfathrebu** | **GWYRDD** |
| **Cam 3.7.1 -** Byddwn ni'n gweithio gyda datblygwyr a phartneriaid i wella hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol; ynghyd â gwell gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a chysylltedd gwahanol foddau ar draws y fwrdeistref sirol a'r Ddinas-Ranbarth ehangach trwy gyflwyno seilwaith trafnidiaeth allweddol. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>Yn 2021/22 dyfarnwyd £721,000 o arian craidd i Gastell-nedd Port Talbot ar ben £195,000 ar gyfer gwaith dylunio teithio llesol, mân welliannau, cyd-drafodaethau tir a hyrwyddo cynlluniau. Mae'r gwaith a wnaed yn ystod 2021/22 yn cynnwys:<br>• Adnewyddu ein Map o'r Rhwydwaith Teithio Llesol (ATNM) i gydymffurfio â'r Ddeddf Teithio Llesol. Cymeradwywyd y map diwygiedig gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022.<br>• Wedi i bont Newbridge Road gael ei chau, ymchwiliwyd i lwybr amgen er mwyn cysylltu cymuned Sandfields â'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol. Er mwyn adeiladu'r llwybr, byddai angen prynu tir sydd mewn perchnogaeth breifat. Er gwaethaf ymdrechion parhaus, ni lwyddwyd, gwaetha'r modd, i sicrhau'r tir angenrheidiol. Serch hynny, rydym wedi llwyddo i sicrhau cyllid yn 2022/23 i gynnal astudiaeth ddichonolrwydd ar ailagor pont bresennol Newbridge Road ar gyfer teithio llesol, ac rydym yn bwriadu cyflwyno cais am | |

Gyllid Lefelu i Fyny i Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

- Gostyngwyd y terfyn cyflymdra ar y B4432 ger y llwybr teithio llesol gwell rhwng Castell-nedd a'r Tonna i 20mya; a gosodwyd mesurau ffisegol i arafu'r traffig fel bod defnyddwyr y llwybr teithio llesol yn gallu croesi'n fwy diogel.
- Gall rhwystrau ar lwybrau teithio llesol achosi cryn anghyfleuster i ddefnyddwyr, ac mewn rhai achosion olygu bod rhaid i feicwyr ddod oddi ar eu beiciau. Gallant hyd yn oed gau rhai defnyddwyr allan. Mae mwyafrif y cwynion a dderbynnir gan CNPT ynghylch llwybrau teithio llesol o ganlyniad i fesurau rheoli mynediad sydd naill ai'n atal mynediad neu'n golygu bod rhaid i ddefnyddwyr ddod oddi ar eu beiciau. Yn 2021/2022, cafodd 16 o rwystrau eu symud/cyfnewid.
- Cafodd 11 o gyffyrdd teithio llesol eu gwella yn 2021/2022.
- Beiciau a seddau - cafodd 8 o seddau a lle storio ar gyfer 20 o feiciau eu gosod.
- Cynhaliwyd ymarferiad monitro helaeth yn 2021/22 i gasglu data sylfaen ynghylch niferoedd y cerddwyr a'r beicwyr a chyflymder a swm y traffig yn ymyl llwybrau teithio llesol. Ar ben hynny, casglwyd data i ddangos cynnydd yn y defnydd o lwybrau teithio llesol a gwblhawyd yn ddiweddar.
- Cynhaliwyd ymarferiad i greu brand ar gyfer Teithio Llesol yn CNPT, ynghyd â diweddaru tudalen teithio llesol CNPT ar y we. Bydd y dudalen newydd ar y we yn cael ei lansio ar y cyd â'r Map newydd o'r Rhwydwaith Teithio Llesol pan fydd hwnnw wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.
- Gwaetha'r modd, oherwydd diffyg adnoddau, nid oedd modd cyflawni cynllun arfaethedig yn Afan Argoed.
- Cwblhawyd y gwaith dylunio ar 3 llwybr teithio llesol, a chynhaliwyd astudiaethau dichonolrwydd ar 14 o lwybrau a nodwyd ar Fap CNPT o'r Rhwydwaith Teithio Llesol.
- Cynhaliwyd astudiaeth ddichonoldeb ar wella cysylltiadau teithio llesol â gorsaf reilffordd Baglan.

Gweler hefyd gam 3.7.2 isod

| | |
|---|---|
| **Cam 3.7.2 -** Byddwn ni'n ymdrechu i gynnal ac ehangu'r rhwydwaith trafnidiaeth cyfredol ac archwilio atebion trafnidiaeth amgen lle nad yw gwasanaethau trafnidiaeth confensiynol yn gynaliadwy mwyach. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Mae gwaith yn parhau gyda Llywodraeth Cymru (LlC) a Thrafnidiaeth i Gymru (TfW) ar yr adolygiad strategol o'r rhwydwaith bysiau. Wrth symud ymlaen, bydd Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn gweithio gyda'r rhanbarth ar ddatblygu'r rhwydwaith bysiau lleol. Nodwyd Dinas a Sir Abertawe fel awdurdod arweiniol ar drafnidiaeth yn y rhanbarth. Mae'r prosiectau canlynol yn cael eu harchwilio gyda LlC a TfW ar hyn o bryd:<br>  ➢ Mae gan TfW ymgynghorwyr yn edrych ar ddichonoldeb ac effaith gwasanaeth bws trwodd o Ystradgynlais i'r Mwmbwls.<br>  ➢ Prosiect Bws Hydrogen – mae LlC yn edrych ar ddichonoldeb cyflwyno Bysiau Hydrogen ar ran o'r rhwydwaith bysiau strategol.<br>• Mae LlC yn ymgynghori ar ddiwygio deddfwriaethol: Un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn: cynllunio bysiau fel gwasanaeth cyhoeddus i Gymru. Mae rhai elfennau o'r cynnig yn cynnwys mynnu masnachfraint ar gyfer gwasanaethau bws ar draws Cymru, caniatáu i awdurdodau lleol greu cwmnïau bws newydd trefol, a llacio'r cyfyngiadau ar gwmnïau bws trefol sydd eisoes yn bodoli, fel eu bod yn yr un sefyllfa â rhai newydd.<br>• Buom yn gwella cyflwr ffyrdd A, ffyrdd B a ffyrdd C ymhellach, ac yn cyflawni targedau ar gyfer pob un o'r tri chategori o ffyrdd. | |
| **Blaenoriaeth gwelliant 3.8 - Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i wella cysylltedd a seilwaith ar draws y fwrdeistref sirol** | **GWYRDD** |
| **Cam 3.8.1 –** Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i wella seilwaith digidol a chysylltedd ar draws y fwrdeistref sirol gyfan. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Sicrhawyd cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu seilwaith ffeibr i Barc Mardon ar Barc Ynni Baglan, er mwyn helpu i ymateb i angen a galw amlwg mewn perthynas â chysylltedd gan fusnesau lleol yn y lleoliad busnes strategol allweddol hwn. Byddai hyn yn awr yn darparu cysylltedd digidol llawn i'r lleoliad busnes sy'n gwasanaethu rhyw 36 o fusnesau sy'n gysylltiedig â rhyw 200 o swyddi, ac yn darparu cysylltedd ag unedau o ryw 40,000 tr.sg. a gynlluniwyd i'r dyfodol, er bod rhai ffactorau allanol wedi effeithio ar y gwaith | |

| | |
|---|---|
| hwn ac achosi oedi o ran cynnydd.<br>• Gweithiwyd i gefnogi Dinas Ranbarth Bae Abertawe gyda'r materion cysylltedd digidol ehangach a chyfleoedd i ddod â budd i'r ardal a datblygu mwy o gysylltedd.<br>• Gweithiwyd gyda darparwyr seilwaith allanol eraill i hwyluso datblygu ac estyn darpariaeth seilwaith gydag ardal CNPT, megis darpariaeth ffeibr llawn i'r safleoedd e.e. Open Reach a BT.<br>• Byddwn ni'n parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cysylltedd yn symud ymlaen yn ardal CNPT.<br>• Buom mewn cysylltiad â'r Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon i amlygu'r materion oedd yn codi mewn perthynas â chysylltedd digidol yn ardal CNPT. | |
| **Cam 3.8.2 -** Byddwn ni'n helpu i hyrwyddo Rhaglen Llywodraeth Cymru i sicrhau Band Eang Cyflym iawn yng Nghymru. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Mae'r Tîm Datblygu Economaidd yn mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi cyflwyno Rhaglen Llywodraeth Cymru i sicrhau Band Eang Cyflym Iawn yng Nghymru trwy weithio'n barhaus ar y cyd i hyrwyddo'r cynllun ymhlith busnesau lleol. Ar hyd 2021/22, cafodd 253 o fusnesau lleol eu cefnogi trwy'r rhaglen Band Eang Cyflym Iawn (Superfast).<br>• Bu cyflwynwyr Superfast yn cydweithio'n agos â CNPT i ddatblygu cynnig i'r Gronfa Adnewyddu Cymunedol (CRF) i ddarparu cefnogaeth ddigidol ychwanegol i fusnesau lleol. Nod y prosiect hwn oedd gweithio ochr yn ochr â rhaglen Superfast i ategu, yn hytrach na dyblygu. Cymeradwywyd y cynnig CRF gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2021, ac yn dilyn ymarferiad caffael, dechreuwyd cyflwyno'r prosiect ym mis Mawrth 2022. Mae Superfast yn parhau i weithio mewn partneriaeth â ni i gyflwyno'r prosiect hwn, sy'n ceisio darparu cefnogaeth i sicrhau bod gan fusnesau lleol y sgiliau a'r technolegau cywir i wneud yn fawr o gyfleoedd twf wedi Covid, a manteisio'n llawn ar economi sy'n fwyfwy gwyrdd, digidol a hyblyg. | |
| **Cam 3.8.3 –** Byddwn ni'n cefnogi'r trydydd sector i alluogi mwy o bobl i gael mynediad at wasanaethau ar-lein. | **GWYRDD** |

| | |
|---|---|
| **Cynnydd y cam:**<br>Cyn y pandemig roedd nifer o sefydliadau cymunedol wedi sefydlu sesiynau eithrio digidol ymarferol, lle cafwyd hyd i wirfoddolwyr a'u hyfforddi i ddod yn Hyrwyddwyr Digidol. Yna sefydlwyd sesiynau wythnosol mewn cymunedau i gefnogi'r trigolion i gael mynediad i'r rhyngrwyd a chaffael y sgiliau digidol angenrheidiol i gael mynediad at wasanaethau digidol. Wrth i gymunedau ddechrau agor, rydym ni'n parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol (CVS) a Chymunedau Digidol Cymru (DCW) i ganfod gwirfoddolwyr addas a rhoi hyfforddiant iddyn nhw er mwyn ailgydio yn y fenter hon, yn ogystal â'i hestyn i fwy o grwpiau cymunedol, gan gynnig help a chefnogaeth a dysgu cymunedol ar sail anghenion yr unigolyn. Yn ystod 2021/22 buom ni'n:<br>• Parhau i gadw mewn cysylltiad â sefydliadau cymunedol ar draws Castell-nedd Port Talbot, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw am unrhyw gyfleoedd hyfforddi, a chynnig cefnogaeth yn ôl y galw.<br>• Parhau i fod yn aelod gweithredol o'r panel diogelwch cymunedol gydag aelodau o sefydliadau eraill, gan gynnwys Heddlu De Cymru, Safonau Masnach, DCW, CVS.<br>• Mynychu cyfarfodydd gyda'r Bartneriaeth Iach a Diogel yn cynnig cefnogaeth.<br>• Parhau i rannu arfer da a chyfnewid gwybodaeth gyda chyrff 3ydd sector, a chyflwyno sesiynau cynhwysiad digidol i grwpiau cymunedol ar sut mae cael mynediad at wasanaethau digidol a sut mae cadw'n ddiogel ar-lein. | |
| **Cam 3.8.4 –** Byddwn ni'n hyrwyddo pwysigrwydd strategaethau digidol effeithiol, gan gynnwys mesurau i ymdrin ag eithrio digidol, i bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). | **AMBR** |
| **Cynnydd y cam:**<br>Trwy waith y Grŵp Llywio Cynhwysiad Digidol, gwnaeth holl bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ymrwymiad ffurfiol i weithio tuag at egwyddorion y siarter cynhwysiad digidol, fel bod yr angen am ddarparu ar gyfer pobl a eithriwyd yn ddigidol yn cael ei adlewyrchu yn strategaethau digidol asiantaethau a chynlluniau cydraddoldeb asiantaethau. Gwaddol y grŵp hwn oedd rhwydwaith lle gallai'r partneriaid barhau i gefnogi ei gilydd a dysgu oddi wrth ei gilydd, ochr yn ochr â gwreiddio cynhwysiad digidol yng nghylch gorchwyl yr holl waith arall a gychwynnwyd gan y BGC.<br>Gwelwyd bod rhai newidiadau i gyflwyno gwasanaethau a ddigwyddodd o ganlyniad i'r pandemig yn fwy effeithlon a chost effeithiol, a bydd y gwersi hyn a ddysgwyd yn llywio'r ddarpariaeth i'r dyfodol. Bydd y cyfnod gwaith nesaf yn y maes hwn yn edrych ar seilwaith ac | |

| | |
|---|---|
| argaeledd a fforddiadwyedd band eang cyflym iawn. | |
| **Blaenoriaeth gwelliant 3.9 - Byddwn ni'n cyflwyno cyfres o ymyriadau a mesurau gwelliant ar draws y fwrdeistref sirol i fwyafu'r manteision a'r cyfleoedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a ddarperir gan yr agenda datgarboneiddio** | **GWYRDD** |
| **Cam 3.9.1 –** Byddwn ni'n mynd ati mewn dull cydlynus ar draws y Cyngor i gyflwyno amrywiaeth o fesurau fydd yn lleihau ôl troed carbon y Cyngor ei hun wrth gyflawni ei swyddogaethau. | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**


- Ym mis Medi 2021, cymeradwyodd yr Aelodau ddatblygu pwyntiau gwefru ar gyfer Cerbydau Trydan (EV) a Phaneli Solar Ffotofoltaidd yn y Ceiau i gefnogi'n cynllun pontio i gerbydlu trydan a datblygu polisi gwefru cerbydau trydan i'r staff ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.
- Gwnaed gwaith amnewid colofnau goleuadau stryd yng Nghanol Tref Castell-nedd, yn gysylltiedig â'r gwaith cyfnewid parhaus i lampau ynni isel, ym mis Mawrth 2022.
- Yn haf 2021, cychwynnwyd ar brosiect monitro ansawdd aer arloesol oedd yn ceisio darparu dull cywir "amser go iawn" o fesur llygredd, fel bod modd cael hyd i atebion ar gyfer cymunedau mwy gwyrdd a iachach. Mae'r prosiect, y cyntaf o'i fath yng Nghymru, yn astudiaeth beilot sy'n profi'r cysyniad o fonitro llygredd aer yn lleol, ac mae'n rhan o raglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe, ac yn cael ei gyflwyno fel rhan o'n Strategaeth Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy (DARE).
- Llwyddodd y tîm Datblygu Economaidd i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i gynnal astudiaeth ddichonoldeb ar ddatblygu Hwb Twf Glân yng Nghastell-nedd Port Talbot ac i wneud gwaith fyddai'n mapio'r prif asedau arloesedd academaidd a gweithgarwch carbon isel, e.e. y Ganolfan Ymchwil Tyrbinau Nwy, Canolfan Ymchwil Hydrogen, Clwstwr Diwydiannol De Cymru, yr Arddangosydd Ynni Gwres Solar (SHED), Prosiect Flexis, Lleihau Allyriadau Carbon Diwydiannol (RICE), etc. Defnyddir y gwaith hwn yn dystiolaeth ar gyfer cynigion ariannu yn y dyfodol, ac i lywio datblygiad Cynlluniau Gweithredu fydd yn cefnogi cyflwyno'r Cynllun Adferiad Datblygu Economaidd.
- Trwy symud ymlaen â dulliau Seilwaith Gwyrdd, prosiect cysylltu seilwaith gwyrdd, yn ogystal â'r Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth (CDB), mae symudiad at ddulliau gweithredu mwy gwyrdd, sydd felly'n lleihau carbon, yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae'r archwiliad CDB wedi cychwyn, fydd yn annog ffyrdd gwyrddach o weithio, ac mae'r prosiect Seilwaith Gwyrdd eisoes wedi dechrau

| | |
|---|---|
| edrych ar opsiynau posibl i wella seilwaith ac adeiladau cyhoeddus trwy gyflwyno Seilwaith Gwyrdd. Trefnwyd gweithdai hefyd yn ogystal i gynorthwyo staff mewnol a sefydliadau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. | |
| **Cam 3.9.2 –** Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a hybu a hwyluso economi wedi'i datgarboneiddio, byddwn ni'n gweithio gyda'r cyhoedd, ein partneriaid a busnesau lleol i rannu arfer da ac annog camau gweithredu. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Sicrhawyd cyllid o'r Gronfa Adnewyddu Cymunedol ym mis Chwefror 2022 i gyflwyno prosiect peilot wyth mis i gefnogi busnesau lleol arloesol yn y sectorau Gweithgynhyrchu, Peirianneg, TGCh, Technoleg Feddygol, Ynni Adnewyddadwy a sectorau busnesau eraill sy'n tyfu, trwy ddarparu llwyfan iddyn nhw drafod heriau a chyfleoedd i'r dyfodol, a rhannu enghreifftiau o arfer da mewn perthynas ag agenda datgarboneiddio.<br>• Ym mis Mawrth 2022, sefydlwyd Fforwm Busnes, cyflwynwyd dau ddigwyddiad, a datblygwyd rhaglen gyflawni ar gyfer holl gyfnod y prosiect. Daeth 25 o fusnesau i'r ddau ddigwyddiad cyntaf, lle cawsant wybodaeth a chysylltiadau â chyrff proffesiynol a chyflwyniadau gan arbenigwyr oedd yn ymwneud ag ymchwil ac arloesedd yn y sector ynni adnewyddadwy. Roedd y digwyddiadau hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygiadau newydd yn y rhanbarth sy'n defnyddio technoleg sy'n dod i'r amlwg ac ynni adnewyddadwy sy'n darparu cyfleoedd twf, h.y. "Gweledigaeth i'r Dyfodol ar gyfer dociau Port Talbot" gan Associated British Ports.<br>• Trefnwyd gweithdy ar Seilwaith Gwyrdd ar gyfer partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn helpu i rannu syniadau ac arfer da ynghylch Seilwaith Gwyrdd. | |
| **Cam 3.9.3 –** Byddwn ni'n gweithio i hwyluso a chyflwyno cipio carbon naturiol trwy reoli ein hadnoddau naturiol megis mawn mewn modd cynaliadwy, a phrosiectau a mentrau penodol. | **GWYRDD** |
| **Cynnydd y cam:**<br>• Mae gwaith i adfer mawndiroedd wedi cychwyn ym mhen uchaf Cymoedd Afan a Rhondda fel rhan o'r Prosiect Mawndiroedd Coll 4 blynedd sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. O'u cyfuno, bydd mawndiroedd ardal y prosiect yn storio rhyw 350,000 tunnell o Garbon, sy'n cyfateb i blannu 5,291,268 o goed a'u tyfu am 10 mlynedd.<br>• Trwy'r Prosiect Cysylltu Seilwaith Gwyrdd mae ymchwiliadau'n parhau ynghylch plannu coed mewn ardaloedd lle mae galw mawr (h.y. prinder coed yn y canopi), yn arbennig yn Sandfields ac Aberafan. | |

| | |
|---|---|
| **Cam 3.9.4 –** Byddwn ni'n gweithio i ymdrin ag unrhyw rwystrau i ddatblygu ynni adnewyddadwy ar draws y fwrdeistref sirol ac yn hybu defnydd cynaliadwy a phriodol o adnoddau adnewyddadwy. | **GWYRDD** |

**Cynnydd y cam:**

Mae data Llywodraeth Cymru (2019) (y diweddaraf sydd ar gael) isod yn dangos Cyngor CNPT yn arwain y ffordd, ar y cyd â Chyngor Powys.




Dangoswyd yn glir fod ynni adnewyddadwy a defnydd priodol o adnoddau adnewyddadwy a thechnolegau yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol trwy ein Strategaeth DARE a rhaglenni sy'n cefnogi hynny, megis Cartrefi sy'n Bwerdai y Fargen Ddinesig, cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel a Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif etc. Mae hon yn broses iterus a bydd yn esblygu'n barhaus. Byddwn ni'n parhau i

weithio i roi sylw i rwystrau er mwyn i ni fedru adeiladu ar y cynnydd a wnaed eisoes.

Ar ben hynny, mae angen i swyddogion perthnasol yn yr Adrannau Eiddo ac Adfywio a Chynllunio gwrdd ac adolygu a nodi camau gweithredu a gweithgarwch pellach er mwyn cynyddu'r ynni adnewyddadwy a gynhyrchir ar draws y fwrdeistref sirol a sbarduno hybu adnoddau adnewyddadwy.

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol Amcan Llesiant 3:**

Ceir gwybodaeth fanylach a sylwadau ar berfformiad yn ein cyfres lawn o ddangosyddion perfformiad:

| Dangosydd Perfformiad | 2019/20 Gwirioneddol | 2020/21 Gwirioneddol | 2021/22 Gwirioneddol | 2021/22 Targed | Perff. CAG yn erbyn Targed 21/22 | Perff. CAG yn erbyn 20/21 Gwirioneddol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **3 Amcan Llesiant 3 – Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl** | | | | | | |
| CP/063 – Nifer y swyddi a grewyd/ddiogelwyd o ganlyniad i gefnogaeth ariannol gan yr awdurdod lleol | 610 | 470 | 410 | 280 | Gwyrdd | Coch |
| CP/067- Canran y gwastraff a gafodd ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio | 61.74 | 67.56 | 66.00 Data dros dro | 64.00 | Gwyrdd | Ambr |
| CP/068 – Cilogramau o wastraff gweddilliol a gynhyrchwyd fesul person | 182.02 | 209.7 | 204.37 | Dim targed wedi'i bennu | **Amh** | Gwyrdd |
| CP/069 - Canran y strydoedd sy'n lân | 93.86 | 90.98 | 92.85 | 91.00 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/070 - Nifer y diwrnodau i glirio sbwriel a ollyngwyd yn anghyfreithlon, ar gyfartaledd | 2.97 | 2.84 | 4.52 | 2.84 | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Coch | Coch |
| CP/072 – Nifer yr ymweliadau â’n theatrau | 217,161<br>**9 mis o ddata oherwydd COVID-19** | Dim data oherwydd COVID-19 | 105,647 | | **Amh** | **Amh** |
| CP/073 – Canran y dangosyddion ansawdd a gyflawnwyd gan y Gwasanaeth Llyfrgelloedd | 72.2% | Data heb ei gyhoeddi oherwydd Covid | | Dim targed wedi’i bennu | **Amh** | **Amh** |
| CP/074 – Nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden fesul 1,000 o’r boblogaeth | 7,758<br>**Data 9 mis** | Dim data oherwydd COVID-19 | 4,810 | | **Amh** | **Amh** |
| CP/078 – Nifer yr achosion o fynd dros y trothwy PM10 yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer (Port Talbot / Taibach) | 7 | 16 | 27 | 35 | Gwyrdd | Coch |
| CP/083 – Canran y ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael | 4.99 | 3.38 | 2.55 | 5.00 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/084 – Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael | 2.84 | 2.40 | 1.87 | 5.00 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/085 – Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael | 5.68 | 4.78 | 4.17 | 10.00 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/113 – Canran o’r holl geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt yn brydlon | 97.44 | 95.4 | 86.94 | 95.00 | Coch | Coch |
| CP/120 – Swm y tir o dan berchnogaeth neu reolaeth y Cyngor sy’n cael ei ddiogelu a/neu sydd o dan drefniadau rheoli priodol ar gyfer bioamrywiaeth: Rhan A: Arwynebedd (hectarau) | 179.39 | 179.39 | 160.65 | 179.40 | Coch | Coch |
| CP/121 - Swm y tir o dan berchnogaeth neu reolaeth y Cyngor sy’n cael ei ddiogelu a/neu sydd o dan drefniadau rheoli priodol ar gyfer bioamrywiaeth: Rhan B: Hyd (km) | 22.79 | 22.79 | 23.12 | 22.80 | Gwyrdd | Gwyrdd |

**Astudiaeth Achos 3 :** Prosiect Mawndiroedd Coll De Cymru

**Cefndir:** Mae mawn yn amhrisiadwy o ran storio carbon a chynefin bywyd gwyllt, ac mae'n hanfodol ar gyfer lliniaru'r newid yn yr hinsawdd a gwyrdroi dirywiad bioamrywiaeth. Cychwynnodd prosiect 'Mawndiroedd Coll De Cymru' ym mis Gorffennaf 2021, ac mae'n cael ei gyflwyno gan Bartneriaeth y Mawndiroedd Coll, sef Cyngor Castell-nedd Port Talbot (Arweinydd), Cyngor Rhondda Cynon Taf, Cyfoeth Naturiol Cymru, Prifysgol Abertawe a Coed Lleol. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ucheldir De Cymru. Mae'n adfer y tirlun mawndir hanesyddol hwn ac yn helpu pobl i fwynhau eu gofod awyr agored lleol. Mae'r prosiect wedi sicrhau £1.56m o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, ac yn sgîl ariannu cyfatebol gan bartneriaid a Chronfa Rheoli Cynefin Fferm Wynt Pen y Cymoedd Vattenfall, mae cyfanswm gwerth y prosiect bellach yn fwy na £2.8m. Mae'r prosiect yn darparu rhaglen eang o welliannau amgylcheddol a gweithgareddau cymunedol a fydd yn parhau tan ddechrau 2025.

**Y weledigaeth ar gyfer y prosiect:** Trwy adfer cynefinoedd a rheoli adnodd mawndir coll yn well, ein nod yw adennill y tirlun rhyfeddol, cael effaith gadarnhaol ar y newid yn yr hinsawdd a chynyddu bioamrywiaeth yr ardal. Trwy well mynediad, dehongli, arwyddion a hyrwyddo byddwn ni'n denu ac yn annog archwilio ardal y Mawndiroedd Coll. Bydd hyn yn darparu cyfleoedd i bobl fwynhau'r tirlun a chael budd ohono. Byddwn ni'n cysylltu pobl leol ac ymwelwyr â chyfoeth treftadaeth yr ardal. Trwy gynnig addysg, hyfforddiant, gweithgareddau a digwyddiadau i bawb, byddwn ni'n grymuso cymunedau'r prosiect i ennyn mwy o ymdeimlad o stiwardiaeth, ac yn y pen draw i ailddarganfod ac adfywio'r Mawndiroedd Coll.





**Sut mae’r gwaith hwn yn cyfrannu at 5 ffordd o weithio egwyddor datblygu cynaliadwy:**

- **Tymor hir –** Bydd y prosiect yn cyflwyno gwelliannau amgylcheddol hirdymor trwy adfer cynefinoedd, gan gynnwys mawndiroedd. Bydd adfer mawndiroedd yn cyfrannu at yr ymateb i’r newid yn yr hinsawdd, gan gloi carbon i mewn i’r mawn ar gyfer y tymor hir. Trwy uwchsgilio, addysgu a chefnogi gwirfoddolwyr lleol ac aelodau o’r gymuned, byddwn ni’n rhoi sgiliau a gwybodaeth i unigolion fydd yn eu cynorthwyo o ran eu dyheadau cyflogaeth i’r dyfodol. Rydym ni’n cefnogi cymunedau lleol i sefydlu grwpiau ‘cyfeillion’ er mwyn sicrhau bod modd i’r rheolaeth ar safleoedd barhau wedi’r prosiect.
- **Integreiddio –** Mae’r prosiect yn cael effaith gadarnhaol ar nifer o’r nodau llesiant cenedlaethol. Ar lefel y Cyngor, mae’r prosiect hwn ar gyfer 2021/22 yn cyfrannu at Amcan Llesiant 3: Bydd modd i genedlaethau’r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a’n treftadaeth. Wrth symud ymlaen mae hyn yn cyfrannu at nifer o amcanion allweddol a gyflwynwyd yn y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2022/2027. Mae adfer mawndiroedd wedi’i gynnwys yn ein Strategaeth DARE ac mae nifer o gamau gweithredu yn ein Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth y mae’r prosiect hwn yn cyfrannu atynt. Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch sut mae Amcan Llesiant 3 yn gweithio ar y cyd at gyflawni’r 7 Nod Llesiant Cenedlaethol ar dudalennau 65 a 66 uchod.
- **Ymwneud –** Mae cymunedau lleol, gwirfoddolwyr ac ysgolion i gyd yn ymwneud â’r prosiect. Mae gwirfoddolwyr lleol yn allweddol i’r prosiect, gan gynnwys helpu i reoli a monitro safleoedd. Mae ysgolion yn tyfu eu Migwyn (Mwsogl Mawn) a fydd yn cael ei blannu allan yn ein mawndiroedd er mwyn helpu’r adferiad. Mae arbenigwyr lleol a thrigolion yn rhoi mewnbwn ar wybodaeth ddehongli ac yn helpu gyda digwyddiadau. Hefyd, mae ein grŵp rhanddeiliaid yn helpu i lywio a hysbysu’r prosiect.
- **Cydweithio –** Mae’r prosiect yn cael ei gyflwyno mewn partneriaeth â Chyngor Rhondda Cynon Taf, Cyfoeth Naturiol Cymru, Prifysgol Abertawe a Coed Lleol, ac yn fodd i ni elwa o’r ystod o arbenigedd sydd ar gael ar draws y partneriaid hyn. Mae gan y prosiect hefyd grŵp rhanddeiliaid a nifer o weithgorau sy’n rhoi mewnbwn ac yn helpu i lywio’r prosiect – mae’r rhain yn cynnwys ystod eang o sefydliadau a phartïon â diddordeb ar draws ardal y prosiect. Mae cydweithrediad partneriaid a phartïon allweddol wedi arwain at fanteision ychwanegol aruthrol, a bydd hynny’n ehangu’r cyfleoedd ymchwil, gan sicrhau bod modd i ardal y prosiect ddod yn hwb cenedlaethol ar gyfer ymchwil mawndir.
- **Ataliaeth –** Yn arbennig trwy elfennau addysgiadol y prosiect rydym ni’n cynyddu’r gwerthfawrogiad o’r ardal leol a’r tirlun. Wrth i safleoedd ddechrau cael eu rheoli’n weithredol gan wirfoddolwyr, mae mwy o stiwardiaeth ar yr ardal yn cael ei gwreiddio yn y cymunedau. Y gobaith yw y bydd hyn yn ei dro yn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, e.e. llosgi bwriadol. Mae ein rhaglenni Iechyd a Llesiant yn darparu llwybr i bobl sydd â phroblemau iechyd corff a meddwl gael mynediad at help a gweithgareddau, gan leihau’r baich ar y GIG. Trwy adfer mawndir, rydym hefyd yn lleihau allyriadau carbon, gan helpu i ymateb i’r newid yn yr hinsawdd.

**Uchafbwyntiau allweddol y prosiect:**

- Bydd ardal y prosiect yn storio tua 350,000 Tunnell o Garbon, sy’n cyfateb i blannu 5,291,268 o goed a’u tyfu am 10 mlynedd.
- Rhaglen Adfer a Rheoli: Bydd y prosiect yn adfer ac yn rheoli mwy na 490 hectar o gynefinoedd. Ffocws arbennig yw adferiad uniongyrchol 256 o hectarau a fu gynt yn gorsydd mawn a phyllau coediog. Mae gwaith eisoes wedi cychwyn, ac mae rhyw 25 hectar o gors mawndir eisoes wedi cael eu

hadfer yn Ardal Adfer Cynefin Castell Nos (yn y llun uchod ar y chwith).

- Rhaglen Dysgu a Sefydlu Arfer Gorau: Mae'r prosiect yn ymgysylltu â 7 ysgol leol mewn rhaglen dysgu awyr agored, lle mae'r plant yn profi ac yn dysgu am eu hamgylchedd lleol, yn arbennig y mawndiroedd. Mae'r prosiect hefyd yn gwella tiroedd ysgol er mwyn cynorthwyo dysgu yn yr awyr agored. Mae amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer dysgu oedolion ac uwchsgilio hefyd yn rhan allweddol o'r prosiect. Mae hyfforddiant Agored hefyd wedi cychwyn, gyda nifer o bobl yn gweithio tuag at gymwysterau. Mae Prifysgol Abertawe, sy'n bartner allweddol, yn sicrhau bod y gwaith adfer mawn yn cael ei fonitro'n fanwl, gan lywio gwaith ymchwil parhaus pwysig i lywio technegau adfer arfer gorau yng Nghymru.
- Rhaglen Fynediad: Mae mynediad i'r tirlun yn cael ei hwyluso hefyd trwy lwybrau troed gwell, gyda chyfarwyddiadau a dehongli. Nodwyd nifer o lwybrau cylchol byr yn agos at fannau gwyllt cymunedol, ynghyd â llwybr cerdded hir – Ffordd y Mawndir. Mae'r rhain i gyd i gael eu cyfeirbwyntio (arwyddion ar y llwybr) eleni. Mae'r prosiect wedi ymgysylltu â'r Crwydriaid (Ramblers) Cymru, a fydd yn hyfforddi gwirfoddolwyr i fonitro'r llwybrau newydd hyn.
- Rhaglen Iechyd a Llesiant a Chymunedau: Mae'r prosiect yn cynnig cyfleoedd i bobl leol ymwneud â'r dreftadaeth ar garreg y drws trwy amrywiaeth o weithgareddau di-dâl, digwyddiadau, a chyfleoedd i wirfoddoli. Mae teuluoedd ac oedolion hefyd yn gallu ymuno neu gael atgyfeiriad i raglenni gweithgareddau iechyd a llesiant y prosiect. Mae'r gweithgareddau wedi cynnwys teithiau tywys, gweithgareddau celf a chrefft, teithiau fferm wynt, cerfio llwyau etc.
- Cynyddu Ymwybyddiaeth a Hyrwyddo: Mae'r prosiect yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r amgylchedd lleol a'i dreftadaeth a'i fywyd gwyllt diddorol. Mae ap symudol yn cael ei ddatblygu i annog pobl i archwilio'r ardal, yn ogystal â'u haddysgu am fawndiroedd. Rydym hefyd yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol, YouTube, ein gwefan a'r teulu i hyrwyddo'r prosiect.

Mae'r prosiect wedi cwblhau ei flwyddyn gyntaf, a dyma rai o'r **canlyniadau allweddol** i gymunedau lleol:

- Mae 25 o wirfoddolwyr wedi cael cyfnod sefydlu i gyfrannu at y prosiect hyd yma, ac mae 125 o gyfranogwyr wedi cael eu hyfforddi
- Hyfforddwyd 30 o athrawon mewn dysgu awyr agored, ac mae 192 o blant ysgol wedi cymryd rhan yn ein rhaglen ddysgu amgylcheddol/awyr agored
- Mae 240 o gyfranogwyr wedi ymuno â gweithgareddau/digwyddiadau
- Mae 109 o bobl wedi elwa o'n rhaglenni Iechyd a Llesiant o weithgareddau
- O'r bobl hynny a fu'n mynychu rhaglenni iechyd a llesiant, roedd 95% yn cytuno neu'n cytuno'n bendant bod y sesiynau'n ddifyr, ac mae dros 50% yn bwriadu ymweld yn aml â safleoedd/mannau gwyrdd yn ardal y prosiect, cynnydd o 13% cyn mynychu ein sesiynau
- Mae'r holl weithgareddau wedi cael derbyniad da, gydag adborth arbennig o braf gan yr ysgolion.

## 7. Llywodraethu ac Adnoddau

Mewn adroddiadau blynyddol blaenorol byddai'r adran hon yn cynnwys manylion am ein trefniadau a'n cynnydd o ran themâu strategol allweddol fel cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad, rheoli risg, trefniadau llywodraethu, cynllunio'r gweithlu, cynllunio ariannol, caffael, rheoli asedau, ymgysylltu, cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, cydweithio a gwybodaeth ynghylch beth mae ein rheoleiddwyr wedi'i ddweud. Bydd yr wybodaeth honno'n cael ei chynnwys yn Hunanasesiad Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2021/22, a gyhoeddir yn ddiweddarach. Mae dyletswydd newydd ar y Cyngor o fis Ebrill 2021, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (2021), i gynhyrchu hunanasesiad blynyddol ar lefel gorfforaethol ar gyfer y Cyngor.

Ar ben hynny, cynhwyswyd yn ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2021/2023 nifer o fesurau perfformiad sy'n asesu rhai o'n trefniadau llywodraethu a throsfwaol. Crynhoir y cynnydd ar y mesurau hyn yn 2021/22 isod, a chynhwysir manylion am y mesurau a'u perfformiad isod hefyd:

**Llywodraethu ac Adnoddau – Crynodeb o'r Dangosyddion Perfformiad allweddol:**

- Cyfraddau salwch wedi cynyddu'n sylweddol
- Cododd yr amserau ar gyfartaledd i ateb galwadau ffôn yn achos galwadau Cymraeg a Saesneg, ond gwelwyd gwelliannau yn ail hanner y flwyddyn
- Roedd y cyfraddau casglu annomestig cenedlaethol a chyfraddau adennill treth y cyngor, fel ei gilydd, yn uwch na'r targedau, gyda chyfraddau casglu dros 98%
- Cynnydd yng nghanran y bobl 3 oed a throsodd sy'n medru'r Gymraeg
- Ni chawsom unrhyw argymhellion statudol ynghylch ein trefniadau perfformiad a chynllunio
- Dilyswyd 97.25% o Etholwyr Llywodraeth Leol a'u cofrestru i bleidleisio yn etholiadau mis Mai; roedd hyn yn rhagori ar y targed o 96.5%.
- Cynyddodd y trawiadau ar ein gwefan, a chrewyd 16 o wasanaethau newydd ar-lein yn ystod 2021/22.

Ceir gwybodaeth fanylach a sylwadau ar berfformiad yn ein cyfres lawn o ddangosyddion perfformiad:

| Dangosydd Perfformiad | 2019/20 Gwirioneddol | 2020/21 Gwirioneddol | 2021/22 Gwirioneddol | 2021/22 Targed | Perff. CAG yn erbyn Targed 21/22 | Perff. CAG yn erbyn 20/21 Gwirioneddol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraethu ac Adnoddau (trosfwaol) – Sicrhau bod busnes y Cyngor yn cael ei reoli er mwyn mwyafu'r manteision hirdymor ar gyfer dinasyddion Castell-nedd Port Talbot** | | | | | | |
| CP/086 - Nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd i absenoldeb salwch fesul cyflogai – diwrnodau Salwch CALl a gollwyd | 12.13 | 8.13 | 13.28 | 8.40 | Coch | Coch |
| CP/088 - Nifer yr argymhellion statudol a wnaed gan archwilwyr allanol y Cyngor ar drefniadau cynllunio strategol a gweithrediadol | 0 | 0 | 0 | 0 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/097 - CS/001 – Gwasanaethau i Gwsmeriaid – Amserau aros i gwsmeriaid ar gyfartaledd (wyneb yn wyneb) | 8.00 | Dim data oherwydd COVID-19 | Dim data oherwydd COVID-19 | 10.00 | **Amh** | **Amh** |
| CP/098 - CS/004 – Gwasanaethau i Gwsmeriaid – Canran y cwsmeriaid sy'n ymadael cyn cael eu gweld | 0.34 | Dim data oherwydd COVID-19 | Dim data oherwydd COVID-19 | 0.50 | **Amh** | **Amh** |
| CP/101 - CS/002a – Gwasanaethau i Gwsmeriaid – Amser ar gyfartaledd (eiliadau) i ateb galwadau ffôn yn Gymraeg | 45 | 51 | 57 | 40 | Coch | Coch |
| CP/102 - CS/002b – Amser ar gyfartaledd (eiliadau) i ateb galwadau ffôn yn Saesneg | 52 | 43 | 44 | 40 | Coch | Ambr |
| CP/105 - CFH/008 – Canran y trethi annomestig oedd yn ddyledus ar gyfer y flwyddyn ariannol a dderbyniwyd gan yr awdurdod lleol | 98.71 | 98.06 | 98.90 | 98.00 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/106 - PAY/001 – Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod | 94.25 | 93.35 | 94.15 | 95.00 | Ambr | Gwyrdd |
| CP/107 - CFH/007 – Canran treth y cyngor oedd yn ddyledus ar gyfer y flwyddyn ariannol a dderbyniwyd gan yr awdurdod | 98.07 | 97.54 | 98.01 | 97.00 | Gwyrdd | Gwyrdd |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CP/114 – Canran y bobl 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg | 20.62 | 22.47 | 22.77 | Dim targed eleni | **Amh** | Gwyrdd |
| CP/122 – Nifer y gwasanaethau newydd sydd ar gael ar-lein | 22 | 11 | 16 | 12 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/123 - Nifer y trawiadau ar y Wefan Gorfforaethol - a) Tudalennau Cymraeg | 34045 | 23423 | 29177 | 25000 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/124 – Nifer y trawiadau ar y Wefan Gorfforaethol - a) Tudalennau Saesneg | 3,42,253 | 3,980,097 | 4,890,770 | 4,000,000 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/125 - % Etholwyr Llywodraeth Leol (trwy bob llwybr) a ddilyswyd ac a gofrestrodd i bleidleisio:<br>Llwybr 1: Yr Adran Gwaith a Phensiynau a pharu data lleol<br>Llwybr 2: Eiddo heb eu paru<br>Llwybr 3: Eiddo meddiannaeth lluosog e.e. cartrefi gofal preswyl a llety i fyfyrwyr | Amh newydd | | 97.25 | 96.5 | Gwyrdd | **Amh** |

## 8. Gwariant Ariannol

Ar gyfer 2021/22, ein targed gwreiddiol ar gyfer arbedion cyllideb yn ystod y flwyddyn oedd £0.135 miliwn, yn ogystal â'r gostyngiadau gwariant cronnol i ryw £95 miliwn ers 2010. Fodd bynnag, mae 2021/22 wedi bod yn flwyddyn gwbl anghyffredin o ran rheoli effeithiau Covid-19, cefnogi'r gwasanaeth iechyd a'r trigolion trwy ddarparu cymorth brechu a Phrofi, Olrhain a Diogelu, amddiffyn pobl fregus, cynnal gwasanaethau critigol, darparu taliadau ychwanegol i fusnesau, teuluoedd ac unigolion ac i lawer o staff trwy weithio'n ddigidol o gartref. Cyllideb Net y Cyngor ar gyfer 2021/22 oedd £316.246m. Mae Union Wariant Net, neu sefyllfa Ganlyniadol y Cyngor, yn dangos tanwariant net o £670k. Derbyniodd y

Cyngor gyllid Grant Covid-19 o fwy nag £20m, gan gynnwys £12m arall a dalwyd i gefnogi busnesau ac unigolion ar draws y fwrdeistref sirol.

Cyflwynodd ein Rhaglen Gyfalaf hefyd ryw £75m o fuddsoddiad cyfalaf yn ystod y pandemig i wella cyfleusterau ar draws y fwrdeistref sirol. Mae hyn yn cynnwys:

- Symud ymlaen gyda rhaglen Band B Ysgolion 21 Ganrif y Cyngor;
- Symud ymlaen i'r rhaglen adfywio, gan gynnwys Glannau'r Harbwr, Ailddatblygu Canol Tref Castell-nedd, y Plaza a'r Ganolfan Dechnoleg.
- Buddsoddiad pellach o £3.17m mewn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl i gynorthwyo pobl i fyw gartref a buddsoddi dros £3m mewn Gwaith Cynnal a Chadw Cyfalaf mewn Ysgolion a gwelliannau i waith cynnal a chadw Priffyrdd a Pheirianneg.
- Gwaith ailddatblygu yn Uned Ddiogel Hillside.
- Ailfodelu Cyfleuster Gwastraff y Cyngor yn Nhwyni Crymlyn fel Gorsaf Drosglwyddo gyda mwy o gapasiti ailgylchu a chyfleusterau ar gyfer gwaith ailgylchu'r Cyngor, wrth iddo ehangu.

Ar 1 Mawrth 2022, cymeradwyodd y Cyngor gyllideb 2022/2023 ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid. Nid oedd angen i wasanaethau wneud unrhyw arbedion er mwyn y gyllideb oherwydd bod y Cyngor yn derbyn cynnydd o 8.8% yn y cyllid gan Lywodraeth Cymru. Roedd y cynnydd hwn hefyd yn golygu nad oedd rhaid cynyddu elfen Cyngor Castell-nedd Port Talbot o filiau Treth y Cyngor.

## 9. Rhowch eich barn ar y pethau sy'n bwysig i chi

Rydym ni'n croesawu adborth ar yr wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Blynyddol hwn trwy:

E-bost: policy@npt.gov.uk neu drwy'r post: Y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot, SA13 1PJ

Mae'r Panel Dinasyddion yn galluogi trigolion i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n ymwneud â'r cyngor. Mae hynny'n golygu y byddwch chi'n gallu rhoi eich barn i ni ar bolisïau'r cyngor, ei flaenoriaethau a/neu ei wasanaethau. Bydd yr adborth yn ein helpu i ddeall persbectif y trigolion, a byddwn ni'n ei ddefnyddio i'n helpu i wneud penderfyniadau. Ni fydd angen unrhyw wybodaeth am wasanaethau'r cyngor arnoch chi i ddod yn aelod o'r panel. Rydym ni'n chwilio am amrywiaeth barn gan ystod o wahanol bobl. Gellir gofyn i aelodau'r panel gymryd rhan mewn holiaduron ar-lein, trafodaethau anffurfiol, gweithdai, cyfweliadau ffôn a mathau eraill o ymgyngoriadau. Os hoffech chi ymuno, llenwch yr holiadur recriwtio sydd ar gael yma.

Mae gennym ni hefyd nifer o ddigwyddiadau ymgynghori/ymgysylltu ynghylch amrywiol wasanaethau yr ydym ni'n eu hyrwyddo yn y wasg ac ar y wefan; gallwch chi gael mynediad iddyn nhw trwy'r ddolen hon: http://www.npt.gov.uk/dweudeichdweud

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Ewch i wefan y Cyngor: www.npt.gov.uk

Dilynwch ni ac ychwanegu eich sylwadau ar dudalen Facebook y Cyngor: https://www.facebook.com/Castell-neddPortTalbotCBC

Dilynwch yr adroddiad hwn ac ychwanegu eich negeseuon Trydar ar ein Tudalen Twitter: @CyngorCnPT

Dilynwch ni ar Instagram: https://www.instagram.com/nptcouncil/